# Thema 1 UG Dadleuon dros fodolaeth Duw – anwythol

## 1A UG Dadleuon anwythol: Cosmolegol

### Profi eich hun, tudalen 6

1 Beth yw ystyr empirig?

Data synhwyraidd o'r byd ffisegol.

2 Pam mae angen i ddadl fod yn ddilys?

I ddadl athronyddol fod yn llwyddiannus, mae'n rhaid i'r casgliad ddilyn yn rhesymegol o'r rhagosodiadau heb fylchau yn y rhesymu yn ystod y rhagosodiadau na gwybodaeth newydd sydd heb ei hesbonio yn y casgliad.

3 Rhowch enghraifft o ddadl anwythol.

**Ateb enghreifftiol:**

Mae tisian yn symptom o annwyd.

Fe wnes i disian.

Felly mae annwyd arna i.

### Profi eich hun, tudalen 7

1 Pa enghraifft a allai ddangos beth roedd Aquinas yn ei olygu wrth mudiant?

Proses hylif (dŵr) yn rhewi i ddod yn solid (iâ).

2 Sut mae'r Ail Ddull yn wahanol i'r Dull Cyntaf?

Mae'r Dull Cyntaf yn ymwneud â mudiant – sut mae pethau'n caffael priodweddau.

Mae'r Ail Ddull yn ymwneud ag achos ac effaith – sut dechreuodd pethau fodoli.

3 Diffiniwch y geiriau amodol ac angenrheidiol.

Amodol: Yn dibynnu ar rywbeth arall am ei fodolaeth. Mae'n gallu dechrau bodoli a pheidio â bodoli.

Angenrheidiol: Heb fod yn dibynnu ar unrhyw beth arall am ei fodolaeth. Mae'n methu peidio â bodoli. Yn methu dechrau na gorffen bodoli.

### Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 8

Pa mor ddilys neu gadarn yw'r dadleuon gan Aquinas a Lane Craig? Ystyriwch y canlynol:

1 Ydy Aquinas yn gywir nad oes dim o'r fath beth ag atchwel anfeidraidd?

Mae'n rhesymegol apelgar i feddwl bod dechreuad. Mae Damcaniaeth y Glec Fawr yn cefnogi'r syniad o ddechreuad, ond mae'r ddamcaniaeth cyflwr sefydlog yn awgrymu bod y bydysawd yn anfeidraidd. Mae'n well gan rai ysgolheigion y syniad o atchwel

anfeidraidd gan eu bod nhw'n dadlau nad oes rheswm i dybio ei fod yn amhosibl. Oni bai ein bod ni'n gallu dangos bod atchwel anfeidraidd yn amhosibl, efallai nad yw'r ddadl yn gadarn.

2 Os nad yw anfeidredd gweithredol yn bosibl, pa broblemau mae hyn yn ei achosi i Dduw?

Mae'n rhaid bod Duw yn anfeidraidd er mwyn i'r ddadl weithio. Os nad yw Ef yn anfeidraidd yna mae gan Dduw ddechreuad, sy'n gwneud Iddo fod yn eitem amodol arall y mae'n rhaid bod achos iddi. Eto i gyd, mae'n rhaid i anfeidredd gweithredol fod yn amhosibl er mwyn i'r ddadl weithio. Mae hyn yn awgrymu efallai nad yw dadl Kalam yn ddilys.

3 A allai'r bydysawd fod wedi cael ei ffurfio o fater a oedd yno'n barod?

Os cafodd y bydysawd ei ffurfio o fater a oedd yno'n barod, mae hyn yn awgrymu parhad o achos ac effaith y mae angen rhoi cyfrif amdano. Er bod hyn yn anghyfleus, dydy hi ddim yn rhesymegol amhosibl i ni wneud hyn. Efallai nad yw'r ddadl yn gadarn os yw hi'n ddibynnol ar y syniad bod y bydysawd wedi ei achosi ex nihilo, oni bai y gallwn ni brofi'n rhesymegol neu'n empirig fod rhaid iddo fod wedi'i greu o ddim byd.

# 1B UG Dadleuon anwythol: Teleolegol

## Profi eich hun, tudalen 9

1 Beth yw ystyr *qua*?

(Lladin) Fel.

2 Â beth y cymharodd Aquinas y bydysawd?

Â saethwr a saeth.

3 Pa dystiolaeth y mae Aquinas yn ei rhoi dros ddylunydd?

Orbit planedau mewn modd rheolaidd; mae'r bydysawd yn ufuddhau i ddeddfau naturiol.

## Profi eich hun, tudalen 11

1 Enwch bedair nodwedd ar y byd sy'n cael eu defnyddio fel tystiolaeth o ddylunio.

Cymhlethdod; trefn; mae rhannau'n ffitio gyda'i gilydd; pwrpas.

2 Pa eitem wedi'i gwneud gan ddyn y mae Paley yn ei chymharu â nodweddion yn y byd?

Oriawr.

3 Beth oedd dau fath o ddadl Paley?

Dyluniad *qua* (fel) pwrpas a dyluniad *qua* (fel) rheoleidd-dra.

### Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 12

Pa mor ddilys neu gadarn yw'r dadleuon gan Aquinas, Paley a Tennant? Ystyriwch y canlynol:

1 Ydy rhywbeth sydd wedi'i seilio ar drefn yn gallu digwydd ar hap a damwain?

Gallai trefn ddod o anhrefn drwy amrywiadau ar hap a detholiad naturiol. Os yw rhywbeth yn gweithio yn yr amgylchedd lle mae'n bodoli, yna gall barhau i weithredu. Mae hynny'n golygu bod nodweddion sydd wedi'u cynhyrchu ar hap yn gallu ymddangos yn drefnus ac wedi'u cynllunio. Felly, dydy rhagosodiad y ddadl deleolegol, sef rhaid mai deallusrwydd sy'n cynhyrchu trefn, ddim yn gadarn.

2 Oes unrhyw ffyrdd nad yw'r byd naturiol fel peiriant wedi'i wneud gan berson?

Mae'r byd naturiol yn gallu ei atgynhyrchu a'i atgyweirio ei hun. Dydy hon ddim yn nodwedd ar beiriannau, felly nid yw'n gydweddiad cadarn.

3 Ydy Tennant yn gywir nad oes rhaid i ni werthfawrogi harddwch er mwyn goroesi?

Mae rhai gwyddonwyr yn dadlau bod gwerthfawrogi prydferthwch yn fantais wrth oroesi neu ei fod yn sgil-gynnyrch i ddatblygiad deallusrwydd dynol. Er enghraifft, efallai ei fod yn dystiolaeth o awydd i ddysgu sy'n weddill ar ôl plentyndod, neu gall fod yn rhan angenrheidiol o ddatblygiad swyddogaeth wybyddol. Os yw unrhyw ran o hyn yn wir, efallai nad yw'r ddadl yn gadarn.

# 1C UG Heriau i ddadleuon anwythol

### Profi eich hun, tudalen 14

1 Pa enghraifft y mae Hume yn ei rhoi i ddangos rhith achos ac effaith?

Os ydyn ni'n tybio bod tân yn twymo a bod dŵr yn adfywio, mae hynny oherwydd ei bod hi'n achosi gormod o boen i ni feddwl fel arall.

2 Beth yw twyllresymeg cyfansoddiad?

Y rhagosodiad anghywir bod yr hyn sy'n wir am y rhannau yn wir am y cyfan.

3 Os nad Duw a ddechreuodd y bydysawd, pa ddewisiadau eraill y mae Hume yn eu hawgrymu?

Mae'r bydysawd heb achos ac yn anfeidraidd, neu mai'r bydysawd yw ei achos ei hun.

### Profi eich hun, tudalen 15

4 Pam mae'n well cymharu'r bydysawd â rhywbeth heblaw am beiriant?

Mae'r bydysawd yn rhannu nodweddion â moronen, fel cynhyrchiant, twf a llystyfiant.

5 Beth yw honiad theistiaid ynglŷn â sut un yw Duw?

Mae Duw yn hollalluog, yn hollwybodus, yn hollraslon, yn hollbresennol, yn dragwyddol, yn foesol berffaith ac Ef yw'r unig un.

6 Pam mae Hume yn awgrymu y byddai'n rhaid i'r dylunydd fod yn absennol, yn faleisus neu'n brentis?

Anthropomorffaeth yw cymharu'r dyluniad o'r byd dynol â nodweddion dyluniad yn y bydysawd. Os awn ni i'r pen draw gyda'r cydweddiad hwn, gallwn ni weld pa mor broblemus yw gwneud i'r dylunydd, Duw, fod yn debyg i ni.

## Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 16

Ydy'r esboniadau gwyddonol hyn yn rhoi dewisiadau eraill digonol yn lle achos cyntaf neu Dduw sy'n ddylunydd? Ystyriwch y canlynol:

1 Beth achosodd y Glec Fawr?

Nododd Stephen Hawking mai cwestiwn disynnwyr yw gofyn beth ddigwyddodd cyn y Glec Fawr oherwydd nad oedd dim byd 'cyn hynny'. Ond i lawer o bobl, mae'r ateb hwn yn anfoddhaol oherwydd bod y cwestiwn yn parhau ynghylch pam roedd rhywbeth yn sydyn pan nad oedd dim byd cyn hynny.

2 Ydy pwynt anfeidraidd (hynodyn) yn gallu newid neu ddechrau tyfu?

Yn fersiwn Kalam y ddadl gosmolegol, mae'r ddamcaniaeth setiau'n awgrymu nad yw hi'n bosibl ychwanegu at neu dynnu oddi ar anfeidredd gweithredol. Mae hyn yn awgrymu y gall fod anghysondeb rhesymegol yn y syniad bod pwynt anfeidraidd yn unrhyw beth heblaw am sefydlog.

3 O ble tarddodd yr organebau ungellog?

Mae awgrymiadau niferus am atebion posibl i'r cwestiwn hwn, ond mewn gwirionedd does neb yn gwybod yr ateb i sut datblygodd organebau byw o organebau anfyw. Weithiau mae creadaethwyr crefyddol yn defnyddio hyn yn dystiolaeth bod rhaid bod dylunydd deallus er mwyn dechrau proses esblygiad.

4 Pwy ddyluniodd *The Weasel Program*?

Richard Dawkins. Mae hyn yn awgrymu bod nam yn rhesymeg Dawkins yn ei her i'r ddadl deleolegol, oherwydd bod angen dylunydd er mwyn i ddetholiad cronnus gael ei roi ar waith.

# Cwestiynau enghreifftiol

## Cwestiynau enghreifftiol AA1, tudalen 19

1 Amlinellwch y ddadl gosmolegol dros fodolaeth Duw gan gyfeirio at dri Dull cyntaf Aquinas.

- Mae'r tri dull cyntaf o Bum Dull Aquinas yn *a posteriori*, sy'n golygu eu bod nhw'n tynnu ar dystiolaeth empirig i lunio eu casgliad.
- Hefyd maen nhw'n anwythol, sy'n golygu bod y rhagosodiad yn arwain at gasgliad sy'n un posibilrwydd ymhlith nifer.
- Mae Dull Cyntaf Aquinas yn ymwneud â mudiant. Wrth fudiant, mae Aquinas yn golygu'r broses o newid o un cyflwr (gweithredoledd) i gyflwr arall (potensialedd).

- Yn enghraifft Aquinas, gweithredoledd pren yw bod yn oer, ond ei botensialedd yw mynd yn boeth. Er mwyn cyflawni ei botensialedd, mae'n cael ei symud gan rywbeth arall sy'n boeth yn weithredol (hynny yw, rhywbeth sy'n boeth ohono'i hun, go iawn). Mae tân yn symud y pren tuag at ei botensialedd, sy'n dod yn weithredoledd iddo pan mae'n llosgi. Dyma broses mudiant.
- Mae'r Dull Cyntaf yn dadlau y gallwn ni arsylwi bod rhai pethau yn y byd sy'n symud. Mae'n rhaid bod peth sy'n symud yn cael ei symud gan rywbeth arall. Dydy'r gadwyn symudiad ddim yn gallu mynd yn ôl mewn amser yn ddiddiwedd (atchwel anfeidraidd). Felly, rhaid bod ysgogydd cyntaf, sydd heb gael ei symud gan unrhyw beth arall (ysgogydd cyntaf neu ysgogydd disymud).
- Mae Ail Ddull Aquinas yn debyg ond yn ymwneud yn fwy ag achos ac effaith. Mae hyn yn wahanol oherwydd ei fod yn ymwneud â sut mae pethau'n dod i fodolaeth yn hytrach na sut maen nhw'n caffael gwahanol briodweddau.
- Mae ei Ail Ddull yn dadlau bod gan bopeth sy'n bodoli achos effeithlon oherwydd nad oes dim byd yn gallu ei achosi ei hun. Does dim o'r fath beth ag atchwel anfeidraidd, felly mae'n rhaid bod achoswr cyntaf sydd heb ei achosi.
- Ar y cam hwn, does dim rhaid mai Duw theistiaeth glasurol yw'r ysgogydd/achoswr cyntaf. Y cyfan y mae'r ddadl yn ei wneud yw profi'n rhesymegol bod rhaid bod achos cyntaf heb gael ei achosi neu ysgogydd disymud.
- Mae gan Drydydd Dull Aquinas elfennau *a priori* oherwydd ei fod yn sôn am natur bodolaeth ac yn dibynnu llai ar wybodaeth empirig.
- Mae'r Trydydd Dull yn dweud bod eitemau amodol. Petai popeth yn amodol, yna fyddai dim byd yn bodoli o gwbl, gan fod angen achos ar bethau amodol. Mae atchwel anfeidraidd eitemau amodol yn amhosibl, felly dydy pob peth ddim yn amodol. Mae'n rhaid cael bod angenrheidiol i ddechrau cadwyn amodoldeb, a Duw yw'r bod angenrheidiol hwnnw.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

2 Cymharwch ddadleuon teleolegol Paley a Tennant dros fodolaeth Duw.

| **Paley** | **Tennant** |
|---|---|
| Mae'r ddau ysgolhaig yn cyflwyno dadl *a posteriori* dros fodolaeth Duw, yn seiliedig ar dystiolaeth ffisegol yn y byd. Mae'r ddau yn honni bod y dystiolaeth ffisegol hon yn awgrymu bodolaeth dylunydd deallus. | |
| Mae'r ddau fersiwn o'r ddadl hon yn anwythol yn yr ystyr eu bod nhw'n arwain at y casgliad rhesymegol bod hwn yn un o nifer o bosibiliadau. | |
| Mae Paley yn cyflwyno dadl gydweddiadol drwy ddefnyddio ei gydweddiad o'r oriawr.<br><br>Yn ôl y cydweddiad hwn, petaech chi'n digwydd gweld carreg ar ddarn o dir, byddai'n ymddangos yn rhesymol awgrymu bod y garreg hon wedi bod yno erioed. Fodd bynnag, dychmygwch yn lle hynny eich bod chi'n digwydd gweld oriawr boced. Fyddai hi ddim yn rhesymol awgrymu bod yr oriawr hon wedi bod yno erioed. Yn | Mae Tennant yn cyflwyno dadl sy'n seiliedig ar wybodaeth o ddamcaniaeth esblygiad. Ei ddadl anthropig yw'r enw arni.<br><br>Mae'r ddadl hon yn dweud bod y bydysawd wedi'i ddylunio'n fwriadol ar gyfer cyflwyno bywyd dynol deallus. Nid hap a damwain oedd sut daeth bywyd deallus yma. Mae proses dechrau bodolaeth mater ynghyd ag esblygiad i gyd yn dystiolaeth o sut aeth dylunydd ati i ddod â bywyd dynol i |

<table>
<tr><th>Paley</th><th>Tennant</th></tr>
<tr><td>hytrach, mae’n rhaid ei bod wedi dod oddi wrth ddylunydd a gynlluniodd i osod y rhannau at ei gilydd, yn y drefn benodol honno, er mwyn dweud faint o’r gloch yw hi. Doedd Paley ddim yn gyfarwydd â damcaniaeth esblygiad oherwydd iddo ysgrifennu cyn i Darwin gyhoeddi On the Origin of Species.</td><td>fodolaeth. Gan fod y bydysawd a phopeth sydd ynddo’n rheolaidd ac yn drefnus yn hytrach nag ar hap ac anhrefnus, mae’n rhesymol awgrymu ei fod yn ganlyniad deallusrwydd.</td></tr>
<tr><td>Mae Paley yn cymharu’r oriawr â’r llygad dynol:<br>• Mae’r ddau’n meddu ar drefn gan fod yr oriawr yn mesur unedau amser rheolaidd a’r llygad yn dehongli goleuni.<br>• Mae’r ddau’n dangos cymhlethdod gan fod ganddyn nhw nifer o gydrannau sydd â swyddogaethau gwahanol.<br>• Yn y ddau, mae’r rhannau hyn yn ffitio gyda’i gilydd ar gyfer eu pwrpas eu hunain, sef gweld a dweud faint o’r gloch yw hi.</td><td>Mae Tennant yn rhoi tri phwynt yn dystiolaeth i gefnogi hyn:<br>• Mae’n bosibl deall y bydysawd yn rhesymegol.<br>• Mae’r byd yn cynnwys popeth sydd ei angen arnon ni i oroesi (disgyrchiant ar y grym cywir, electronau ar y wefr gywir, ac ati).<br>• O ganlyniad i esblygiad drwy ddetholiad naturiol, daeth bodau i fodolaeth sy’n gallu bod yn rhesymol a goroesi.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae’r ddwy ddadl yn ddyluniad qua fel pwrpas oherwydd eu bod nhw’n ymwneud â’r pwrpas ymddangosiadol sy’n amlwg yn y byd neu mewn nodweddion yn y byd.</td></tr>
<tr><td>Hefyd mae Paley yn dadlau dros ddyluniad qua (fel) rheoleidd-dra drwy gymharu tystiolaeth o ddeddfau mudiant a disgyrchiant Newton. Edrychodd Paley ar gysawd yr haul a sut mae’r planedau’n ufuddhau i ddeddfau naturiol ac mae’n dod i’r casgliad hwn: mae’n rhaid mai bod deallus oedd wedi rhoi trefn ar y bydysawd, gyda’i rannau trefnus, cymhleth. Duw yw’r bod deallus hwn.</td><td>Oherwydd a) bod harddwch yn y bydysawd a b) ein bod ni’n ei werthfawrogi ac yn awyddus i’w greu, mae Tennant yn dadlau bod hyn yn dystiolaeth bod rhaid bod dylunydd. Mae Tennant yn dadlau nad oedd mantais esblygol i’r ddynoliaeth o allu creu barddoniaeth neu werthfawrogi machlud haul. Fyddai dim angen gwerthfawrogiad fel hyn ar y broses detholiad naturiol a goroesiad y cymhwysaf oherwydd mae’n ddiangen, felly mae’n rhaid ei fod wedi’i ddylunio.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae’r ddau ysgolhaig yn ceisio defnyddio’r wybodaeth wyddonol a oedd ar gael iddyn nhw wrth ysgrifennu. Mae Paley yn cyfeirio at ddeddfau Newton, ond mae Tennant yn cyfeirio at ddamcaniaeth esblygiad.</td></tr>
</table>

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae’n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

3 Archwiliwch y ddadl Kalam dros fodolaeth Duw.

- Mae’r ddadl gosmolegol dros fodolaeth Duw yn ‘brawf’ athronyddol dros fodolaeth Duw.
- Mae’r ddadl gosmolegol yn brawf anwythol dros fodolaeth Duw. Mae hyn yn golygu ei bod hi’n cynnig casgliad sy’n un o nifer o bosibiliadau.
- Hefyd mae’n brawf *a posteriori*. Mae hyn yn golygu ei bod hi’n dod at ei chasgliadau ar ôl gwerthuso data empirig. Mae’r ddadl gosmolegol yn dibynnu ar ddata empirig y cosmos a’r ffenomenau ynddo i ddod i’w chasgliadau.

- Mae dadl Kalam yn dilyn Aristotle ond datblygodd ysgolheigion Islamaidd hi o oddeutu'r nawfed ganrif OCC. Gair Arabeg y*w kalam* sy'n golygu 'dadlau' neu 'drafod'. Mae'r ddadl yn dod mewn dau gam ac yn ceisio profi bod rhaid mai Duw personol yw'r achos cyntaf.
- Mae William Lane Craig yn ysgolhaig Cristnogol modern sydd wedi datblygu dadl Kalam yn ddiweddar.
- Mae Lane Craig yn defnyddio damcaniaeth setiau, sy'n uniaethu problemau rhesymegol â'r cysyniad o set anfeidraidd o eitemau. Byddai adio at set anfeidraidd neu dynnu oddi wrthi yn golygu nad yw hi'n anfeidraidd. Yn ogystal, mae hanner set anfeidraidd yn hafal i'r set gyfan, felly mae'n amhosibl ei rhannu. Felly, mae anfeidredd gweithredol yn afresymegol ac felly yn amhosibl.
- Yr enw ar adio sawl gwaith at set gyda'r potensial i ddal ati am byth yw adio olynol. Enw'r set sy'n cael ei ffurfio drwy adio olynol yw anfeidredd potensial. Dydy anfeidredd potensial ddim yn anfeidraidd mewn gwirionedd.
- Yn ôl dadl gyntaf Lane Craig:
  - Dydy bydysawd anfeidredd gweithredol ddim yn gallu cynnwys cyfres o ddigwyddiadau sy'n dilyn ei gilydd; dydy hyn ddim yn anfeidraidd.
  - Fyddai bydysawd anfeidredd gweithredol byth yn cyrraedd yr eiliad bresennol oherwydd byddai'r digwyddiadau cyn hynny'n anfeidraidd.
  - Mae'r eiliad bresennol yn bodoli oherwydd cyfres o ddigwyddiadau sy'n dilyn ei gilydd.
  - Dydy'r bydysawd ddim yn anfeidraidd, felly rhaid ei fod yn feidraidd.
  - Mae pethau meidraidd yn dechrau, ac mae popeth sy'n dechrau yn cael ei achosi i wneud hynny (does dim byd yn gallu ei achosi ei hun).
  - Cafodd y bydysawd ei achosi i fodoli.
- Yn ail, mae Lane Craig yn dadlau:
  - Cafodd y bydysawd ei achosi i fodoli.
  - Cafodd naill ai ei greu'n fwriadol neu gan ddeddfau naturiol sydd heb feddwl.
  - Mae'n amhosibl bod deddfau naturiol wedi achosi'r bydysawd gan eu bod nhw'n perthyn iddo a doedden nhw ddim yn bodoli cyn iddo ddechrau.
  - Mae'n rhaid bod y bydysawd wedi cael ei achosi'n fwriadol.
  - Mae bod personol sydd ag ewyllys yn ofynnol er mwyn gwneud gweithred fwriadol.
  - Os cafodd y bydysawd ei greu o ddim byd, yna dechrau'r bydysawd oedd dechrau amser.
  - Felly, mae bod personol yn bodoli'r tu allan i'r bydysawd ac amser fel achos cyntaf y cyfan i gyd.
- Yma mae gennym fod sydd â nifer o nodweddion y Duw theistig − mae'n rhaid bod y bod hwn yn drosgynnol, achos y bydysawd, yn nerthol, yn ymdeimladol ac yn ddeallus.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

4 Esboniwch y Dadleuon anthropig ac esthetig gan F. R. Tennant.

- Mae'r ddadl deleolegol neu'r ddadl ddylunio dros fodolaeth Duw yn seiliedig ar wraidd y gair Groeg *telos*, sy'n golygu 'nod' neu 'bwrpas'.

- Mae'r ddadl yn cynnwys rhesymu *a posteriori*, gan ei bod yn seiliedig ar dystiolaeth empirig. Mae'n anwythol hefyd, gan ei fod yn dod â ni i gasgliad sy'n un posibilrwydd ymysg nifer o bosibiliadau.
- Mae F. R. Tennant yn dadlau dros esblygiad theistig yn ei waith, *Philosophical Theology*, ac yn dadlau dros gytgord rhwng gwyddoniaeth a chrefydd.
- Mae damcaniaeth esblygiad wedi dod, ond dydy hynny ddim yn golygu nad yw'r ddadl ddylunio'n ddefnyddiol mwyach. Mae Tennant yn ceisio dangos bod y ddadl yn gydnaws â damcaniaeth esblygiad, a datblygodd ddwy egwyddor i ddangos hyn.
- Mae egwyddor anthropig Tennant yn dadlau bod y bydysawd wedi'i ddylunio'n fwriadol ar gyfer cyflwyno bywyd dynol deallus. Nid hap a damwain oedd sut daeth bywyd deallus yma. Mae proses dechrau bodolaeth mater ynghyd â phroses esblygiad yn dystiolaeth o sut aeth dylunydd ati i ddod â bywyd dynol i fodolaeth.
- Gan fod y bydysawd a phopeth sydd ynddo'n rheolaidd ac yn drefnus yn hytrach nag ar hap ac anhrefnus, mae'n rhesymol awgrymu ei fod yn ganlyniad deallusrwydd. Mae Tennant yn rhoi tri phwynt o dystiolaeth i gefnogi hyn:
  - Mae'n bosibl deall y bydysawd yn rhesymegol.
  - Mae'r byd yn cynnwys popeth sydd ei angen arnon ni i oroesi (disgyrchiant ar y grym cywir, electronau ar y wefr gywir, ac ati).
  - O ganlyniad i esblygiad drwy ddetholiad naturiol, daeth bodau sy'n gallu bod yn rhesymol a goroesi.
- Yn ogystal, mae Tennant yn cynnig egwyddor esthetig. Mae'n dadlau, oherwydd a) bod harddwch yn y bydysawd a b) ein bod ni'n ei werthfawrogi ac yn awyddus i'w greu, bod hyn yn dystiolaeth bod rhaid bod dylunydd.
- Mae Tennant yn dadlau nad oedd mantais esblygol i'r ddynoliaeth o allu creu barddoniaeth neu werthfawrogi machlud haul. Fyddai dim angen gwerthfawrogiad fel hyn ar y broses o ddetholiad naturiol a goroesiad y cymhwysaf oherwydd mae'n ddiangen, felly mae'n rhaid ei fod wedi'i ddylunio.
- Mae detholiad naturiol yn elwa o blu hardd aderyn oherwydd bod hyn yn golygu ei fod yn denu cymar; ond does dim angen i dirwedd fod yn ddeniadol. Mae'n rhaid mai'r rheswm pam rydyn ni'n gwerthfawrogi pethau fel hyn yw oherwydd bod Duw cariadus wedi'u rhoi nhw yno i ni eu mwynhau.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

5 Archwiliwch yr heriau i ddadleuon anwythol gan gyfeirio at David Hume.

- Mae David Hume yn beirniadu'r dadleuon cosmolegol a theleolegol yn ei lyfr *Dialogues Concerning Natural Religion* (1779).
- Mae Hume yn herio'r syniad bod gan bob effaith achos, gan ddweud mai tybiaeth yw hon, nid ffaith. Pan fydd dau ddigwyddiad yn dod ar ôl ei gilydd, rydyn ni'n gyson yn dehongli rhai fel achosion ac eraill fel effeithiau. Mae Hume yn dadlau efallai fod y cysylltiad hwn yn anghywir. Rydyn ni'n defnyddio ein dychymyg i gysylltu'r ddau ddigwyddiad, ond dydy hyn ddim yn ddigonol i honni bod un yn achosi'r llall. Yn ôl Hume, 'Os ydyn ni'n credu bod tân yn twymo neu fod dŵr yn adfywio, mae hynny oherwydd ei bod hi'n achosi gormod o boen i ni feddwl fel arall.'

- Hefyd, mae Hume yn herio'r honiad bod rhaid gan y bydysawd achos. Dydy'r ffaith bod achosion yn y bydysawd ddim yn golygu bod y bydysawd ei hun wedi'i achosi. Twyllresymeg cyfansoddiad yw tybio hyn. Mae hyn yn golygu bod rhesymeg yn methu wrth weld nodwedd mewn rhannau o'r bydysawd a chymhwyso honno i'r cyfan.
- Mae Hume yn dadlau efallai fod y bydysawd yn anfeidraidd ac nad oedd iddo ddechreuad o gwbl. Does dim angen achos ar eitem anfeidraidd. Os defnyddiwn ni rasel Occam, sef mai'r esboniad symlaf yw'r mwyaf tebygol o fod yn gywir allan o nifer o bosibiliadau, yna'r esboniad symlaf yw bod y bydysawd heb gael ei achosi a'i fod yn anfeidraidd, neu iddo ei achosi ei hun.
- Mae Hume yn awgrymu, os Duw neu ddylunydd achosodd y bydysawd, does dim rhaid mai Duw theïstiaeth glasurol yw hwnnw. Dydy achos cyntaf ddim o angenrheidrwydd yn mynd i fod yn raslon, yn bersonol ac yn ddeallus.
- Mae Hume yn dadlau nad oes tystiolaeth bod Duw yn bodoli. Gan nad oedden ni yno, mae'n amhosibl i ni wybod a ddechreuodd y bydysawd neu a gafodd ei achosi. Does dim digon o dystiolaeth, felly dydy hi ddim yn bosibl siarad yn ystyrlon am Dduw yn creu bydysawdau gan nad oes gennym brofiad ohono.
- Mae heriau Hume i'r ddadl deleolegol yn bennaf yn erbyn y cydweddiad sy'n cael ei wneud i nodi beth yw'r ddadl. Roedd Hume yn teimlo nad oedd cymharu'r bydysawd â pheiriant yn ddim gwell na'i gymharu â moronen! Mae'r bydysawd yn rhannu nodweddion â moronen, fel cynhyrchiant, twf a llystyfiant. Mae Hume yn ychwanegu bod y bydysawd yn unigryw, felly does dim byd y gallwn ni ei gyfiawnhau i'w gymharu ag ef.
- Mae Hume yn dadlau bod rhaid bod achos yn gymesur â'i effaith. Er enghraifft, fyddai cerigyn bach sy'n cael ei daflu i bwll dŵr ddim yn achosi ton llanw. Felly, dim ond nodweddion sy'n gymesur â'r byd sydd wedi'i ddylunio sydd yn gallu bod gan y dylunydd. Mae hyn yn arwain Hume i wneud nifer o honiadau doniol:
  - Os yw'r byd wedi'i ddylunio, yna mae'n amherffaith. Mae bodolaeth drygioni a dioddefaint yn awgrymu y byddai'n rhaid i ddylunydd fod yn faleisus, ddim yn hollraslon o gwbl, er mwyn iddo fod wedi'u cynnwys yn y bydysawd.
  - Efallai bydd oriadurwr prentis, sy'n gwneud camgymeriadau wrth ddysgu, yn rhoi'r gorau i'w ymdrechion cynnar i wneud oriaduron wrth iddo wella. Felly hefyd, efallai mai gwaith duw prentis yw'r byd hwn a'i fod wedi gwrthod y byd hwn fel un gwael ac wedi symud ymlaen i wneud bydoedd gwell.
  - Mae angen mwy nag un dylunydd ar dŷ i wneud iddo ddod i fodolaeth. Fel arfer mae llawer o grefftwyr yn rhan o'r broses, felly pam byddai'r byd hwn yn wahanol i hynny? Gallai fod llawer o dduwiau'n rhan o'r broses, nid un yn unig.
  - Mae'n annhebygol y bydd dylunydd oriaduron yn aros i edmygu ac addasu ei waith am weddill ei fywyd. Byddai'n fwy tebygol o symud ymlaen i wneud oriaduron newydd mewn mannau eraill. Gallai farw hyd yn oed. Fyddai dim angen i ddylunydd y byd fod o gwmpas i'w addoli ac i ymyrryd.
  - Anthropomorffaeth yw cymharu'r dyluniad o'r byd dynol â nodweddion dyluniad yn y bydysawd. Os awn ni i'r pen draw gyda'r cydweddiad hwn, gallwn weld pa mor broblemus yw gwneud i'r dylunydd, Duw, fod yn debyg i ni.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

## Cwestiynau enghreifftiol AA2, tudalen 19

1 Gwerthuswch y safbwynt nad yw'r ddadl deleolegol dros fodolaeth Duw yn berswadiol yn yr unfed ganrif ar hugain.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Perswadiol = Yn argyhoeddi, yn gallu gwneud i berson newid ei feddwl.
- Yr unfed ganrif ar hugain = y byd modern heddiw.

**Paragraff Un:**

- Mae angen tystiolaeth empirig ar bobl yn yr unfed ganrif ar hugain i gefnogi honiadau am wirionedd. Mae'r ddadl deleolegol yn rhoi tystiolaeth empirig o fyd naturiol o drefn, cymhlethdod, darnau sy'n ffitio gyda'i gilydd a phwrpas.
- Fodd bynnag, yn ôl methodoleg wyddonol fodern, mae'n rhaid bod rhywun yn gallu gwirio casgliadau neu eu rhoi nhw ar brawf. Mae Duw yn rhagdybiaeth sydd heb ei rhoi ar brawf.
- Wedi dweud hyn, mae rhai pobl yn cael eu denu at esboniadau sy'n rhoi ystyr neu bwrpas i fywyd. Mae'r ddadl deleolegol yn cynnig y posibilrwydd bod pwrpas i'n bywydau, felly mae hyn yn ei gwneud hi'n ddadl berswadiol i rai pobl.

**Paragraff Dau:**

- Yn ystod yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain, mae'r ddadl deleolegol wedi cael ton newydd o gefnogaeth drwy'r mudiad dyluniad deallus. Mae'r poblogrwydd newydd hwn yn dangos pa mor berswadiol yw hi yn y byd modern.
- Mae'r mudiad dyluniad deallus a'r egwyddor anthropig yn ceisio cynnig cefnogaeth resymegol i'r rhai sydd â ffydd. Felly, o leiaf mae'r rhai sydd â ffydd yn barod yn yr unfed ganrif ar hugain yn gallu gweld bod eu ffydd yn wyddonol dderbyniol.
- Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r byd modern yn chwerthin am ben y mudiad dyluniad deallus am fod yn ffugwyddoniaeth, ac felly dydy'r ddadl deleolegol ddim yn berswadiol i unrhyw un sy'n derbyn gwyddoniaeth fodern.

**Paragraff Tri:**

- Mae Duw yn esboniad diangen gan nad yw esblygiad yn gofyn amdano. Mae amrywiadau ar hap a detholiad naturiol yn gallu rhoi cyfrif am ddatblygiad dynol ac am ddyluniad ymddangosiadol heb fod angen dylunydd. Felly, dydy'r ddadl hon ddim yn berswadiol yn y byd modern, gwyddonol.
- Fodd bynnag, mae profiad pwrpas, trefn, rhannau'n ffitio gyda'i gilydd a chymhlethdod yn hollgyffredinol drwy gydol amser. Mae pob bod dynol yn gallu arsylwi'r nodweddion hyn ac yn gallu gweld yn eglur bod tebygrwydd â gwrthrychau sydd wedi'u dylunio'n ddeallus. Mae hyn yn awgrymu nad oes rheswm pam na ddylai'r ddadl hon apelio at bobl yr unfed ganrif ar hugain.
- Eto i gyd, mae rhai pobl yn gweld anhrefn a diffyg pwrpas yn y byd, ond mae eraill yn ei gweld hi'n wahanol. Mater o safbwynt yn hytrach na gwirionedd gwrthrychol yw hi. Rydyn ni i gyd yn dehongli'r dystiolaeth o'n blaen ni yn ôl ein blic.

**Casgliad:**

- Mae pobl grefyddol ac atheistiaid yn dehongli data yn ôl y safbwynt ffydd sydd ganddynt yn barod. I rai pobl, mae'r ddadl hon yn berswadiol, i eraill dydy hi ddim. Mae'n dibynnu sut rydyn ni'n dehongli'r data sydd o'n blaenau ni.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth ynghylch y cwestiwn.**

2 'Mae'r Glec Fawr yn argyhoeddi mwy na'r ddadl gosmolegol fel esboniad dros fodolaeth y bydysawd.' Gwerthuswch y safbwynt hwn.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Perswadiol = Yn argyhoeddi, yn gallu gwneud i berson newid ei feddwl.

**Paragraff Un:**

- Mae tystiolaeth empirig bob amser yn fwy perswadiol gan y gallwn ni i gyd ei chanfod droson ni ein hunain. Mae hyn yn golygu bod tystiolaeth llawer o bobl yn gallu ei chefnogi, yn ogystal â thystiolaeth bersonol. Mae'r cyfan yn gwneud i'r dystiolaeth wyddonol dros y Glec Fawr fod yn fwy perswadiol na'r ddadl gosmolegol.
- Fodd bynnag, mae athroniaeth yn ein helpu ni i ystyried amrywiaeth o ffyrdd posibl o ddehongli'r dystiolaeth. Mae'r ddadl gosmolegol hefyd yn tynnu ar dystiolaeth empirig. Eto i gyd, mae'n deall bod y dystiolaeth honno'n awgrymu bod yna Dduw.
- Yn y pen draw, bydd pa un sy'n fwy perswadiol i chi yn dibynnu ar eich safbwynt ar fywyd. Os ydych chi'n grefyddol yn barod, yna byddwch chi'n fwy tebygol o ddehongli bod y dystiolaeth yn awgrymu bodolaeth Duw.

**Paragraff Dau:**

- Gallai rhai ddadlau bod gwyddoniaeth yn cynnig datrysiad cymhleth i ni sy'n codi mwy o gwestiynau nag y mae'n eu hateb. Er enghraifft, dydyn ni ddim yn gallu rhoi ateb boddhaol o hyd i gwestiwn beth achosodd y Glec Fawr.
- Y dull gwyddonol yw symud o dystiolaeth i gasgliadau. Mae'r ymagwedd hon yn ddiduedd. Yn groes i hyn, mae'r ddadl gosmolegol yn dechrau gyda'r casgliad ac yn chwilio am dystiolaeth i gefnogi ei barn. Dydy'r dull hwn ddim yn argyhoeddi, gan fod pobl yn gallu trin y dystiolaeth i wneud iddi gyfateb i'w hagenda nhw.
- Fel arall, mae gwyddoniaeth yn ateb sut daeth y bydysawd i fodolaeth drwy'r Glec Fawr, wrth i athroniaeth geisio ateb pam rydyn ni yma – i addoli Duw. Efallai fod y ddau ddull yn deilwng os ydyn nhw'n cael eu deall fel hyn.

**Paragraff Tri:**

- Mae llawer o athronwyr crefyddol yn dadlau bod y bydysawd yn rhy helaeth ac anhygoel iddo fod wedi digwydd drwy ddamwain yn unig. Mae'r ddadl gosmolegol yn cydnabod hynny.
- Fodd bynnag, mae pobl eraill fel Dawkins ac ysgolheigion atheïstaidd eraill yn dadlau bod gwyddoniaeth yn ychwanegu at y ffordd rydym yn gwerthfawrogi parchedig ofn ac yn rhyfeddu at y byd, yn hytrach na'i leihau i achos ac effaith.

- Efallai nad oes rheswm pam nad yw hi'n bosibl derbyn y ddau esboniad gyda'i gilydd. Mae'r ddau'n cydnabod bod y bydysawd yn rhyfeddol ac mae'r ddau'n ceisio ei ddeall.

**Casgliad:**

- Yn y pen draw, mae gwyddoniaeth yn cael ei chefnogi gan brofiadau sydd wedi'u hailadrodd gan filiynau o bobl drwy'r oesoedd. Mae'n bosibl ei rhoi ar brawf ac mae'n bosibl ei haddasu mewn ffordd sy'n amhosibl gydag esboniadau crefyddol. Felly, mae'r Glec Fawr yn cynnig esboniad llawer mwy perswadiol dros y bydysawd na'r ddadl gosmolegol.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth ynghylch y cwestiwn.**

# Thema 2 UG Dadleuon dros fodolaeth Duw – diddwythol

## 2A UG Dadleuon diddwythol: Tarddiadau'r ddadl ontolegol

### Profi eich hun, tudalen 21

1 Beth sy'n gwneud i ddadl fod yn ddilys?

Mae'r casgliad yn dilyn yn rhesymegol o'r rhagosodiadau heb fylchau yn y rhesymu yn ystod y rhagosodiadau nac unrhyw wybodaeth newydd sydd heb ei hesbonio yn y casgliad.

2 Pa fath o brawf yw prawf rhesymegol?

Prawf nad oes rhaid iddo gael unrhyw dystiolaeth empirig i'w gefnogi.

3 Beth yw ontoleg?

Astudiaeth sy'n 'ymwneud â bod' neu fodolaeth.

### Profi eich hun, tudalen 22

1 Pam mae Salm 14 yn arwyddocaol i'r ddadl hon?

Mae dadl ontolegol Sant Anselm yn dechrau gyda chyfeiriad at Salm 14, 'Dywed yr ynfyd yn ei galon, "Nid oes Duw."' Roedd Anselm yn awgrymu bod gwrthod bodolaeth Duw yn mynd yn groes i reswm, ac felly mae ei ddadl ontolegol yn ceisio dangos mai credu yn Nuw yw'r unig ddewis rhesymegol.

2 Rhestrwch bedwar rhagosodiad a chasgliad ffurf gyntaf Anselm ar y ddadl yn y drefn gywir.

Mae gan Anselm ddwy ffurf ar ei ddadl. Dyma'r ffordd orau o grynhoi'r ffurf gyntaf:

1 Duw yw'r peth na ellir dychmygu dim byd mwy nag ef.

2 Mae Duw yn bodoli *in intellectu*.

3 Petai Duw yn bodoli *in intellectu* yn unig, gallem ddychmygu rhywbeth mwy sy'n bodoli *in re* ac *in intellectu*.

4 Byddai'r bod hwnnw'n fwy na Duw.

C Felly mae'n rhaid bod Duw yn bodoli *in re*.

3 Pa ran o'r ddadl yw *reductio ad absurdum* a pham?

Rhagosodiadau 3 a 4:

3 Petai Duw yn bodoli *in intellectu* yn unig, gallem ddychmygu rhywbeth mwy sy'n bodoli *in re* ac *in intellectu*.

4 Byddai'r bod hwnnw'n fwy na Duw.

Mae Anselm yn dangos y casgliad rhesymegol hurt y byddai ei angen petai Duw yn bodoli yn ein meddyliau'n unig. Yn amlwg dydy Duw ddim yn gallu bodoli yn y meddwl yn unig; fel arall fyddai Ef ddim yn rhywbeth nad oes modd llunio unrhyw beth mwy nag ef.

### Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 22

Ystyriwch y canlynol:

1 Ydy rheswm yn rhyw fath o brawf? Pam, neu pam lai?

Ydy – Does dim byd yn gallu bod yn wir os yw'n gwrth-ddweud yn rhesymegol.

Nac ydy – Yr unig fath o brawf sy'n dderbyniol yw hwnnw sy'n gallu cael ei wirio gan y synhwyrau ac y mae'n bosibl i bobl eraill gytuno arno (ei wirio).

2 Ydy dadl Anselm yn ymddangos yn ddilys ac yn gadarn? Rhowch reswm dros eich ateb.

Ydy – Does dim byd yn y casgliad nad yw yn y rhagosodiadau. Mae'r rhagosodiadau i gyd yn rhesymegol dderbyniol.

Nac ydy – efallai fod diffiniad Anselm o Dduw yn anghywir. Does dim prawf i ddweud ei fod yn gywir.

Yn ogystal, dydy hi ddim yn bosibl diffinio rhywbeth i fodolaeth.

3 Allwch chi feddwl am unrhyw amgylchiad arall lle byddai'n dderbyniol i chi wrthod casgliad sydd wedi'i gefnogi gan ragosodiadau diamheuol?

Na allaf – Os yw hi'n amhosibl dadlau yn erbyn y rhagosodiadau, yna'r casgliad yw'r unig un posibl.

Efallai – Gall y rhagosodiadau fod yn gywir ond eto i gyd yn annigonol er mwyn cefnogi casgliad. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu ein bod ni'n dadlau yn erbyn y rhagosodiadau neu ein bod ni'n herio dilysrwydd y ddadl.

## 2B UG Dadleuon diddwythol: Datblygiadau'r ddadl ontolegol

### Profi eich hun, tudalen 24

1 Beth yw traethiad?

Priodwedd y mae rhywbeth yn gallu meddu arni neu fod hebddi.

2 Pam mae'n rhaid i Dduw fod â thraethiad bod perffaith?

Oherwydd os yw Duw yn fod hollol berffaith â phob perffeithrwydd ac os yw bodolaeth yn draethiad, yna mae'n rhaid bod Duw yn meddu ar fodolaeth berffaith fel un o'i draethiadau Ef.

3 Pam mai paradocs yw dweud nad yw Duw yn bodoli?

Gwrth-ddweud rhesymegol yw derbyn y diffiniad o Dduw ac eto gwadu ei fod yn bodoli.

## Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 25

Ydy Descartes a Malcolm yn cynnig dadleuon cadarn dros fodolaeth Duw? Ystyriwch y canlynol:

1 Ydy unrhyw un o'n syniadau ni'n gynhenid?

Ydy – Ynghyd â'r syniad neu'r cysyniad o Dduw, mae gennym ymdeimlad o gywir ac anghywir sy'n gynhenid gan ei fod yn digwydd ar draws pob diwylliant beth bynnag yw'r amgylchiadau.

Nac ydy – Dysgir ein syniadau i gyd i ni drwy ein magwraeth a'n profiadau. Mae hyn yn golygu nad oes syniad cynhenid o Dduw y gallwn ni ei ganfod yn eglur ac yn bendant.

2 Ydy bodolaeth yn nodwedd y gallwch chi feddu arni neu fod hebddi?

Ydy – Mae eitem yn newid rhwng bod yn syniad a bodoli yn y meddwl. Mae'n bosibl gwario darnau aur Kant os ydyn nhw'n bodoli, ond mae'n amhosibl os nad ydyn nhw'n bodoli. Felly, mae dadl Descartes yn gadarn.

Nac ydy – Dydy hi ddim yn bosibl i rywun feddu ar nodwedd neu fod hebddi heb iddi fodoli'n gyntaf. Mae Anselm a Descartes yn gwneud camgymeriad categori drwy osod 'bodolaeth' yn y categori neu'r grŵp o eiriau sy'n disgrifio nodweddion. Yn hytrach mae'n perthyn i gategori gwahanol o eiriau sy'n disgrifio bod. Dydy Descartes ddim yn cynnig dadl gadarn oherwydd ei fod yn gwneud y camgymeriad hwn.

3 Ydy Duw yn abswrd neu'n baradocsaidd yn rhesymegol mewn unrhyw ffordd?

Ydy – Nodweddion traddodiadol y Duw theïstig yw ei fod yn fewnfodol ac yn drosgynnol. Mae'n hollraslon ac yn hollalluog, ac eto i gyd mae drygioni'n bodoli. Mae hyn yn golygu nad yw dadl Malcolm yn gadarn.

Nac ydy – Y cyfan sy'n cael ei honni yw bod yna fod sy'n rhagori ar bopeth. Does dim byd paradocsaidd am hyn, felly mae gan Malcolm ddadl gadarn.

## Profi eich hun, tudalen 25

1 Beth yw'r tri modd bodolaeth?

- Angenrheidrwydd – Yn methu peidio â bodoli.
- Posibilrwydd – Yn rhesymegol gallai fodoli neu beidio â bodoli.
- Amhosibilrwydd – Yn methu bodoli'n rhesymegol.

2 Pam nad ydy Duw yn bosibl?

Os nad yw Ef yn bodoli, mae Ef yn methu dechrau bodoli.

Er mwyn dechrau bodoli mae angen achos neu siawns, ac mae hyn yn gyfyngiad sy'n anghyson â Duw.

3 Pam byddai Malcolm wedi hoffi ail ffurf Anselm yn fwy?

Dydy hi ddim yn trin bodolaeth fel traethiad.

# 2C UG Heriau i'r ddadl ontolegol

## Profi eich hun, tudalen 27

1 Pam rhoddodd Gaunilo y teitl 'Ar Ran y Ffŵl' ar ei draethawd?

Mae'r teitl yn tynnu sylw at gyfeiriad Anselm at Salm 14.

2 Pam mae ffurf gyntaf Anselm ar y ddadl ontolegol yn annilys?

Mae'n ceisio diffinio rhywbeth i fodolaeth.

3 Ailadroddwch gydweddiad yr ynys.

1 Rwy'n gallu meddwl am ynys berffaith, na ellir dychmygu ynys fwy na hi.

2 Mae'r ynys hon yn bodoli *in intellectu*.

3 Petai hi'n bodoli *in intellectu* yn unig, gallwn feddwl am ynys sy'n fwy ac sy'n bodoli *in re* ac *in intellectu*.

4 Byddai'r ynys hon yn fwy na fy ynys.

C Felly, mae'n rhaid bod yr ynys berffaith yn bodoli *in re*.

## Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 28

Ydy Gaunilo a Kant yn herio'r ddadl ontolegol yn llwyddiannus? Ystyriwch y canlynol:

1 Ydy cymharu Duw ag ynys, triongl neu ddarnau aur yn rhesymol?

Nac ydy – Mae ynysoedd, trionglau a darnau aur yn amodol, ond mae Duw yn angenrheidiol. Mae hyn yn golygu bod cydweddiadau Gaunilo a Kant yn aflwyddiannus.

Ydy – Mae'r cydweddiadau'n dangos nad yw'r dadleuon rhesymu yn cynhyrchu casgliad rhesymegol.

2 Ydy'r darnau aur yn elwa drwy fodoli mewn realiti?

Ydyn – Gallwch chi wario'r darnau aur sy'n bodoli mewn realiti, ond nid y rhai sy'n bodoli yn y meddwl yn unig.

Nac ydyn – Dydy'r nodweddion sydd gan y darnau yn y meddwl ddim yn wahanol os yw'r darnau aur yn bodoli mewn realiti. Mae popeth am y ddwy set yn unfath.

3 A fyddai heriau Gaunilo a Kant yn argyhoeddi crediniwr i wrthod ei ffydd?

Byddent – Byddai unrhyw un sy'n barod i adael i'w ddaliadau gael eu dadansoddi yn cael ei berswadio i wrthod ffydd a oedd yn seiliedig ar y ddadl ontolegol, oherwydd bod yr heriau'n dangos pam nad yw hi'n bosibl ymddiried ynddi.

Na fyddent – Dydy pobl ddim yn derbyn ffydd yn Nuw oherwydd bod rheswm yn dweud wrthyn nhw y dylen nhw. Fel arfer mae ganddyn nhw ffydd yn Nuw am resymau eraill yn gyntaf ac yna maen nhw'n defnyddio rhesymeg i geisio ei hamddiffyn.

### Profi eich hun, tudalen 28

1 Esboniwch pam mae Kant yn gallu gwrthod cydweddiad y triongl.

Mae'n rhesymegol bod y diffiniad o driongl yn golygu bod yn rhaid i ni dderbyn yn rhesymegol bod iddo dair ongl. Ond os ydyn ni'n gwrthod y diffiniad *a'r* tair ongl gyda'i gilydd, does dim gwrthddywediad. Felly hefyd, os ydyn ni'n gwrthod y diffiniad o Dduw, does dim angen i ni dderbyn ei fodolaeth Ef yn rhesymegol.

2 Ailadroddwch enghraifft y darnau aur.

Dychmygwch 100 o ddarnau aur; dychmygwch eu nodweddion, y marciau arnyn nhw, eu maint, eu siâp a'u pwysau. Traethiadau yw'r rhain. Petaech chi'n dal 100 o ddarnau aur yn eich llaw, dydy eu traethiadau ddim yn newid.

3 Rhowch ddau reswm pam nad yw bodolaeth yn gallu cael ei hystyried yn draethiad.

- Mae traethiad yn dweud wrthoch chi am y darnau aur. Ond, dydy dweud bod y darnau aur yn bodoli ddim yn ychwanegu dim at y cysyniad.
- Dydy hi ddim yn gwneud synnwyr dweud bod eitem heb draethiad bodolaeth. Byddai angen i'r eitem honno fodoli'n gyntaf er mwyn bod heb y traethiad, sy'n amhosibl yn rhesymegol.

## Cwestiynau enghreifftiol

### Cwestiynau enghreifftiol AA1, tudalen 31

1 Amlinellwch ddadl ontolegol Anselm dros fodolaeth Duw.

- Mae'r ddadl ontolegol dros fodolaeth Duw yn brawf diddwythol (mae set o ragosodiadau'n arwain at gasgliad diamheuol), *a priori* (cyn tystiolaeth empirig). Ystyr llythrennol ontoleg yw 'yn ymwneud â bod' a does dim rhaid cael unrhyw dystiolaeth empirig i gadarnhau ei honiadau.
- Mae Proslogion Sant Anselm yn cynnwys ei ddadl ontolegol, sy'n dechrau gyda chyfeiriad at Salm 14 – 'Dywed yr ynfyd yn ei galon, "Nid oes Duw."'
- Roedd Anselm yn awgrymu bod gwrthod bodolaeth Duw yn mynd yn groes i reswm, ac felly mae ei ddadl ontolegol yn ceisio dangos mai credu yn Nuw yw'r unig ddewis rhesymegol.
- Mae gan Anselm ddwy ffurf ar ei ddadl. Yn ôl y ffurf gyntaf:

  1 Duw yw'r peth na ellir dychmygu dim byd mwy nag ef.

  2 Mae Duw yn bodoli *in intellectu*.

  3 Petai Duw yn bodoli *in intellectu* yn unig, gallem ddychmygu rhywbeth mwy sy'n bodoli *in re* ac *in intellectu*.

  4 Byddai'r bod hwnnw'n fwy na Duw.

  C Felly mae'n rhaid bod Duw yn bodoli *in re*.
- Mae Anselm yn diffinio Duw. Mae hyn yn angenrheidiol, hyd yn oed i'r atheist, fel ei fod yn gallu gwrthod ei fodolaeth Ef. Dydy Anselm ddim yn disgrifio rhagor o

nodweddion Duw. Y cyfan mae'n ei ddweud yw, beth bynnag yw 'Duw', mae Ef mor fawr fel ei bod hi'n amhosibl meddwl am unrhyw beth mwy.

- Mae Anselm yn dweud yr hyn sy'n amlwg. Yn amlwg mae Duw yn bodoli yn ein meddyliau oherwydd ein bod newydd ei ddiffinio Ef. Dydy'r atheist hyd yn oed ddim yn gallu gwadu bod Duw yn bodoli fel cysyniad yn ei feddwl.
- Mae Anselm yn defnyddio techneg athronyddol o'r enw *reductio ad absurdum*. Mae'n dangos y casgliad rhesymegol hurt y byddai ei angen petai Duw yn bodoli yn ein meddyliau'n unig. Yn amlwg dydy Duw ddim yn gallu bodoli yn y meddwl yn unig; fel arall fyddai Ef ddim yn rhywbeth nad oes modd llunio unrhyw beth mwy nag ef.
- Dyma'r unig gasgliad posibl felly: oherwydd bod Duw yn bodoli yn eglur yn ein meddyliau ond mae'n methu cael ei gyfyngu i'n meddyliau yn unig, rhaid ei fod Ef yn bodoli mewn realiti hefyd.
- Ysgrifennodd Anselm yr ail ffurf ar ei ddadl i ymateb yn uniongyrchol i feirniadaeth gan Gaunilo o Marmoutiers. Mae'r ffurf hon yn mireinio ei ddadl ymhellach. Dyma'r ffordd orau i'w chrynhoi:

  1 Duw yw'r peth na ellir dychmygu dim byd mwy nag ef.

  2 Mae bod yn fod angenrheidiol yn fwy na bod yn fod amodol.

  3 Petai Duw yn fod amodol, yna gallem ddychmygu rhywbeth mwy nag oedd yn fod angenrheidiol.

  4 Byddai'r bod hwnnw'n fwy na Duw.

  C Felly, mae Duw yn bodoli fel bod angenrheidiol.

- Mae Anselm yn dechrau ei ddadl yn yr un ffordd â'i ffurf gyntaf, gyda diffiniad o Dduw. Mae'n rhaid i ni gofio bod y diffiniad ar ei ben ei hun yn ofynnol er mwyn gwrthod bodolaeth Duw.
- Mae Anselm yn dangos, yn y diffiniad hwn, bod rhaid bod Duw yn fod sydd â nodweddion gwell nag unrhyw beth arall sy'n bodoli. Mae popeth arall sy'n bodoli'n dymhorol, ond gallwn ni feddwl am rywbeth nad yw'n dymhorol. Rydyn ni wedi diffinio Duw yn barod ac felly rydyn ni'n gwybod yn ôl y diffiniad bod yn rhaid ei fod Ef yn fwy na bodau tymhorol.
- Drwy droi at *reductio ad absurdum*, mae Anselm yn dangos pa mor hurt yw'r syniad mai dros dro mae Duw.
- Tawtoleg yw 'Mae Duw yn bodoli'; ystyr hyn yw ei fod fel dweud 'Mae Duw sy'n bodoli yn bodoli'! Mae'r gosodiad yn osodiad dirfodol dadansoddol; ystyr hyn yw ei fod yn osodiad am fodolaeth sydd ddim yn gofyn am dystiolaeth empirig i gefnogi ei wirionedd.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

2 Archwiliwch nodweddion *a priori* y ddadl ontolegol gan Anselm.

- Mae'r ddadl ontolegol yn un *a priori*. Ystyr hyn yw nad oes angen troi at dystiolaeth empirig. Mae'r ddadl yn cael ei ffurfio cyn i unrhyw dystiolaeth ffisegol gael ei rhoi.
- Mae Proslogion Sant Anselm yn cynnwys ei ddadl ontolegol, sydd â nodweddion *a priori*.

- Mae gan Anselm ddwy ffurf ar ei ddadl. Dyma'r ffordd orau o grynhoi'r ffurf gyntaf:

  1 Duw yw'r peth na ellir dychmygu dim byd mwy nag ef.

  2 Mae Duw yn bodoli *in intellectu*.

  3 Petai Duw yn bodoli *in intellectu* yn unig, gallem ddychmygu rhywbeth mwy sy'n bodoli *in re* ac *in intellectu*.

  4 Byddai'r bod hwnnw'n fwy na Duw.

  C Felly mae'n rhaid bod Duw yn bodoli *in re*.

- Yn y rhagosodiad cyntaf, mae Anselm yn diffinio Duw. Mae hyn yn angenrheidiol, hyd yn oed i'r atheist, fel ei fod yn gallu gwrthod ei fodolaeth Ef. Byddai gwrthod rhywbeth nad oes gennych chi ddealltwriaeth glir ohono yn hurt. Mae'r diffiniad hwn yn un *a priori*. Rydyn ni'n dod at y diffiniad drwy reswm, hynny yw, os oes Duw, mae'n rhaid drwy ddiffiniad nad oes dim byd mwy nag Ef. Does dim data empirig i gefnogi'r diffiniad hwn.
- Yn yr ail ragosodiad, mae Anselm yn dweud y peth amlwg. Yn amlwg mae Duw yn bodoli yn ein meddyliau oherwydd ein bod ni newydd ei ddiffinio Ef. Dydy'r atheist hyd yn oed ddim yn gallu gwadu bod Duw yn bodoli fel cysyniad yn ei feddwl.
- Mae Anselm yn defnyddio techneg athronyddol o'r enw *reductio ad absurdum*. Mae'n dangos y casgliad rhesymegol hurt y byddai ei hangen petai Duw yn bodoli yn ein meddyliau'n unig. Yn amlwg dydy Duw ddim yn gallu bodoli yn y meddwl yn unig; fel arall fyddai Ef ddim yn rhywbeth nad oes modd llunio unrhyw beth mwy nag ef. Dydy hyn ddim yn dibynnu ar gefnogaeth unrhyw dystiolaeth empirig, dangosir hyn drwy reswm yn unig.
- Felly, mae Anselm yn dangos yr unig gasgliad posibl: oherwydd bod Duw yn bodoli yn eglur yn ein meddyliau ond mae'n methu cael ei gyfyngu i'n meddyliau yn unig, rhaid ei fod Ef yn bodoli mewn realiti hefyd. Heb droi at dystiolaeth empirig, mae Anselm wedi dangos bod bodolaeth Duw yn cael ei brofi'n wir yn rhesymegol.
- Ysgrifennodd Anselm yr ail ffurf ar ei ddadl i ymateb yn uniongyrchol i feirniadaeth gan Gaunilo o Marmoutiers. Mae'r ffurf hon yn mireinio ei ddadl ymhellach. Dyma'r ffordd orau i'w chrynhoi:

  1 Duw yw'r peth na ellir dychmygu dim byd mwy nag ef.

  2 Mae bod yn fod angenrheidiol yn fwy na bod yn fod amodol.

  3 Petai Duw yn fod amodol, yna gallem ddychmygu rhywbeth mwy nag oedd yn fod angenrheidiol.

  4 Byddai'r bod hwnnw'n fwy na Duw.

  C Felly, mae Duw yn bodoli fel bod angenrheidiol.

- Yn ei ragosodiad cyntaf, mae Anselm yn dechrau ei ddadl yn yr un ffordd â'i ffurf gyntaf, gyda diffiniad o Dduw. Mae'n rhaid i ni gofio bod y diffiniad ar ei ben ei hun yn ofynnol er mwyn gwrthod bodolaeth Duw. Mae'r diffiniad *a priori*, oherwydd nad oes tystiolaeth empirig i'w gefnogi ac rydyn ni'n dod ato drwy resymu.
- Yn ei ail ragosodiad, mae Anselm yn dangos, yn y diffiniad hwn, bod rhaid bod Duw yn fod sydd â nodweddion gwell nag unrhyw beth arall sy'n bodoli. Mae popeth arall sy'n bodoli'n dymhorol, ond gallwn ni feddwl am rywbeth nad yw'n dymhorol. Rydyn ni wedi diffinio Duw yn barod ac felly rydyn ni'n gwybod yn ôl y diffiniad bod yn rhaid ei fod Ef

yn fwy na bodau tymhorol. Er na allwn ni ganfod Duw er mwyn dangos hyn, yn rhesymegol mae'n dilyn na fyddai rhywbeth sy'n rhagori ar bopeth yn newid neu'n dadfeilio.

- Mae Anselm yn troi at *reductio ad absurdum* er mwyn dangos pa mor abswrd yw'r syniad mai dros dro mae Duw. Mae'n dangos yn rhesymegol ei bod hi'n hurt i ni ddod i'r casgliad bod Duw yn amodol.
- Mae Anselm yn ein harwain yn rhesymegol at y casgliad bod rhaid bod Duw yn bodoli. Tawtoleg yw 'Mae Duw yn bodoli'; ystyr hyn yw ei fod fel dweud 'Mae Duw sy'n bodoli yn bodoli'! Mae'r gosodiad yn osodiad dirfodol dadansoddol; ystyr hyn yw ei fod yn osodiad am fodolaeth nad yw'n gofyn am dystiolaeth empirig i gefnogi ei wirionedd.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

3 Esboniwch yr heriau i'r ddadl ontolegol gan Gaunilo a Kant.

- Mae ymateb Gaunilo i Anselm ar gael yn ei draethawd gyda'r teitl 'Ar Ran y Ffŵl'. Mae'r teitl hwn yn tynnu sylw at gyfeiriad Anselm at Salm 14, sy'n honni 'Dywed yr ynfyd yn ei galon, "Nid oes Duw."'
- Roedd Anselm wedi bod yn ceisio dadlau, o'n diffiniad ni o Dduw, ei bod hi'n afresymol dadlau nad yw Duw yn bodoli.
- Mae Gaunilo yn dadlau bod symud o ddiffiniad o Dduw i honni bod Duw yn realiti yn ddadl annilys. Yn y bôn, ceisio diffinio rhywbeth i fodolaeth yw hyn. Mae symud o ddiffiniad i honni bodolaeth yn gamgymeriad o ran rhesymeg. Cymerodd Gaunilo safbwynt empirig wrth herio'r ddadl hon, gan ddweud nad yw'n bosibl defnyddio rhesymu yn unig i ddangos realiti rhywbeth. Mae'n rhaid cael data empirig er mwyn profi bod rhywbeth yn bodoli.
- Aeth Gaunilo ati i greu parodi o ddadl Anselm i ddangos ei bwynt. Dyma'r ffordd orau i'w chrynhoi:

  1 Rwy'n gallu meddwl am ynys berffaith, na ellir dychmygu ynys fwy na hi.

  2 Mae'r ynys hon yn bodoli *in intellectu*.

  3 Petai hi'n bodoli *in intellectu* yn unig, gallwn feddwl am ynys sy'n fwy ac sy'n bodoli *in re* ac *in intellectu*.

  4 Byddai'r ynys hon yn fwy na fy ynys.

  C Felly, mae'n rhaid bod yr ynys berffaith yn bodoli *in re*.

- Gwrthwynebiad mwyaf eglur Kant yw nad traethiad yw bodolaeth. Mae'n bosibl rhannu'r her hon yn dri phrif bwynt. Mae'r cyntaf wedi'i anelu'n benodol at Descartes.
- Mae Kant yn gwrthod cydweddiad y triongl Descartes. Mae'n dweud, er ei bod hi'n rhesymegol bod y diffiniad o driongl yn golygu bod yn rhaid i ni dderbyn yn rhesymegol bod ganddo dair ongl, beth petaen ni'n gwrthod y diffiniad *a'r* tair ongl gyda'i gilydd? Felly hefyd, os ydw i'n gwrthod y diffiniad o Dduw, does dim angen i mi dderbyn ei fodolaeth yn rhesymegol.
- Mae Kant yn honni nad traethiad yw bodolaeth. Mae'n rhoi cydweddiad 100 o ddarnau aur. Gallwn ni ddychmygu eu nodweddion: y marciau arnyn nhw, eu maint, eu siâp a'u pwysau. Traethiadau yw'r rhain. Petaech chi'n dal 100 o ddarnau aur yn eich llaw, dydy eu traethiadau ddim yn newid. Mae traethiad yn dweud wrthoch chi am y darnau

aur. Ond, dydy dweud bod y darnau aur yn bodoli ddim yn ychwanegu dim at y cysyniad.

- Hefyd, mae Kant yn honni mai paradocs yw ystyried bodolaeth fel traethiad. Mae traethiad yn nodwedd y mae gwrthrych yn gallu meddu arni neu fod hebddi. Ond dydy hi ddim yn gwneud synnwyr dweud bod eitem heb draethiad bodolaeth. Byddai angen i'r eitem honno fodoli'n gyntaf er mwyn bod heb y traethiad, sy'n amhosibl yn rhesymegol.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

4 Cymharwch **ddau** fersiwn gwahanol y ddadl ontolegol dros fodolaeth Duw.

<table>
<tr><th>Malcolm</th><th>Descartes</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae'r ddwy ddadl a priori, sy'n golygu eu bod nhw'n defnyddio rhesymeg cyn tystiolaeth empirig a'u bod nhw'n ddadleuon sy'n dibynnu ar reswm pur.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae arddull y ddwy ddadl yn ddiddwythol, yn symud o set o ragosodiadau i gasgliad sydd, os yw'r ddadl yn gadarn, yn ddiamheuol.</td></tr>
<tr><td>Mae'n defnyddio rhesymeg foddol ac yn gwrthod ffurf gyntaf Anselm ar y ddadl ontolegol oherwydd ei fod yn defnyddio bodolaeth fel traethiad.</td><td>Mae ganddo ddwy ffurf ar ei ddadl sy'n defnyddio bodolaeth fel traethiad y gall Duw fod yn meddu arno.</td></tr>
<tr><td>Mae rhesymeg foddol yn rhesymeg fathemategol, ffurfiol sy'n dweud bod rhaid i fodolaeth fod yn amodol (mae'n rhaid dangos sut mae'n wir) yn nhermau un modd yn unig. Mae tri modd bodolaeth:<br>• Angenrheidrwydd – Yn methu peidio â bodoli.<br>• Posibilrwydd – Yn rhesymegol gallai fodoli neu beidio â bodoli.<br>• Amhosibilrwydd – Yn methu bodoli'n rhesymegol.<br>Felly, o ran y gosodiad 'mae Duw yn bodoli', bydd modd yn dweud wrthoch chi bod 'Duw yn bodoli o reidrwydd'.</td><td>Mae'n bosibl crynhoi'r ffurf gyntaf ar ddadl Descartes fel hyn:<br>1 Rwy'n bodoli – meddai Descartes: 'Cogito ergo sum' (Rwy'n meddwl, felly rwy'n bod).<br>2 Yn fy meddwl mae gennyf syniad o fod perffaith – Mae'r syniad hwn yn gynhenid yn hytrach na'i fod wedi'i ddysgu i mi.<br>3 Fel bod amherffaith fy hun, allwn i ddim bod wedi meddwl am y syniad o fod perffaith.<br>4 Mae'n rhaid bod y cysyniad o fod perffaith wedi deillio o fod perffaith.<br>5 Mae'n rhaid i fod perffaith fodoli er mwyn bod yn berffaith – Mae bodolaeth yn un o briodoleddau perffeithrwydd.<br>C Mae bod perffaith yn bodoli.</td></tr>
<tr><td>Mae'n bosibl crynhoi dadl Malcolm fel hyn:<br>1 Duw yw'r peth na ellir dychmygu dim byd mwy nag ef – diffiniad Anselm.<br>2 Os nad yw Ef yn bodoli, mae Ef yn methu dechrau bodoli.<br>3 Er mwyn dechrau bodoli mae angen achos neu siawns, ac mae hyn yn gyfyngiad sy'n anghyson â Duw – Mae hyn yn dangos nad yw Duw yn bosibl neu'n amodol yn unig.<br>4 Naill ai mae Duw yn amhosibl neu mae'n angenrheidiol.</td><td>Mae'n bosibl crynhoi ail ran dadl Descartes fel hyn:<br>1 Y syniad cynhenid o Dduw yw'r un o fod hollol berffaith – Gallaf ganfod y syniad o Dduw yn eglur ac yn benodol â fy meddwl, felly mae'n rhaid ei fod Ef yn meddu ar y traethiadau rwy'n eu canfod.<br>2 Mae bod hollol berffaith yn meddu ar bob perffeithrwydd.<br>3 Mae bodolaeth yn draethiad o fod hollol berffaith – Mae'n rhaid bod Duw yn</td></tr>
</table>

| Malcolm | Descartes |
|---|---|
| 5 Dydy Ef ddim yn amhosibl – Yr unig ffordd y gallai Ef fod yn amhosibl fyddai petai'n abswrd neu'n baradocsaidd yn rhesymegol.<br>C Mae Duw yn bodoli o reidrwydd. | meddu ar berffeithrwydd hollol bodolaeth angenrheidiol.<br>C Felly, mae Duw yn bodoli. |
| Mae'r ddau ysgolhaig yn dod i'r casgliad, drwy reswm yn unig, bod Duw yn bodoli o reidrwydd. | |

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

5 Archwiliwch wrthwynebiadau Kant i'r ddadl ontolegol dros fodolaeth Duw.

- Mae'r ddadl ontolegol dros fodolaeth Duw yn brawf diddwythol, *a priori*. Ystyr llythrennol ontoleg yw 'yn ymwneud â bod' a does dim rhaid cael unrhyw dystiolaeth empirig i gadarnhau ei honiadau.
- Yn amlwg, mae Immanuel Kant yn gwrthwynebu'r ddadl ontolegol, ac yn herio Rene Descartes yn arbennig.
- Mae Descartes yn dadlau bod Duw yn meddu ar draethiad bodolaeth berffaith. Mae gan Dduw y traethiad hwn yn rhesymegol, yn yr un ffordd ag y mae gan driongl y nodwedd o fod â thair ongl sy'n gwneud cyfanswm o 180°.
- Mae Kant yn cytuno ei bod hi'n rhesymegol bod y diffiniad o driongl yn golygu bod rhaid i ni dderbyn bod iddo dair ongl. Ond mae'n honni y gallwn ni wrthod y diffiniad *a'r* tair ongl gyda'i gilydd. Felly hefyd, os ydw i'n gwrthod y diffiniad o Dduw fel bod rhagorol sy'n meddu ar bob perffeithrwydd, does dim angen i mi dderbyn ei fodolaeth Ef yn rhesymegol.
- Aeth Kant rhagddo i honni nad traethiad yw bodolaeth. Roedd Descartes wedi honni y gallai Duw feddu ar fodolaeth yn yr un ffordd ag y mae darn arian yn meddu ar nodweddion fel siâp, maint a phwysau.
- Dadl Kant yn erbyn hyn yw y dylen ni ddychmygu 100 o ddarnau aur. Dylen ni ddychmygu eu nodweddion: y marciau arnyn nhw, eu maint, eu siâp a'u pwysau. Traethiadau yw'r rhain. Petaech chi'n dal 100 o ddarnau aur yn eich llaw, dydy eu traethiadau ddim yn newid. Mae traethiad yn dweud wrthoch chi am y darnau aur. Ond, dydy dweud bod y darnau aur yn bodoli ddim yn ychwanegu dim at y cysyniad.
- Yn yr un ffordd, dydy dweud bod Duw yn bodoli ddim yn dweud dim byd amdano Ef. Felly, mae'n amhosibl bod bodolaeth yn draethiad y mae Ef yn meddu arno.
- Wrth ychwanegu at y pwynt hwn, mae Kant yn dadlau nad yw hi'n gwneud synnwyr dweud bod eitem heb draethiad bodolaeth. Byddai angen i'r eitem honno fodoli'n gyntaf er mwyn bod heb y traethiad, sy'n amhosibl yn rhesymegol. Felly, mae'n amhosibl i Dduw feddu ar nodwedd bodolaeth oherwydd bod syniad fel hyn yn baradocsaidd.
- Mae heriau Kant i fodolaeth fel traethiad yn berthnasol hefyd i ffurf gyntaf Anselm ar y ddadl ontolegol, oherwydd ei fod yntau hefyd yn trin bodolaeth fel traethiad y mae'n bosibl i Dduw feddu arno.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

## Cwestiynau enghreifftiol AA2, tudalen 31

1 Gwerthuswch y farn bod dadleuon *a priori* yn fwy perswadiol na dadleuon *a posteriori*.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Perswadiol = Yn argyhoeddi, yn gallu gwneud i berson newid ei safbwynt.

**Paragraff Un:**

- Mae dadleuon *a priori* yn rhesymegol. Yn union fel fformiwla fathemategol, dydy hi ddim yn gwneud synnwyr i ddiystyru rhywbeth y mae rheswm yn dangos ei fod yn wir yn rhesymegol. Felly mae dadleuon *a priori* yn argyhoeddi.
- Fodd bynnag, mae Hume yn nodi mai'r unig beth y mae'r ddadl dros fodolaeth Duw yn ei ddangos yw ei bod hi'n rhesymegol i Dduw fodoli. Ond dydy hyn ddim yn ddigon i brofi ei fod Ef yn bodoli mewn realiti. Er mwyn profi hyn, mae angen tystiolaeth *a posteriori*.
- Eto i gyd, os yw rheswm yn dangos y gallai Duw fodoli'n rhesymegol, mae'n golygu nad yw Ef yn amhosibl. Felly mae dadleuon *a priori* yn argyhoeddi'n rhannol o leiaf.

**Paragraff Dau:**

- Mae dadleuon *a priori* dros fodolaeth Duw yn ddiystyr oherwydd na allan nhw ddweud wrthon ni'n union beth sy'n bodoli. Mae angen tystiolaeth *a posteriori* i gadarnhau natur y peth sy'n cael ei honni, er enghraifft mae tystiolaeth o drefn yn dangos dylunydd deallus.
- Fodd bynnag, mae'r diffiniad o Dduw yn cynnwys nodweddion penodol, fel rhinwedd foesol a nerth. Mae'n bosibl deall y rhain *a priori* drwy'r diffiniad yn unig.
- Ond mae dadleuon *a priori* yn dangos yn rhesymegol fod rhywbeth yn bodoli. Mae cymeriad Duw yn fater gwahanol y byddwn yn ymdrin ag ef mewn dadleuon eraill.

**Paragraff Tri:**

- Cafodd Bertrand Russell ei argyhoeddi hyd yn oed pan glywodd e hi am y tro cyntaf. Roedd yn cydnabod bod y ddadl yn gadarn, lle roedd wedi gwrthod dadleuon *a posteriori* fel arall.
- Fodd bynnag, fel mae Russell ac eraill wedi cydnabod, chwarae â geiriau yw'r ddadl, ymarfer mewn semanteg, ac nid prawf o realiti bod. Mae angen tystiolaeth *a posteriori* er mwyn dangos realiti peth yn y byd empirig.
- Yn ogystal, fel mae Kant, Aquinas, Russell a llawer o rai eraill wedi dangos, nid traethiad yw bodolaeth. Felly dydy'r dadleuon *a priori* ddim yn argyhoeddi o hyd.

**Casgliad:**

- Yn y pen draw, pwrpas y dadleuon ontolegol, *a priori*, dros fodolaeth Duw oedd cefnogi'r ffydd sy'n bodoli'n barod a dangos nad yw credu yn Nuw yn afresymegol. Fel modd o wneud hyn, mae'r dadleuon yn berswadiol. Fodd bynnag, mae dadleuon *a*

*posteriori* yn gallu gwneud yr un peth yn union ac felly dydy'r naill ddim yn argyhoeddi mwy na'r llall.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth ynghylch y cwestiwn.**

2 'Mae'r heriau i'r ddadl ontolegol yn effeithiol iawn.' Gwerthuswch y safbwynt hwn.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Effeithiol = Llwyddiannus wrth gynhyrchu canlyniad a ddymunir. Yn yr achos hwn, maen nhw'n llwyddo i herio'r ddadl ontolegol drwy ddangos ei bod hi'n annilys neu'n ansad.

**Paragraff Un:**

- Llwyddodd Anselm a'i ail ffurf ar y ddadl i ddiystyru dadl Gaunilo yn hawdd. Felly doedd y ddadl hon ddim yn effeithiol fel her.
- Fodd bynnag, roedd pwynt Gaunilo yn ddilys hyd yn oed os oedd ei gydweddiad yn wan. Dydy diffiniad ddim yn ddigon i brofi bodolaeth rhywbeth.
- Mae Gaunilo yn dangos yn eglur nad yw diffiniad yn profi realiti. Dydy diffinio ungorn neu Siôn Corn ddim yn gwneud iddyn nhw fod yn real, ac felly mae ei heriau'n effeithiol iawn.

**Paragraff Dau:**

- Dydy gwrthod y diffiniad o Dduw, fel mae Kant yn ei wneud, ddim yn afresymol. Theïstiaid yn unig fyddai'n hapus i'w derbyn ac felly mae'r her gan Kant yn effeithiol wrth herio'r ddadl ontolegol fel un ansad.
- Fodd bynnag, gan gyfeirio at gydweddiad Kant a Descartes, mae diystyru'r triongl yn afresymegol. Rydyn ni'n gwybod yn eglur ac yn bendant beth yw triongl, ac mae'n rhaid i ni wneud hynny er mwyn ceisio ei ddiystyru. Drwy wrthod y diffiniad, rydyn ni'n amlygu'r paradocs hwn ac felly dydy'r her ddim yn argyhoeddi.
- Yn ogystal, dydy hi ddim yn bosibl cymharu trionglau â Duw: mae trionglau'n amodol ond mae Duw yn angenrheidiol, felly mae rheolau gwahanol yn berthnasol iddo Ef. Fodd bynnag, gan i Kant a Descartes wneud defnydd o'r cydweddiad hwn, does neb yn elwa ohono.

**Paragraff Tri:**

- Wrth gefnogi'r ddadl ontolegol, dydy Kant na Gaunilo ddim yn atal ysgolheigion modern rhag defnyddio rhesymeg foddol er mwyn dangos bodolaeth Duw, felly dydy'r heriau ddim wedi llwyddo.
- Fodd bynnag, mae Brian Davies yn dadlau bod rhesymeg foddol gan ysgolheigion fel Malcolm hyd yn oed yn camddefnyddio iaith drwy ddefnyddio 'mae' mewn dwy ffordd wahanol. Yn gyntaf, defnyddir 'mae/yw' i ddiffinio ('Duw *yw'r* hyn nad yw'n bosibl canfod dim byd mwy nag ef'), ac yn ail mae'n defnyddio 'mae' i gadarnhau bodolaeth (*Mae* Duw). Mae hyn yn twyllo pobl i dderbyn dilysrwydd dadl sy'n annilys mewn gwirionedd.

- Eto i gyd, dydy'r ffurf foddol ddim yn gwneud y camsyniad o drin bodolaeth fel traethiad. Mae hyn yn awgrymu bod gan y ddadl rai rhinweddau ac felly dydy'r heriau ddim yn gwbl lwyddiannus.

**Casgliad:**

- Mae pobl yn atheïstiaid neu'n Gristnogion am resymau heblaw am resymeg. Felly, fydd yr heriau byth yn llwyddo'n llwyr i wrthod y ddadl ontolegol i'r graddau y gall credinwyr ei thaflu o'r neilltu. Nid rheswm sy'n argyhoeddi person i fod â ffydd, ond mae rheswm yn gallu cefnogi a chadarnhau ffydd sydd yno'n barod. Felly, dydy'r heriau ddim yn effeithiol iawn.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth ynghylch y cwestiwn.**

# Thema 3 UG Heriau i gred grefyddol (rhan 1)

## 3A UG Problem drygioni a dioddefaint

### Profi eich hun, tudalen 33

1 Rhowch ddwy enghraifft o ddrygioni naturiol.

**Atebion enghreifftiol:** tswnamïau, tiwmorau yn yr ymennydd.

2 Rhowch ddwy enghraifft o ddrygioni moesol.

**Atebion enghreifftiol:** treisio, cam-drin plant.

3 Rhowch ddwy o nodweddion Duw theïstiaeth glasurol.

**Atebion enghreifftiol:** hollalluogrwydd, hollraslonrwydd.

### Profi eich hun, tudalen 35

1 Beth yw Pos Epicurus?

Naill ai mae Duw'n dymuno dileu drygioni, ond nid yw'n gallu; neu mae'n gallu, ond dydy E ddim yn dymuno gwneud hynny. Os yw'n dymuno gwneud hynny, ond dydy E ddim yn gallu, mae'n analluog. Os yw'n gallu, ond dydy E ddim yn dymuno gwneud hynny, mae'n ddrwg. Os yw Duw'n gallu dileu drygioni, ac os yw Duw wir yn dymuno gwneud hynny, pam mae drygioni yn y byd?

2 Beth yw'r triawd anghyson?

Mae tri pheth y mae'r thëist yn ceisio eu cydbwyso pan mae'n gwneud honiad theïstig am fodolaeth Duw. Y rhain yw bod Duw yn hollraslon ac yn hollalluog, a bod drygioni'n bodoli. Yn rhesymegol mae'n amhosibl i'r tri pheth hyn fod yn wir ar yr un pryd.

3 Pam byddai nodweddion eraill Duw yn ychwanegu at y broblem?

- Un – Alllwn ni ddim beio unrhyw Dduw arall am ddrygioni.
- Creator *ex nihilo* – Gwnaeth Duw bopeth o ddim byd, felly Duw wnaeth popeth sy'n bodoli. Rhaid i hyn gynnwys drygioni.
- Hollwybodus – Mae Duw yn gwybod popeth felly mae'n gwybod am ein dioddefaint.
- Personol – Nid grym amhersonol yw Duw, mae ganddo Ef ddealltwriaeth o'n profiad ni.
- Moesol berffaith – Mae Duw yn gwybod y gwahaniaeth rhwng da a drwg, cywir ac anghywir, ac mae'n dymuno i ni wneud gweithredoedd da neu gywir.
- Hollbresennol – Mae Duw ym mhobman, heb fod yn bell oddi wrthon ni, felly mae Ef yn ddigon agos i weithredu.

## Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 35

A yw problem drygioni'n cynnig prawf llwyr yn erbyn bodolaeth Duw cariadus a phwerus? Ystyriwch y canlynol:

1 A yw person da byth yn gallu mynd ati'n fwriadol i wneud i rywun ddioddef?

Gallai llawfeddyg achosi dioddefaint i'w glaf wrth roi llawdriniaeth iddo er mwyn iacháu salwch.

Gallai mam achosi dioddefaint ysgafn i'w phlentyn wrth ei ddisgyblu'n gymedrol i ddysgu gwers iddo, er enghraifft mynd â thegan, rhoi pryd o dafod, defnyddio'r 'gris drwg' (*naughty step*).

2 A yw hi byth yn bosibl cael unrhyw fudd drwy broses o ddioddefaint?

Yn yr enghreifftiau uchod, gallai'r claf sâl wella a gallai'r plentyn ddysgu ymddygiad priodol.

Neu, does bosibl bod rhiant da yn gallu dysgu gwers heb achosi poen neu ddioddefaint i blentyn. Os yw person yn deall yna fydd e ddim yn dioddef. Gallai llawfeddyg ddefnyddio rhywbeth priodol i leddfu poen i gael gwared ar ddioddefaint wrth iddo weithio i iacháu'r salwch.

3 Os ydych chi wedi ateb 'ydy' i'r naill gwestiwn neu'r llall, fyddai eich rhesymau'n ddigonol i adael i blant farw?

Does dim modd elwa ar y dioddefaint drwy adael i'r claf farw yn yr enghraifft uchod.

Neu, gallai marwolaeth y claf alluogi'r llawfeddyg i ddysgu sut mae trin cleifion yn fwy effeithiol yn y dyfodol, felly efallai byddai rhyw ddaioni mwy yn cael ei gyflawni.

# 3B UG Ymatebion crefyddol i broblem drygioni (i)

## Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 39

A ydych chi'n meddwl bod Awstin yn cynnig theodiciaeth effeithiol? Ystyriwch y canlynol:

1 A yw hi'n rhesymegol bosibl i Dduw wneud byd lle mae bodau dynol yn rhydd ond byth yn pechu?

Nac ydy – Yr unig ffordd y gallwn ni fod yn rhydd yw os oes gennyn ni ddewis go iawn, sy'n golygu y gallwn ni wneud camgymeriadau wrth ddod i farn. Petaen ni'n methu gwneud camgymeriadau, bydden ni'n methu cyflawni pechod.

Ydy – Er mwyn bod yn rhydd dylai'r posibilrwydd o ddewis daioni fod yno bob amser. Felly, yn union fel mae siawns y gallen ni gyflawni pechod, dylai fod siawns bob amser y gallwn ni ddewis daioni.

2 Yn ôl Dawkins, mae'n bosibl trosglwyddo memynnau (unedau o ddiwylliant, fel caneuon neu grefyddau) o berson i berson fel genynnau. A allai pechod fod yn femyn?

Na allai – Camfarn yw pechod lle rydyn ni'n anelu at y nod anghywir wrth weithredu. Nid clefyd yw pechod; byddai hyn yn awgrymu ei fod yn annibynnol ar ewyllys ddynol.

Gallai – Rydyn ni'n etifeddu syniadau o'n diwylliant a'n magwraeth, felly gallai ein tuedd i bechu fod yr un fath. Dydy Awstin ddim yn sôn am femynnau, wrth gwrs, ond mae *yn* awgrymu ein bod ni rywsut yn etifeddu ein pechod oddi wrth Adda. Mae'r gosodiad hwn yn awgrymu syniad tebyg. (Fodd bynnag, byddai Dawkins yn diystyru'r cysyniad o bechod gan mai atheist yw e.)

3 Ai diffyg daioni yn unig yw drygioni?

Ie – Mae enghraifft Awstin yn eglur iawn ac mae'n gydweddiad da ar gyfer drygioni fel diffyg perffeithrwydd yn y byd.

Nage – Mae drygioni'n ymwneud mwy â'n dehongliad ni o ddigwyddiadau yng ngoleuni'r effaith y maen nhw'n ei chael ar fodau dynol. Rydyn ni'n ystyried bod pethau'n ddrwg os ydyn nhw'n gwneud i ni deimlo'n wael yn unig. O safbwynt gwahanol, efallai na fydd digwyddiadau fel hyn yn ddrwg o gwbl.

## Profi eich hun, tudalen 39

1 Sut mae Duw yn cynnal ei nerth a'i ddaioni?

Mae'n dewis pwy fydd yn cael y gras i ddefnyddio'r rhyddid i fod â ffydd ynddo Ef.

2 I beth mae Awstin yn priodoli bodolaeth drygioni?

I'r pechod gwreiddiol gan Adda ac Efa yng Ngardd Eden.

3 Pam mae Duw yn gadael i ddrygioni barhau?

Mae Duw yn gadael i hyn barhau oherwydd ei fod yn gosb gyfiawn, ac oherwydd ei fod yn ychwanegu at batrwm esthetig y bydysawd.

4 Beth yw ystyr *privatio boni*?

Absenoldeb daioni.

5 Beth yw ystyr y term *felix culpa*?

Camgymeriad hapus. Cyfeiriad at bechod Adda yn arwain at iachawdwriaeth drwy Grist.

6 Pam nad yw Duw yn achub pawb?

Does dim rhaid iddo. Rydyn ni i gyd yn haeddu cael ein cosbi; cyfiawnder am ein natur bechadurus yw cosb. Fodd bynnag, oherwydd ei fod Ef yn dosturiol, mae Duw yn achub yr ychydig bobl sy'n dymuno ei ddewis Ef. Does neb yn haeddu cael ei achub, ond mae rhai'n cael eu hachub oherwydd bod Duw yn gariadus.

# 3C UG Ymatebion crefyddol i broblem drygioni (ii)

## Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 42

A yw Irenaeus a Hick yn gwneud synnwyr fel theodiciaeth? Ystyriwch y canlynol:

1 Beth yw pwrpas y bywyd hwn os oes purdan lle rydyn ni'n parhau i ddatblygu?

Does dim pwynt – Byddai'r theodiciaeth yn gwneud synnwyr dim ond petai'r bywyd hwn yn dod i ben pan fyddai ein heneidiau'n gyflawn.

Fel arall, un cam yn unig yw'r bywyd hwn yn y broses o greu eneidiau – Mae'n rhesymol bod mwy nag un rhan i'r broses o greu enaid.

2 A yw hi'n rhesymegol y gallai Duw hollalluog wneud ein heneidiau heb ganiatáu dioddefaint?

Yn ôl Swinburne a Hick, er mwyn i ni wneud dewisiadau rhydd, mae'n rhaid i ni mewn gwirionedd wneud dewisiadau real gyda chanlyniadau real. Petaen ni ddim yn dioddef, fydden ni byth wir yn gallu dewis gwneud rhywbeth anghywir. Felly, bydden ni byth yn gallu dewis daioni'n rhydd chwaith.

Eto i gyd, dylai Duw hollalluog, yn ôl y diffiniad, allu gwneud popeth, yn cynnwys yr hyn sy'n ymddangos yn amhosibl i ni.

3 A yw ewyllys rydd yn werth y boen o ganiatáu dioddefaint?

Ydy – Does dim ystyr i fywyd os pypedau neu awtomata ydyn ni. Byddai ein gweithredodd ni yn ddibwynt, a byddai daioni a drygioni, cywir ac anghywir yn colli pob ystyr.

Nac ydy – Fel dywed Dostoyevsky, dydy'r holl wybodaeth o ddaioni a drygioni yn y byd hwn ddim yn werth dagrau un plentyn. Dadl 'gadair freichiau' yw dweud bod dioddefaint yn 'werth ei ddioddef'. Hynny yw,  dyna'r math o ddadl a gynigir gan rywun nad oes yn rhaid iddo brofi'n llawn beth yw ystyr dioddef fel bod dynol.

## Profi eich hun, tudalen 43

1 Pa adnod yn yr ysgrythur oedd yn bwysig i theodiciaeth Irenaeus?

'Gwnawn ddyn ar ein delw, yn ôl ein llun ni' (Genesis 1:26).

2 Beth mae Hick yn ei olygu wrth ddisgrifio'r byd fel dyffryn creu eneidiau?

Mae'r byd hwn yn ddyffryn creu eneidiau (dyffryn, neu le, lle mae eneidiau'n cael eu creu) oherwydd bod dioddefaint yn helpu i'n hadeiladu ni i ddod yn fwy tebyg i Dduw.

3 Rhowch dair enghraifft o ddaioni eilradd.

- Elusen – Dim ond yn angenrheidiol oherwydd bod rhai pobl heb yr adnoddau sydd eu hangen arnyn nhw.
- Allgaredd – Dim ond yn angenrheidiol oherwydd bod amgylchiadau rhai pobl yn eu hatal rhag gweithredu drostyn nhw eu hunain.
- Tosturi – Dim ond yn angenrheidiol oherwydd bod rhai pobl neu greaduriaid yn profi dioddefaint ofnadwy neu amgylchiadau anodd sy'n ei gwneud hi'n anodd iddyn nhw weithredu yn ôl disgwyliadau cymdeithasol neu foesol.

# Cwestiynau enghreifftiol

## Cwestiynau enghreifftiol AA1, tudalen 46

1 Amlinellwch broblem drygioni gan gyfeirio at Epicurus a Mackie.

- Cynigir problem drygioni fel her i gred grefyddol gan ei bod hi'n ymddangos fel petai hi'n gwrth-ddweud cymeriad Duw yn ôl monotheïstiaeth. Fel arfer ystyrir mai problem i Gristnogion, Mwslimiaid ac Iddewon yn unig yw hi, oherwydd eu honiadau nhw am natur Duw.
- Mae problem resymegol drygioni yn dangos ei bod hi'n rhesymegol amhosibl i ddrygioni a Duw theïstiaeth glasurol gydfodoli.
- Efallai mai Epicurus yw un o'r bobl hynaf i nodi problem drygioni a dioddefaint yn ffurfiol. Mae'r ffordd y mae'n mynegi hyn yn aml yn cael ei alw'n Baradocs Epicuraidd neu Bos Epicurus.
- Tynnodd Epicurus sylw at y paradocs sydd gennym os yw Duw yn gariadus ac yn nerthol ond eto bod drygioni'n dal i fodoli. Naill ai mae Duw'n dymuno dileu drygioni, ac nid yw'n gallu; neu mae'n gallu, ond dydy E ddim yn dymuno gwneud hynny. Os yw'n dymuno gwneud hynny, ond dydy E ddim yn gallu, mae'n analluog. Os yw'n gallu, ond dydy E ddim yn dymuno gwneud hynny, mae'n ddrwg. Os yw Duw'n gallu dileu drygioni, ac os yw Duw wir yn dymuno gwneud hynny, pam mae drygioni yn y byd?
- Yn ystod y blynyddoedd mwy diweddar, mae J. L. Mackie wedi trafod y broblem hon eto. Enw Mackie ar hyn yw'r triawd anghyson. Mae tri pheth y mae'r thëist yn ceisio eu cydbwyso pan mae'n gwneud honiad theïstig am fodolaeth Duw, ac, yn rhesymegol, dydyn nhw i gyd ddim yn gallu bod yn wir.
- Mae theistiaid yn ystyried bod Duw yn hollraslon ac yn hollalluog, ac maen nhw'n credu bod drygioni'n bodoli. Ar unrhyw adeg, dau yn unig o'r gosodiadau hyn y mae'n bosibl honni eu bod nhw'n wir:
  - Mae Duw yn gallu bod yn gariadus ac yn nerthol os nad oes drygioni. Ond byddai hyn yn groes i bob tystiolaeth ffisegol i'r gwrthwyneb.
  - Mae Duw yn gallu bod yn gariadus ac mae yna ddrygioni, sy'n golygu ei fod Ef yn analluog ac yn methu gwneud dim droson ni.
  - Mae Ef yn gallu bod yn nerthol ac mae yna ddrygioni, sy'n golygu ei fod Ef yn faleisus ac yn mwynhau ein gweld ni'n dioddef.
- Dydy pob un o'r tri gosodiad ddim yn gallu bod yn wir ar yr un pryd.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

2 Archwiliwch broblem drygioni gan gyfeirio at Rowe a Paul.

- Cynigir problem drygioni fel her i gred grefyddol gan ei bod hi'n ymddangos fel petai hi'n gwrth-ddweud cymeriad Duw yn ôl monotheïstiaeth. Fel arfer ystyrir mai problem i Gristnogion, Mwslimiaid ac Iddewon yn unig yw hi, oherwydd eu honiadau nhw am natur Duw.

- Cyflwynodd Rowe a Paul broblem dystiolaethol drygioni. Dadl yw hon bod y dystiolaeth empirig o fodolaeth drygioni a dioddefaint yn golygu ei bod hi'n annhebygol bod Duw yn bodoli.
- Yn ôl dadl Rowe, byddai Duw hollalluog, hollraslon eisiau ac yn gallu cael gwared ar ddioddefaint dwys lle gallai Ef wneud hynny, heb achosi rhagor o niwed neu atal rhagor o ddaioni yn y broses. Gan nad yw Duw yn gallu gwneud unrhyw beth i atal y dioddefaint dwys hwn, mae'n amhosibl ei fod Ef yn bodoli.
- Mae Rowe yn rhoi enghraifft i gefnogi'r ddadl hon: Mewn coedwig bellennig, mae mellten yn taro hen goeden, gan achosi tân coedwig. Mae carw ifanc yn cael ei ddal yn y tân ac yn cael ei losgi'n erchyll. Mae'n gorwedd mewn artaith gyda'i anafiadau am ddiwrnodau cyn iddo farw gyda neb yn ymwybodol neu'n gallu gwneud dim i'w helpu.
- Roedd Rowe yn honni, yn y drasiedi hon, nad oes unrhyw fod yn elwa o ddioddefaint y carw ifanc. Achosodd neb y dioddefaint hwn yn rhydd. Fyddai neb wedi gallu gwneud gweithred dda i helpu a does neb wedi dysgu unrhyw beth oddi wrthi gan nad oedd unrhyw dystion. Dylai'r digwyddiad diangen hwn, un yr oedd modd ei osgoi, fod wedi cael ei atal petai Duw yn dda ac yn nerthol.
- Mae problem dystiolaeth drygioni Gregory S. Paul yn amcangyfrif bod:
  - o leiaf 100 biliwn o fodau dynol wedi'u geni drwy gydol hanes (gan ddechrau tua 50,000 o flynyddoedd yn ôl, pan ymddangosodd Homo sapiens am y tro cyntaf)
  - cyfradd marwolaethau plant yn hanesyddol dros 50 y cant
  - marwolaethau'r 50 biliwn o blant hyn o achos clefydau'n bennaf
  - yn ogystal, efallai fod 300 biliwn o fodau dynol wedi cael eu cenhedlu gan farw yn y cyfnod cyn-geni – o gofio bod y gyfradd marwolaethau cyn genedigaeth yn hanesyddol tua thri chwarter.
- Enw Paul ar y nifer dychrynllyd hwn o farwolaethau plant yw 'Holocost y Plant'. Mae o'r farn ei bod hi'n amhosibl i thëist roi disgrifiad rhesymegol o natur Duw pan mae cymaint o fodau diniwed, diymadferth wedi marw. Dydy hi ddim yn gredadwy bod Duw sy'n gariadus ac yn foesol berffaith yn methu atal rhywbeth mor ddychrynllyd.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

3 Esboniwch sut mae theodiciaethau sy'n seiliedig ar un Irenaeus yn ceisio datrys problem drygioni.

- Ystyr llythrennol theodiciaeth yw 'cyfiawnhau Duw'. Bydd theodiciaeth wirioneddol yn derbyn bod drygioni yn real, ond bydd yn honni bod Duw yn rhesymegol yn dal i allu bod yn dda ac yn gariadus yn wyneb dioddefaint fel hyn. Nid theodiciaeth wirioneddol yw unrhyw ateb sy'n gwadu un o'r pethau hyn.
- Mae theodiciaeth Irenaeus yn honni bod Duw yn creu drygioni a dioddefaint yn y byd am reswm cyfiawn. Mae Irenaeus yn dweud mai Duw sy'n gyfrifol am ddrygioni ond mae'n dangos bod ganddo Ef achos teg dros greu drygioni a thros adael iddo aros.
- Yn ôl Irenaeus, pwrpas y byd yw fel lle i greu eneidiau:
  - Cawson ni ein creu yn amherffaith gyda'r potensial am berffeithrwydd.
  - Datblygir perffeithrwydd dynol go iawn drwy ddewis rhydd.
  - Cawn ni ein rhoi ar y Ddaear, lle rydyn ni'n dioddef ac yn cael anawsterau.

  - Mae dioddefaint yn ein galluogi i ddatblygu i berffeithrwydd, fel y mae Duw yn ei fwriadu, drwy ein dewisiadau rhydd.
  - Mae Duw fel crefftwr sy'n llunio ei greadigaeth ac yn gwneud iddi fod yn hardd.
- Mae Hick wedi datblygu'r theodiciaeth hon ymhellach yn y blynyddoedd mwy diweddar ac mae'n cytuno ag Irenaeus: petai'r Ddaear yn lle i wneud bywydau hapus, yna byddai'n greadigaeth wael. Mae'r byd hwn yn ddyffryn creu eneidiau oherwydd bod dioddefaint yn helpu i'n hadeiladu ni i ddod yn fwy tebyg i Dduw. O ganlyniad, enw Hick ar hyn oedd theodiciaeth creu eneidiau.
- Cafodd Irenaeus ei ysbrydoliaeth o ddehongliad o'r ysgrythur – 'Gwnawn ddyn ar ein delw, yn ôl ein llun ni' (Genesis 1:26).
- Pan greodd Duw fodau dynol, gwnaeth Ef ni ar ei ddelw Ef, felly gyda pheth gallu fel Ef. Byddai hyn yn cynnwys moesoldeb, deallusrwydd ac ewyllys rydd. Fodd bynnag, dydyn ni ddim fel Ef eto, ac mae'n rhaid i ni dyfu i fod yn debyg i Dduw. Mae Hick yn cytuno nad cwympo o berffeithrwydd wnaeth bodau dynol, cael eu creu'n amherffaith wnaethon nhw. Felly, Duw sy'n gyfrifol am ein gallu i greu drygioni.
- Mae Duw yn aros ar bellter epistemig fel y gallwn ni wneud dewis rhydd i ddatblygu i fod yn debyg iddo.
- Mae Duw yn caniatáu drygioni naturiol yn y byd oherwydd ei fod yn cynnig cyfle i dwf ysbrydol:
  - Byddai'n hawdd bod yn dda mewn byd perffaith.
  - Petai digon o adnoddau a phetai trychinebau ddim yn digwydd, fyddai dim cyfle i dwf.
  - Pan mae drygioni'n digwydd, mae gennym ni gyfle i ddangos rhinweddau fel caredigrwydd, allgaredd a thosturi.
  - Daioni eilradd yw'r rhinweddau hyn sy'n dibynnu ar fodolaeth drygioni er mwyn ffynnu.
  - Mae'r rhagdybiaeth groesffeithiol yn dangos bod y byd yn ei gyflwr presennol yn ein hysgogi i wella.
  - Fyddai byd heb newyn ddim yn cynnwys unrhyw elusen.
  - Mewn byd perffaith, fyddai gennym ni ddim rheswm i drio.
- Mae Irenaeus a Hick yn dadlau bod ein hiachawdwriaeth yn dibynnu ar ein dewisiadau ar y Ddaear. Mae'n ymwneud llai â gwaith Crist ar y groes a mwy â'r cwestiwn a yw ein ffydd a'n gweithredoedd wedi ein datblygu ni yn ystod ein bywyd.
- Dydyn ni ddim yn cael ein damnio'n dragwyddol os nad ydyn ni'n cyrraedd perffeithrwydd moesol yn y bywyd hwn (dydy llawer ohonon ni ddim yn gwneud) oherwydd ein bod ni'n parhau i ddatblygu yn y purdan.
- Mae'r diniwed sy'n dioddef yn cael gwobr yn y nefoedd. Mae'n rhaid i'r person sy'n achosi niwed aros tan iddo gyrraedd perffeithrwydd i gyrraedd y nefoedd. Ond mae pob un yn gallu cyrraedd perffeithrwydd yn ei amser ei hun.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

4 Cymharwch theodiciaethau Awstin ac Irenaeus fel ymateb crefyddol i broblem drygioni.

| **Awstin** | **Irenaeus** |
|---|---|
| Mae'n amhosibl mai Duw sy'n gyfrifol am ddrygioni gan ei fod yn foesol berffaith. | Duw sy'n gyfrifol am ddrygioni ond mae ganddo Ef achos teg dros ganiatáu i'r drygioni aros. |
| Amddifadrwydd daioni yw drygioni (*privatio boni)*. | Pwrpas drygioni yw creu ein heneidiau. |
| Creodd Duw Adda ac Efa i fod yn berffaith gydag ewyllys rydd. Cyflawnon nhw'r pechod gwreiddiol. Llygrodd hwn y ddynoliaeth i gyd oherwydd ein bod ni'n semenol bresennol yn Adda. | Nid cwympo o berffeithrwydd wnaethon ni, ond cawson ni ein creu'n amherffaith gyda'r potensial am berffeithrwydd. |
| Ein bai ni yw i ddrygioni ddod i'r byd ac felly mae gan Dduw achos cyfiawn dros ganiatáu iddo aros fel cosb deg. | Mae'r rhagdybiaeth groesffeithiol yn dangos bod y byd yn ei gyflwr presennol yn ein hysgogi i wella. Dyma'r unig fyd lle gallai creu eneidiau ddigwydd. |
| Mae Duw yn gyfiawn, felly rhaid iddo Ef roi cosb am ein gweithredoedd drygionus. Rhoddodd Ef Iesu Grist (Duw wedi'i ymgnawdoli) i farw dros y ddynoliaeth fel cosb gyfiawn dros bechodau rhai pobl. | Does dim angen marwolaeth Crist arnon ni i wneud iawn am ein pechodau; gallwn ni ein hachub ein hunain drwy ddod yn berffaith. |
| Mae Duw yn drugarog ac felly mae'n cynnig y cyfle am iachawdwriaeth drwy Grist i'r rhai sy'n ei ddewis Ef yn rhydd. | Mae Duw yn gariadus ac felly mae iachawdwriaeth yn bosibl i bawb. Dydy rhai pobl ddim yn llwyddo i gael iachawdwriaeth yn y byd hwn ac mae'n rhaid iddyn nhw dreulio mwy o amser yn y purdan. |
| Dirgelwch dwyfol i ni yw pwy gaiff ei achub a phwy gaiff ei gondemnio. | Mae Duw yn aros ar bellter epistemig fel y gallwn ni wneud dewis rhydd i ddatblygu i fod yn debyg iddo. |
| Gallwn ni wneud penderfyniad rhydd i ddewis Duw, ond mae'n rhaid i ni gael cymorth gan ei ras i gyflawni ein dewis da ac i wrthod pechod. | Pan mae drygioni'n digwydd, mae gennym ni gyfle i ddangos rhinweddau fel caredigrwydd, allgaredd a thosturi. Daioni eilradd yw hyn. |
| Mae'r theodiciaeth 'penderfyniad yr enaid' hon yn golygu mai'r unigolyn sy'n penderfynu dewis Duw, yna mae Duw yn rhoi'r gras iddo wneud hyn. | Mae'r theodiciaeth 'creu eneidiau' hon yn golygu bod Duw yn rhoi'r amgylchedd hwn er mwyn llunio a chreu ein heneidiau. |

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

## Cwestiynau enghreifftiol AA2, tudalen 46

1 Gwerthuswch y safbwynt bod theodiciaethau sy'n seiliedig ar un Awstin yn methu fel amddiffyniad o'r Duw theïstig.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Methu = Ddim yn llwyddo o gwbl i amddiffyn y Duw theïstig.

**Paragraff Un:**

- Mae'r theodiciaeth yn cynnwys iachawdwriaeth Iesu Grist ar y groes, sy'n sylfaenol i ddysgeidiaeth Gristnogol. Mae hyn yn rhoi coel ar y theodiciaeth gan fod nerth a chariad Duw yn cael eu cynnal.
- Fodd bynnag, gan fod iachawdwriaeth yn hollol seiliedig ar Grist yn achub y rhai sy'n ei ddewis ef, mae gweithredoedd dynol yn amherthnasol ac yn methu ein hachub ni. Felly, does dim gwahaniaeth gwirioneddol o ran teilyngdod rhwng y rhai sy'n cael eu hachub a'r rhai sy'n cael eu condemnio. Mae'n gwneud i farn ymddangos yn rhywbeth mympwyol a diystyr.
- Eto i gyd, yn ddiwinyddol, mae fel petai'n cydbwyso gwaith Crist ag ewyllys rydd. Felly, er bod hyn yn gwneud Duw yn rhannol gyfrifol am ganiatáu drygioni, mae'r theodiciaeth yn llwyddo i roi'r bai ar ysgwyddau dynol a'r clod am iachawdwriaeth gyda Duw.

**Paragraff Dau:**

- Mae theodiciaeth Awstin yn cadw holl nodweddion theïstig Duw mewn cof heb ddiystyru drygioni, sy'n unol â natur theodiciaeth wirioneddol.
- Fodd bynnag, mae F. D. E. Schleiermacher wedi dangos ei fod yn methu ar seiliau gwyddonol, moesegol a rhesymegol. Mae presenoldeb semenol yn fiolegol anghywir; ddylai Duw cariadus ddim achub rhai pobl ond eto i gyd troi ei gefn ar eraill, a does bosibl bod creadigaeth berffaith yn gallu mynd o chwith.
- Felly, er bod hyn yn ddiwinyddol yn unol â'r ysgrythur, mae gormod o wallau, felly mae'r theodiciaeth yn methu.

**Paragraff Tri:**

- Mae theodiciaeth Awstin yn ymwneud gormod ag osgoi heresi i fod yn ateb rhesymegol i broblem drygioni. Mae gormod o wrth-ddweud rhwng ein hewyllys rydd ni a Duw yn ein rhagordeinio ni.
- Fodd bynnag, dydy'r theodiciaeth hon ddim yn lleihau pŵer Duw dros y ddynoliaeth hyd yn oed wrth gydnabod ein bod wedi pechu'n rhydd yn ei erbyn Ef a bod yn rhaid i ni ei ddewis Ef yn rhydd.
- Yn ogystal, llwyddodd y theodiciaeth i osgoi heresi i'r graddau bod yr Eglwys Gatholig Rufeinig yn ei derbyn a bod Awstin yn cael ei barchu fel sant, felly mae'n rhaid ei hystyried yn llwyddiant.

**Casgliad:**

- Er bod y diffiniad o ddrygioni'n rhesymol ac yn rhesymegol fel amddifadrwydd daioni, mae Duw wedi gadael i ni ddioddef ohono o hyd. Beth bynnag yw natur drygioni, mae'n rhaid ystyried mai Duw sy'n gyfrifol am faint a difrifoldeb ein profiad hyd yn oed os pechod gwreiddiol a'i hachosodd. Felly, mae'n amhosibl i'r theodiciaeth lwyddo'n llwyr.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth ynghylch y cwestiwn.**

2 'Dydy'r ffurf glasurol ar broblem drygioni ddim wir yn broblem.' Gwerthuswch y safbwynt hwn.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Problem = Yn yr achos hwn ei ystyr yw cynnig her sy'n ddigon i wneud i fodolaeth Duw fod yn afresymegol.

**Paragraff Un:**

- Mae'r ffurf glasurol ar broblem drygioni yn dangos natur afresymegol ffydd crediniwr mewn Duw hollalluog a chariadus, felly yn sicr dylai gael ei hystyried yn broblem.
- Fodd bynnag, dydy Duw ddim yn amodol ar reswm yn yr un ffordd â chreaduriaid sydd â chorff. Dydy hi ddim yn afresymol disgwyl Duw i drosgynnu problemau fel hyn gan ei fod Ef yn fwy nag y mae ein gallu cyfyngedig ni i resymu yn medru ei ddeall.
- Yn ogystal, bydd y rhai sydd â ffydd yn Nuw yn dal gafael ar eu ffydd er gwaetha'r broblem athronyddol hon. Felly dydy problem drygioni ddim wir yn broblem o gwbl.

**Paragraff Dau:**

- Mae'r theodiciaethau'n amddiffyn natur Duw ac felly maen nhw'n dangos ei bod hi'n rhesymegol credu bod gan Dduw y nodweddion hyn. Ymdrinnir yn llwyddiannus â phroblem drygioni a dydy hi ddim yn dal i achosi trafferthion.
- Fodd bynnag, does dim un theodiciaeth wedi ateb y paradocs yn ddigonol ac yn rhesymegol. Mae atebion Awstin ac Irenaeus yn codi cymaint o broblemau fel nad yw hi'n bosibl ystyried y naill na'r llall yn ateb i'r broblem.
- Mae'r paradocs wedi'i nodi'n eglur ym mhroblem glasurol drygioni, ond mae theodiciaethau'n dangos bod llawer o atebion posibl. Mae hi'n broblem, ond dydy hi ddim yn un amhosibl ei goresgyn.

**Paragraff Tri:**

- Mae llawer o athronwyr wedi trafod problem drygioni dro ar ôl tro ers yr hen Roegwyr. Hyd yn oed heddiw, ystyrir hi'n ddadl arwyddocaol yn erbyn bodolaeth Duw.
- Eto i gyd, mae'r 'broblem' yn dangos dealltwriaeth lawer rhy syml o natur Duw a drygioni. Mae'r broblem yn bodoli'n unig os ydyn ni'n deall Duw yn nhermau daioni a phŵer dynol – ond mae Duw heb gorff ac yn drosgynnol.
- Mae llawer o bobl yn arsylwi'r broblem, felly mae hi'n broblem. Ond mae pawb yn gallu arsylwi ein hewyllys rydd a'n cyfrifoldeb hefyd ac allwn ni ddim rhoi'r bai i gyd ar Dduw.

**Casgliad:**

- Er gwaetha'r holl gefnogaeth gan ddiwinyddion y gorffennol a'r presennol, mae problem glasurol drygioni yn cael rhagor o gefnogaeth gan y broblem dystiolaethol, sy'n dangos bod Duw yn annhebygol. Mae hyn yn golygu bod problem drygioni yn sicr yn broblem arwyddocaol.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth ynghylch y cwestiwn.**

# Thema 4 UG Profiad crefyddol

## 4A UG Natur profiad crefyddol

### Profi eich hun, tudalen 48

1 Rhowch dair ffordd y mae profiad crefyddol yn wahanol i brofiad cyffredin.

- Dydy profiad crefyddol ddim yn gyffredinol i bob bod dynol.
- Dydy hi ddim yn bosibl gwirio profiad crefyddol.
- Dydy profiad crefyddol ddim yn brofiad o ddigwyddiadau neu eitemau empirig.

2 Beth yw ystyr gofyn am natur neu nodweddion profiad crefyddol?

Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod chi'n deall natur y profiadau hyn.

3 Diffiniwch y tair nodwedd ar weledigaethau.

- Mae rhywbeth ymddangosiadol allanol yn digwydd.
- Dydy pobl eraill ddim yn gallu synhwyro'r digwyddiad.
- Mae'n dod â gwybodaeth a dealltwriaeth y mae'n amhosibl eu cael nhw mewn unrhyw ffordd arall.

### Profi eich hun, tudalen 49

1 Esboniwch dair ffordd y gall pobl gael profiad o dröedigaeth.

- O anghrediniaeth i grediniaeth
- O un grefydd i un arall
- Cryfhau ffydd

2 Beth yw'r gwahaniaethau rhwng tröedigaeth sydyn a graddol?

Mae tröedigaethau sydyn yn tueddu i fod:

- ar adeg benodol mewn amser
- yn anymwybodol
- yn anwirfoddol
- yn annisgwyl neu'n ddigymell.

Tröedigaethau graddol:

- mae'n amhosibl nodi'r union amser maen nhw'n digwydd
- yn tueddu i gynnwys ymdrech ymwybodol
- yn tueddu i fod yn wirfoddol
- yn tueddu i gymryd amser.

3 Rhestrwch bum nodwedd Miller ar brofiadau cyfriniol.

- Trosgynnol – Uwchben y byd materol a'r tu hwnt iddo.
- Anhraethol – Amhosibl ei egluro mewn iaith gyffredin.
- Noëtig – Yn rhoi gwybodaeth sy'n amhosibl ei chael o ffynhonnell arall.
- Ecstatig – Yn dod â chyflwr emosiynol o berlewyg neu ewfforia.
- Unol – Ymdeimlad o undod â'r dwyfol.

### Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 50

Pa mor ddefnyddiol yw'r gwahanol esboniadau o natur profiad crefyddol? Ystyriwch y canlynol:

1 A yw'r esboniadau'n ymddangos fel petaen nhw'n gwrth-ddweud ei gilydd byth?

Ydyn – Os yw tröedigaeth yn gallu bod yn sydyn ac yn raddol, yn gymunedol ac yn unigol, yna mae hi'n anodd gweld beth yw profiad fel hwn. Mae'r diffiniadau fel petaen nhw'n cynnwys popeth a dim byd wrth esbonio profiad crefyddol.

Nac ydyn – Mae'r profiadau'n amrywiol ac felly mae angen i esboniadau gynnwys amrywiaeth fel eu bod nhw'n cynnwys profiad sy'n grefyddol ond nad yw'n cyd-fynd yn union â meini prawf cyfyngedig.

2 A ydyn ni'n deall yn well pa fath o beth yw profiad cyfriniol?

Ydyn – Mae'r enghreifftiau sy'n cael eu rhoi yn helpu i esbonio'n fwy eglur.

Nac ydyn – Maen nhw'n anhraethol ac felly yn troi at iaith grefyddol neu symbolaidd i esbonio rhywbeth. Does neb yn gallu deall yr iaith hon os na chawson nhw'r profiad eu hunain.

3 A allwn ni ddadansoddi profiad sy'n amhosibl ei wirio?

Gallwn – Mae James yn ystyried profiadau fel hyn o safbwynt seicolegol ac yn dyfynnu ysgolheigion eraill sydd wedi gwneud yr un peth.

Na allwn – Allwn ni byth fod yn sicr bod profiad fel hwn yn ddilys neu nad yw ei nodweddion wedi'u camddehongli neu eu camgymryd.

## 4B UG Profiad cyfriniol

### Profi eich hun, tudalen 51

1 Beth yw natur sylfaenol profiad cyfriniol?

Mae'n deimlad o undod â'r dwyfol a theimlad ecstatig sy'n gwneud i berson golli ei ymdeimlad o'r hunan.

2 Pa bedair nodwedd a arsylwodd James sy'n gyffredin mewn profiadau cyfriniol?

- Goddefol – Pan mae'n digwydd, mae'r cyfriniwr yn teimlo bod y grym yn cydio ynddo.
- Anhraethol – Mae'n anodd i'r cyfriniwr fynegi'r profiad.

- Noëtig – Mae'r cyfriniwr yn cael gwybodaeth heb ddefnyddio rheswm neu brofiad cyffredin.
- Byrhoedlog – Mae'r profiadau dros dro, eto i gyd mae'r effeithiau'n parhau.

3 Beth mae'n ei olygu i ddisgrifio James fel pragmatydd o ran profiadau crefyddol?

Roedd yn honni bod gosodiad sy'n gweithio'n gadarnhaol ym mywyd person yn wir.

## Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 53

Darllenwch y profiad cyfriniol a gafodd Teresa o Avila. Amlygwch neu nodwch y nodweddion ar ei phrofiadau sy'n cyfateb i bedair nodwedd James ac yna ailadroddwch hyn ar gyfer profiadau nwminaidd Otto.

James:

- Goddefol – 'Ymddangosodd Crist o fy mlaen'
- Anhraethol – 'Gwelais ef â llygaid fy enaid'
- Noëtig – 'yn fwy eglur nag y gallwn fod wedi'i weld erioed â llygaid y corff'
- Byrhoedlog – 'er bod hyn dros chwe blynedd ar hugain yn ôl, dwi fel petawn i'n synhwyro ei bresenoldeb hyd yn oed nawr'

Otto:

- *Mysterium* – 'yn gwneud i mi ddeall bod rhywbeth am hyn a oedd yn ei ddigio'
- *Tremendum* – 'Cefais fy nghythryblu'n fawr'
- *Fascinans* – 'Roeddwn wedi fy rhyfeddu'

Ystyriwch y canlynol:

1 A ydych chi'n teimlo bod James wedi eich helpu chi i ddeall mwy am y math o beth yw profiad cyfriniol?

Ydw – Mae pob nodwedd wedi'i diffinio'n eglur, a gall fod yn rhan o amrywiaeth eang o brofiadau gwahanol; y mae'n bosibl galw pob un yn gyfriniol oherwydd bod y nodweddion hyn ganddyn nhw.

Nac ydw – Dydyn nhw ddim wir yn dweud wrthon ni sut fath o beth yw'r profiadau hyn, oherwydd allwn ni ddim deall beth yr honnir sydd wedi'i wybod neu wedi'i synhwyro o ganlyniad i'r profiadau.

2 A yw'r diffiniad o nwminaidd yn eglur i rywun sydd eisiau gwybod mwy am brofiad crefyddol?

Ydy – Gallwn ni ddeall yn eglur yr amwysedd sydd mewn profiadau nwminaidd a deall dryswch fel hyn.

Nac ydy – Dim ond oherwydd bod rhywbeth yn wrthun ac yn ddiddorol i ni, dydy hynny ddim yn golygu ei fod yn tarddu o'r dwyfol. Gallen ni ddweud yr un peth am rai sioeau realiti ar y teledu!

3 A yw'r diffiniadau'n ymddangos fel petaen nhw'n cyd-fynd â'i gilydd neu a ydyn nhw'n gwrthdaro â'i gilydd?

Dydyn nhw ddim yn baradocsaidd, eto i gyd does ganddyn nhw ddim byd yn gyffredin.

### Profi eich hun, tudalen 53

1 Beth roedd Otto yn ei olygu wrth y gair nwminaidd?

Grym goruwchnaturiol neu ddwyfol.

2 Beth yw tair elfen arwyddocaol *mysterium tremendum et fascinans*?

- *Mysterium* – Dirgelwch, 'rhywbeth hollol wahanol'. Rhywbeth y tu hwnt i ffiniau dynol.
- *Tremendum* – Parchedig ofn, braw neu ddychryn o fod ym mhresenoldeb Duw.
- *Fascinans* – Tynfa neu atyniad profiad. Methu eich llusgo eich hun i ffwrdd.

3 Pam disgrifir y nwminaidd fel *sui generis*?

Mae'n unigryw, yn ei gategori ei hun, mae'n wahanol i unrhyw fath arall o brofiad.

## 4C UG Heriau i wrthrychedd a dilysrwydd profiad crefyddol

### Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 56

Pa mor rhesymol yw'r gwahanol heriau i brofiad crefyddol? Ystyriwch y canlynol:

1 A oes unrhyw rai o'r esboniadau amgen yn afresymol o gymhleth?

Ydyn – Awgrymir heriau fel hyn oherwydd bydd rhai pobl yn cydio mewn unrhyw esboniad arall fel nad oes rhaid iddyn nhw gredu mai Duw oedd e.

Nac ydyn – Mae pob un o'r esboniadau eraill yn gyson â phrofiad y byd empirig y mae pawb yn gallu ei brofi.

2 A oes unrhyw rai o'r heriau'n afresymol o *ad hominem*?

Ydyn – Dydy pob crediniwr crefyddol ddim yn dweud celwydd neu'n feddw ar gyffuriau. Mewn gwirionedd, byddai eu system foesegol yn atal hyn.

Nac ydyn – Dydy pob person crefyddol ddim yn honni profiadau fel hyn. Yn aml, y rhai sy'n eu honni yw'r rhai sydd â'r angen mwyaf am help yn eu bywydau. Dyna pam mae angen profiad crefyddol arnyn nhw yn y lle cyntaf.

3 A yw'r heriau'n ei gwneud hi'n amhosibl i brofiadau crefyddol fod yn ddilys?

Ydyn – Mae'r heriau hyn yn cwmpasu amrywiaeth mor eang o bosibiliadau eraill, mae'n amhosibl gobeithio cael profiad o Dduw.

Nac ydyn – Mae Duw yn dal i fod yn achos posibl, hyd yn oed os yw'r esboniadau eraill yn ymddangos yn fwy tebygol.

### Profi eich hun, tudalen 56

Rhowch y gosodiadau canlynol yng nghategori cywir her Franks Davis:

1. Roeddech chi'n ymprydio am ormod o amser o lawer. – Pwnc
2. Rydych chi'n dweud celwydd. – Pwnc
3. Esboniad hen ffasiwn yw hwn, cyn i ni ddeall gwyddoniaeth. – Disgrifiad
4. Mae 'gras Duw' yn esboniad diystyr. – Disgrifiad
5. Amodau tywydd a goleuni a achosodd yr enfys, nid Duw. – Gwrthrych
6. Ond mae gwyddoniaeth yn dweud wrthon ni fod hyn yn amhosibl. – Gwrthrych

## Cwestiynau enghreifftiol

### Cwestiynau enghreifftiol AA1, tudalen 59

1 Amlinellwch y gwahanol fathau o brofiadau crefyddol.

**Gweledigaeth:**

- Efallai bydd y person sy'n ei derbyn yn credu iddo weld neu glywed rhywun neu rywbeth nad oes neb arall yn gallu ei weld neu ei glywed. Mae hynny'n rhoi mewnwelediad iddo i ryw fath arall o wirionedd neu realiti.
  - Gweledigaethau synhwyraidd – Lle mae rhywbeth ymddangosiadol allanol yn digwydd.
  - Gweledigaethau deallusol – Y meddwl yn hytrach na'r llygad sy'n eu gweld nhw.
  - Gweledigaethau mewn breuddwydion – Maen nhw'n digwydd wrth gysgu neu mewn cyflwr o fyfyrdod.

**Tröedigaeth:**

- Lle mae person yn newid o un safbwynt i un arall. Fel arfer mae'n newid bywyd person, er nad yw'n barhaol o reidrwydd. Gall tröedigaeth fod:
  - o anghrediniaeth i grediniaeth
  - o un grefydd i un arall
  - yn cryfhau ffydd.
- Mae William James yn nodi bod tri cham i dröedigaeth 'enaid clwyfus':
  1. Hunan wedi'i rannu gydag iselder a gorbryder yn nodweddion arno.
  2. Dyhead am newid.
  3. Ildio'r hunan, dod o hyd i eglurder a bodlonrwydd.

**Profiad cyfriniol:**

- Mae Ed Miller yn crynhoi'r nodweddion fel hyn:
  1. Trosgynnol – Uwchben y byd materol a'r tu hwnt iddo.
  2. Anhraethol – Amhosibl ei egluro mewn iaith gyffredin.
  3. Noëtig – Yn rhoi gwybodaeth sy'n amhosibl ei chael o ffynhonnell arall.

4 Ecstatig – Yn dod â chyflwr emosiynol o berlewyg neu ewfforia.
5 Unol – Ymdeimlad o undod â'r dwyfol.

- Mae'n ymwneud â phrofiad afresymegol o rywbeth y tu hwnt i'r byd empirig. Mae'n cynnwys cael gwared dros dro ar yr ymdeimlad o'r hunan neu'r ego fel nad yw'r person yn teimlo bod unrhyw beth yn dod rhyngddo ef a'r dwyfol.

**Gweddïo:**

- Mae'n ymwneud â chyfathrebu â'r dwyfol, dyna pam mai profiad crefyddol yw gweddïo.
  - Diolchgarwch
  - Addoli
  - Erfyn
  - Edifarhau
- Math arwyddocaol o weddïo sy'n haeddu cael ei astudio fel profiad crefyddol yw gweddïo myfyriol yr oedd Santes Teresa o Avila yn ei hyrwyddo. Dangosodd Santes Teresa effaith gweddïo yn yr hyn a gyflwynodd fel Cydweddiad yr Ardd:
  - Cymharodd Teresa yr enaid â gardd y mae'n bosibl ei dyfrhau mewn pedair ffordd. Mae'r ardd, ar ôl cael ei dyfrhau, yn dod yn ffrwythlon ac yn llawn bywyd. Dyma sut mae gweddïo yn effeithio ar yr enaid.
  - Mae dyfrhau'r ardd â bwced sy'n cael ei ostwng i ffynnon yn waith caled, yn debyg iawn i gamau cyntaf gweddïo myfyriol.
  - Erbyn diwedd y broses, fel y glaw, does dim angen ymdrech i ddyfrhau'r ardd. Ar ôl sefydlu gweddïo, mae Duw yn cymryd yr awenau ac mae undod ag Ef yn gyflawn.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

2 Cymharwch brofiad nwminaidd Otto â'r nodweddion ar brofiad cyfriniol gan James.

| James | Otto |
|---|---|
| Astudiodd brofiad cyfriniol fel ffenomen seicolegol. | Gwrthododd ymagwedd resymegol bur at brofiad crefyddol. |
| Pragmataidd yn ei ymagwedd at brofiadau cyfriniol. | Gwrthododd y dulliau blaenorol o grynhoi iaith a chynhyrchu ei esboniad ei hun – y nwminaidd – i ddisgrifio profiad cyfriniol. |
| Wnaeth e ddim sylw am ei safbwynt ei hun ar wirionedd gwrthrychol profiadau fel hyn. | Roedd yn ymddiddori mewn crefydd gymharol, ond roedd yn gwerthfawrogi Cristnogaeth fel y ffurf fwyaf soffistigedig ar grefydd. |
| Roedd yn ymddiddori fwyaf yn yr undod â Duw a cholli'r ego yn ôl y disgrifiad mewn cyfriniaeth. | Roedd yn ymddiddori mewn ymwybyddiaeth creaduriaid a'r ymwybyddiaeth o'n gostyngeiddrwydd ni ym mhresenoldeb y dwyfol. |
| Disgrifiodd nodweddion profiadau cyfriniol:<br>• Goddefol – Mae'r cyfriniwr yn teimlo bod grym yn cydio ynddo, teimlad cadarnhaol lle mae'n ildio grym i'r dwyfol.<br>• Anhraethol – Mae'n anodd i'r cyfriniwr fynegi'r profiad mewn iaith gyffredin; yn | Roedd yn cyfeirio at brofiad cyfriniol fel:<br>• *Mysterium* – Dirgelwch, 'rhywbeth hollol wahanol'. Rhywbeth y tu hwnt i ffiniau dynol.<br>• *Tremendum* – Parchedig ofn, braw neu ddychryn o fod ym mhresenoldeb Duw. |

| James | Otto |
|---|---|
| hytrach, mae'n troi at iaith grefyddol arbenigol sy'n ymddangos yn ddiystyr i'r rhai sydd heb gael profiad tebyg.<br>• Noëtig – Mae mewnwelediadau fel hyn yn llawn awdurdod ond rhyw fath o wybodaeth neu ganfyddiad sythweledol ydyn nhw, sy'n rhoi sicrwydd yn hytrach na chred i'r derbynnydd.<br>• Byrhoedlog – Mae'r profiadau dros dro, eto i gyd mae eu heffeithiau'n barhaol. | • *Fascinans* – Tynfa neu atyniad profiad. Methu llusgo eich hun i ffwrdd. |
| Mae graddau o brofiad cyfriniol, yn amrywio o déjà vu i ymwybyddiaeth gyfriniol lawn. | Mae gennyn ni ragduedd at gyfriniaeth – gall pawb gael profiad ohoni, ond dydy pawb ddim yn gallu ymateb iddi. |

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

3 Archwiliwch heriau Caroline Franks Davis i brofiad crefyddol.

- Yn *The Evidential Force of Religious Experience*, mae Franks Davies yn nodi tri math o her i brofiad crefyddol:

**Heriau'n ymwneud â disgrifiadau:**

- Mae'r rhain yn holi pa mor ddibynadwy yw'r cofnod o brofiad crefyddol.
- Maen nhw'n herio sut mae'r digwyddiad yn cael ei esbonio.
- Efallai byddan nhw'n awgrymu bod y disgrifiad yn anghyson neu heb gydlyniad yn rhesymegol. Er enghraifft, petawn i'n dweud fy mod i wedi gweld cylch sgwâr, byddai hi'n bosibl fy herio am wneud honiad afresymegol.
- Efallai y byddai her sy'n gysylltiedig â disgrifiad yn amlygu bod yr honiad yn gwrthdaro â'n gwybodaeth o'r byd. Er enghraifft, petawn i'n honni fy mod i newydd weld dodo, byddai hyn yn gwrthdaro â'r hyn rwy'n ei wybod (bod y dodo'n ddiflanedig).
- Hefyd gallen nhw honni bod gwrthdaro rhwng fy honiad a'm gweithredoedd. Petawn i'n honni bod cobra yn fy ystafell wely, ond nad oeddwn i'n gwneud dim byd i gael gwared arno neu fy mod i'n ymddwyn yn ddigyffro, efallai na fyddai rhywun yn fy nghredu.
- Efallai fod y goddrych wedi defnyddio'r geiriau anghywir oherwydd nad yw wedi'u deall nhw yn iawn. Felly, petawn i'n dweud bod gen i gur pen/pen tost ond fy mod i'n pwyntio at fy stumog, yna byddai hyn yn dystiolaeth bod y disgrifiad yn wallus.
- Efallai byddai termau amwys yn cael eu defnyddio, er enghraifft, mae'r gair 'cwffio' yn aneglur i rywun o dde Cymru.
- Efallai fod rhywun yn gwneud honiadau y gallai fod wedi gwybod amdanyn nhw cyn y profiad, gan wneud i mi amau'r disgrifiadau. Petai rhywun yn rhoi disgrifiad o Grist a oedd yn gyson â'r ysgrythur, efallai y gallaf honni ei fod yn gwybod am hyn cyn y profiad.

**Hawliadau'n ymwneud â'r goddrych:**

- Mae'r rhain yn gofyn pa mor ddibynadwy yw'r person sy'n gwneud yr honiadau.

- Gallen nhw ddweud bod canfyddiad y person yn annibynadwy, er enghraifft gallai fod yn lliwddall.
- Efallai na fydd y goddrych wedi cael yr hyfforddiant cywir i adnabod yr hyn a welodd, er enghraifft, petawn i heb glywed cerddoriaeth erioed, efallai na fyddwn i'n gallu honni bod rhywbeth allan o diwn.
- Gallai adroddiadau gwahanol wrthdaro â'i gilydd, er enghraifft, honni i ni gael ein gwthio, i ni neidio, neu gwympo.
- Gallai fod rhywbeth am y goddrych sy'n ei atal rhag canfod yn gywir, er enghraifft gweld rhithiau wrth fod ar gyffuriau.

**Heriau sy'n ymwneud â'r gwrthrych:**

- Mae'r rhain yn cwestiynu pa mor ddibynadwy yw'r digwyddiad.
- Maen nhw'n gofyn y cwestiwn 'Beth ddigwyddodd mewn gwirionedd?'
- Gallai her sy'n ymwneud â'r gwrthrych ddadlau nad oedd y gwrthrych yn bresennol yn ôl y disgrifiad. Felly, petai rhywun yn honni iddo weld Bwystfil Llyn Tegid, gallen ni ddadlau nad oedd yno o gwbl.
- Neu, efallai byddai'r her yn dweud bod y gwrthrych yn bresennol ond heb gysylltiad achosol. Felly, petawn i'n honni bod angel yn ymddangos bob nos, gallai rhywun nodi bod patrwm y cysgodion sy'n cael ei greu yn yr ystafell yn gwneud iddo edrych fel angel, ond nad yw hynny'n wir.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

4 Esboniwch natur profiad crefyddol.

- Mae profiadau crefyddol yn wahanol i brofiadau cyffredin oherwydd:
  - nad ydyn nhw'n gyffredinol i bob bod dynol
  - nad yw hi'n bosibl eu gwirio
  - nad profiadau o ddigwyddiadau neu eitemau empirig ydyn nhw
  - eu bod nhw'n oddrychol
  - eu bod nhw'n ddeongliadol
  - eu bod nhw'n rhoi gwybodaeth am realiti arall neu am y dwyfol
  - eu bod nhw'n newid bywyd y person
  - eu bod nhw'n anodd eu disgrifio mewn iaith gyffredin.
- Mae mathau o brofiadau crefyddol yn cynnwys gweledigaethau, tröedigaeth, profiad cyfriniol a gweddïo.

**Gweledigaeth:**

- Efallai bydd y person sy'n ei derbyn yn credu iddo weld neu glywed rhywun neu rywbeth nad oes neb arall yn gallu ei weld neu ei glywed. Mae hynny'n rhoi mewnwelediad iddo i ryw fath arall o wirionedd neu realiti.
- Gweledigaethau synhwyraidd: Lle mae rhywbeth ymddangosiadol allanol yn digwydd, e.e. Santes Bernadette yn gweld Mair yn Lourdes.
- Gweledigaethau deallusol: Wedi'u gweld â'r meddwl yn hytrach nag â'r llygad, e.e. profodd Sant Ignatius o Loyola fod ei lygaid yn cael eu hagor i ddeall heb iddo weld unrhyw weledigaeth gorfforol.

- Gweledigaethau mewn breuddwydion: Yn digwydd wrth gysgu neu mewn cyflwr o fyfyrdod, e.e. gweledigaeth Jacob o ysgol i'r nefoedd (Genesis 28:10–22).
- Fel yn yr enghreifftiau uchod, mae gweledigaethau yn rhoi delweddau i'r person sy'n derbyn ac mae'r rheini'n cynnig mewnwelediad i wirionedd neu ddelfryd ysbrydol.

**Tröedigaeth:**

- Lle mae person yn newid o un safbwynt i un arall.
- Fel arfer mae'n newid bywyd person, er nad yw'n barhaol o reidrwydd.
- Gall tröedigaeth fod:
  - o anghrediniaeth i grediniaeth
  - o un grefydd i un arall
  - yn cryfhau ffydd.
- Mae William James yn nodi bod tri cham i dröedigaeth 'enaid clwyfus':
  1. Hunan wedi'i rannu gydag iselder a gorbryder yn nodweddion arno.
  2. Dyhead am newid.
  3. Ildio'r hunan, dod o hyd i eglurder a bodlonrwydd.
- Mae'r math hwn o brofiad crefyddol yn rhoi sicrwydd ac eglurder i'r person sy'n derbyn nad oedd ganddo o'r blaen.

**Profiad cyfriniol:**

- Mae Ed Miller yn crynhoi'r nodweddion fel hyn:
  1. Trosgynnol – Uwchben y byd materol a'r tu hwnt iddo.
  2. Anhraethol – Amhosibl ei egluro mewn iaith gyffredin.
  3. Noëtig – Yn rhoi gwybodaeth sy'n amhosibl ei chael o ffynhonnell arall.
  4. Ecstatig – Yn dod â chyflwr emosiynol o berlewyg neu ewfforia.
  5. Unol – Ymdeimlad o undod â'r dwyfol.
- Mae'n ymwneud â phrofiad afresymegol o rywbeth y tu hwnt i'r byd empirig. Mae'n cynnwys cael gwared dros dro ar yr ymdeimlad o'r hunan neu'r ego fel nad yw'r person yn teimlo bod unrhyw beth yn dod rhyngddo ef a'r dwyfol.

**Gweddïo:**

- Mae'n ymwneud â chyfathrebu â'r dwyfol, dyna pam mai profiad crefyddol yw gweddïo:
  - Diolchgarwch
  - Addoli
  - Erfyn
  - Edifarhau
- Math arwyddocaol o weddïo sy'n haeddu cael ei astudio fel profiad crefyddol yw gweddïo myfyriol yr oedd Santes Teresa o Avila yn ei hyrwyddo. Dangosodd Santes Teresa effaith gweddïo wrth gyflwyno Cydweddiad yr Ardd:
  - Cymharodd Teresa yr enaid â gardd y mae'n bosibl ei dyfrhau mewn pedair ffordd. Mae'r ardd, ar ôl cael ei dyfrhau, yn dod yn ffrwythlon ac yn llawn bywyd. Dyma sut mae gweddïo yn effeithio ar yr enaid.
  - Mae dyfrhau'r ardd â bwced sy'n cael ei ostwng i ffynnon yn waith caled, yn debyg iawn i gamau cyntaf gweddïo myfyriol.

- Erbyn diwedd y broses, fel y glaw, does dim angen ymdrech i ddyfrhau'r ardd. Ar ôl sefydlu gweddïo, mae Duw yn cymryd yr awenau ac mae undod ag Ef yn gyflawn.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

## Cwestiynau enghreifftiol AA2, tudalen 59

1 Gwerthuswch y farn bod profiadau unigolyn yn ddilys hyd yn oed os nad yw'n bosibl eu gwirio nhw.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Dilys = Â sail gadarn mewn rhesymeg neu ffeithiau, rhesymol neu argyhoeddiadol.

**Paragraff Un:**

- Mae pob math o brofiad crefyddol yn newid bywyd y person unigol sy'n ei gael, os yw'n brofiad unigol neu dorfol, felly dylai pob un gael ei ystyried yn ddilys.
- Fodd bynnag, gallai rhywun ddadlau mai tröedigaeth fel profiad unigol sydd fwyaf dilys oherwydd gallwn ni weld y dystiolaeth am hynny yn y newid ym mywyd yr unigolyn.
- Eto i gyd, mae profiadau crefyddol mor amrywiol ac annelwig fel nad oes modd ymddiried ynddyn nhw i gyfleu ffeithiau.

**Paragraff Dau:**

- Yn aml, mae profiadau cyfriniol gan unigolion yn cyfleu syniadau sy'n hollol groes i'w gilydd. Mae'n amhosibl ystyried bod unrhyw syniadau sy'n baradocsaidd fel hyn yn ddilys.
- Fodd bynnag, disgrifir profiadau unigolyn gan ddefnyddio iaith emosiynol, sy'n dangos ymgysylltu unigolyn â'r dwyfol. Mae'n amhosibl asesu hyn yn yr un ffordd â gosodiadau rhesymegol.
- Eto i gyd, mae cyfriniaeth yn brofiad uniongyrchol o'r dwyfol ac felly mae'n rhesymol ac yn argyhoeddi.

**Paragraff Tri:**

- Mae'n amhosibl gwirio neu anwirio profiadau unigolyn ac felly mae'n amhosibl eu hasesu nhw am eu dilysrwydd. Felly maen nhw'n ddiystyr a heb fod yn ddilys.
- Mae mwy o siawns o ddilysu profiadau torfol oherwydd bod tystion eraill yn gallu cadarnhau eu bod nhw'n wir, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n ailadroddadwy.
- Eto, does dim byd yn gwneud i un profiad fod yn well nag un arall. Mae'n amhosibl ymddiried yn y naill brofiad na'r llall oherwydd nad yw gwyddoniaeth neu reswm byth yn gallu eu cefnogi iddyn nhw.

**Casgliad:**

- Dywedir bod pob profiad crefyddol yn cyfleu rhywbeth y tu hwnt i'r byd materol, boed yn unigol neu'n dorfol. Mae'n amhosibl dweud dim byd ystyrlon mewn iaith fydol a fyddai byth yn gallu gwneud cyfiawnder â'r fath bwnc. Felly, bydd profiadau unigol yn

ymddangos yn annilys bob amser, hyd yn oed os ydyn nhw'n adlewyrchu rhyw realiti arall.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth ynghylch y cwestiwn.**

2 'Mae diffiniad Otto o nwminaidd yn annigonol.' Gwerthuswch y safbwynt hwn.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Digonol = Boddhaol neu dderbyniol o ran ansawdd.

**Paragraff Un:**

- Mae Otto wedi ysbrydoli ysgrifenwyr fel C. S. Lewis i ddefnyddio ei ddiffiniad yn eu llyfrau. Felly, i'r rhai sydd wedi cael profiadau fel hyn, mae ei ddiffiniad yn ymddangos yn ddigonol.
- Fodd bynnag, y cyfan y mae Otto yn ei wneud yw ail-lunio canfyddiad James heb ychwanegu dim byd newydd at y dadansoddiad. Mae hyn yn awgrymu bod ei ddiffiniad yn ddigonol dim ond os yw diffiniad James yn ddigonol.
- Eto i gyd, mae cysyniad y nwminaidd yn mynegi perthynas amwys y ddynoliaeth â'r dwyfol mewn ffordd na wnaeth James ei harchwilio'n llawn gyda'i ddull empirig.

**Paragraff Dau:**

- Mae diffiniad Otto yn mynd i'r afael â'r ymdeimlad sylfaenol o gael profiad o'r dwyfol. Mae'n canolbwyntio mwy ar y teimladau yn hytrach nag ar y rheswm. Mae hyn yn fwy na digonol gan ei fod yn crynhoi ymdeimlad o'r hyn yw cyfriniaeth go iawn.
- Fodd bynnag, mae Otto yn dehongli profiad crefyddol yn ôl ei fframwaith blaenorol o gred. Mae hyn yn golygu bod popeth y mae'n ei ddweud am gyfriniaeth yn unol â diwinyddiaeth Gristnogol, yn hytrach na'i fod yn darganfod ystod y profiad cyfriniol. Felly, mae'n annigonol.
- Yn ogystal, dydy disgrifiad Otto o brofiad crediniwr ddim yn cyfrif am ffynhonnell wrthrychol i gyfriniaeth. Ar y person yn unig mae'n canolbwyntio, yn hytrach nag ar y dwyfol ac felly mae'n annigonol.

**Paragraff Tri:**

- Mae Otto yn rhy amwys i'r rhai sydd heb gael profiad uniongyrchol ei ddeall. Yn *The Idea of the Holy*, mae Otto yn dweud, os nad yw'r darllenydd wedi cael profiad crefyddol erioed, y dylai roi'r gorau i ddarllen gan y bydd ei sylwadau'n ddiystyr!
- Fodd bynnag, mae Otto yn gyson gyda phrofiadau beiblaidd o Dduw sy'n llawn dychryn yn ogystal ag ecstasi. Mae hyn yn awgrymu, i'r Cristion, y dylai ei ddiffiniadau fod yn ddigonol ac yn ddibynadwy.
- Yn wir, mae Otto yn fwy effeithiol na James wrth ddangos natur unigryw y ffynhonnell. Mae hyn oherwydd bod ffocws James ar fethodoleg seciwlar, resymegol yn cael gwared ar wir ysbryd beth yw profiad crefyddol.

**Casgliad:**

- Mae Otto yn ystyried y gallwn ni uniaethu mwy â theimladau'r derbynnydd am ddigwyddiad fel hwn nag â rheswm neu ddiwinyddiaeth naturiol. Mae ei fethodoleg yn debygol o fod yn fwy deniadol i'r crediniwr nag i'r atheist neu i'r person seciwlar. Felly efallai bydd barn darllenydd ynghylch a yw ei ddiffiniad yn ddigonol yn dibynnu ar a yw'r darllenydd yn cydymdeimlo â phrofiadau fel hyn yn y lle cyntaf.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth ynghylch y cwestiwn.**

# Thema 1 U2 Heriau i gred grefyddol (rhan 2)

## 1A U2 Cred grefyddol fel cynnyrch y meddwl dynol: Freud

### Profi eich hun, tudalen 60

1 Beth yw ystyr yr id?

Ysfeydd a dyheadau anymwybodol ein seice sy'n gynhenid ac yn naturiol ond heb fod yn ddymunol bob amser.

2 Pam roedd Freud yn meddwl mai niwrosis yw crefydd?

Mae gan y ddau nodweddion tebyg fel cynnyrch y meddwl dynol. Maen nhw:

- yn ddefodol yn ailadroddus ac yn symbolaidd
- yn rhoi sicrwydd/yn tawelu
- yn ysgogi euogrwydd a gorbryder pan fyddan nhw'n cael eu colli.

3 Beth yw rôl y llu gwreiddiol o ran y ffordd y mae Freud yn deall crefydd?

Y llu gwreiddiol oedd y grŵp gwreiddiol o hynafiaid dynol a brofodd drawma lladd y tad i gael mynediad at y benywod. Adwthiwyd y trawma hwn ac felly aeth yn afiechyd meddwl a gafodd ei drosglwyddo i genedlaethau dilynol.

### Profi eich hun, tudalen 63

1 Pam roedd Hans yn teimlo'n euog, yn ôl Freud?

Daeth Freud i'r casgliad mai teimladau o euogrwydd Hans am chwenychu ei fam wnaeth iddo fod ag ofn y ceffyl. Roedd y ceffyl yn symbol o'i ofn y byddai ei dad yn ei gosbi drwy ei ysbaddu.

2 Beth roedd breuddwydion/ffobiâu Hans a Pankejeff yn ei ddangos i Freud?

Daeth Freud i'r casgliad bod y ffordd roedd ofn y ceffyl ar Hans yn symbol o'i deimladau o euogrwydd a'i ofn y byddai ei dad yn ei gosbi drwy ei ysbaddu am chwenychu ei fam. Roedd y ceffyl yn cynrychioli'r tad gyda'i fwstas, ei sbectol a'i bidyn mwy.

Daeth Freud i'r casgliad bod Pankejeff wedi cysylltu ei rieni ag anifeiliaid yn cael rhyw. Roedd yn chwenychu cael ei gyplu gan ei dad ond roedd yn ofni beth fyddai'n digwydd petai'n gwneud hynny. Canlyniad y trawma wedi'i adwthio oedd bod arno ofn bleiddiaid a Duw.

3 Sut mae dehongliad Lamarck o esblygiad yn bwysig?

Defnyddiodd Freud ddamcaniaeth esblygiad i gefnogi ei ddamcaniaethau cymhleth Oedipws. Seiliodd ei ddamcaniaeth y llu gwreiddiol ar honno. Defnyddiodd ddealltwriaeth Jean-Baptiste Lamarck o esblygiad i gynnwys etifeddu nodweddion caffael, nid rhai genetig yn unig.

### Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 64

A yw cred grefyddol yn gallu cael ei lleihau i afiechyd meddwl mewn gwirionedd? Ystyriwch y canlynol:

1 Pa nodweddion tebyg a welwch chi rhwng defodau crefyddol a defodau niwrotig?

- Mae'r ddwy ddefod yn cynnwys ymolchi defodol a defodau glanweithdra.
- Mae'r ddwy'n ailadroddus ac mae'n rhaid i ddefodau gael eu gwneud yn gywir, e.e. y Cymun Sanctaidd, yr Ewcharist ac anhwylder gorfodaeth obsesiynol (*OCD*).
- Mae'r ddwy yn cynnwys addewid o ryddhau o ofnau os yw'r defodau'n cael eu gwneud yn gywir.
- Mae cymhleth Oedipws a'r Ewcharist yn cynnwys cyfeiriad at ladd y tad.
- Mae'r ddwy ddefod yn cynnwys ymdeimlad o euogrwydd.

2 A ydych chi'n cofio twyllresymeg cyfansoddiad? Sut gallai hwnnw fod yn berthnasol yma?

Yn ôl twyllresymeg cyfansoddiad, mae'r hyn sy'n wir am y rhannau'n wir am y cyfan, ond mae hyn yn anghywir oherwydd does dim rhaid iddi fod felly. Byddai'n bosibl dweud bod Freud wedi cyflawni twyllresymeg cyfansoddiad drwy honni, oherwydd bod rhai o'i gleifion yn dioddef o gymhleth Oedipws, fod pob person yn dioddef o gymhleth Oedipws.

3 A allwch chi feddwl am unrhyw reswm y gallen ni fod â rhagduedd i wrthod Freud heb ystyried ei syniadau'n llawn?

Mae'r syniad bod plant yn chwenychu eu rhieni'n rhywiol yn annifyr ac yn rhywbeth rydyn ni eisiau ei wadu. (Efallai fod hyn oherwydd bod ein huwch-ego wedi'i hyfforddi i wrthod syniadau fel hyn!) Efallai y byddwn ni eisiau diystyru'r ddamcaniaeth gyfan oherwydd ei bod hi'n seiliedig ar y syniad hwn sy'n ddi-chwaeth ac yn gymdeithasol annerbyniol i ni.

## 1B U2 Cred grefyddol fel cynnyrch y meddwl dynol: Jung

### Profi eich hun, tudalen 66

1 Esboniwch dair rhan y meddwl/seice dynol.

- Ymwybod – Y rhan o'r meddwl rydyn ni'n ymwybodol ohoni ac rydyn ni'n ei haddasu wrth ymateb i'r byd y tu allan (yr ego yw'r enw arall).
- Anymwybod personol – Mae'n unigryw i'r unigolyn ac yn cael ei gaffael drwy gydol oes rhywun. Dyma lle mae atgofion coll, profiadau wedi'u hadwthio a dyheadau yn byw.
- Yr anymwybod cyffredinol – Rhan hynaf y meddwl, treftadaeth hynafiadol. Mae'n amhersonol, yn gyffredinol ac yn unfath ym mhob bod dynol. Mae'n cynhyrchu delweddau cyntefig a dyma ffynhonnell pob crefydd.

2 Rhowch dair enghraifft o ddelweddau archdeipaidd ac esboniwch eu hystyr.

**Atebion enghreifftiol:**

- Mae persona yn cynrychioli hunaniaeth gymdeithasol ffug. Yn aml cynrychiolir persona gan fasg, arfwisg, bod yn noeth yn gyhoeddus neu wisgo'r dillad anghywir.
- Mae cysgod yn cynrychioli natur afresymol neu anifeilaidd. Gallai gael ei gynrychioli gan Mr Hyde, Satan, Efnisien neu'r Athro Quirrell sy'n cuddio Voldemort o dan ei dwrban.
- Mae anima yn cynrychioli agweddau benywaidd ar wryw. Gallai gael ei gynrychioli gan Efa, y Forwyn Fair, llong, ogof neu dduwies.

3 Pam gallwn ni alw Duw yn archdeip?

- Mae ein delweddau o Dduw wedi'u cynhyrchu gan yr anymwybod cyffredinol.
- Mae'r duedd i wneud hyn yn gynhenid.
- Mae'r union ddelweddau sydd gennym ni o Dduw yn amrywio, yn ôl ein profiadau yn y byd.
- Mae symbolaeth yn mynegi natur Duw fel archdeip.
- Felly mae iaith symbolaidd yn angenrheidiol er mwyn siarad am Dduw ac am grefydd.

## Profi eich hun, tudalen 67

1 Rhowch dri darn o dystiolaeth y gallai Jung eu cyflwyno i gefnogi ei syniad bod ffydd grefyddol yn lluniad cadarnhaol gan y meddwl dynol.

- Gwelodd Jung yn uniongyrchol y problemau yr oedd y rhai a oedd â safbwynt materol yn eu dioddef a'u hanhawster gyda'r dadrith a ddaeth wedyn.
- Mae cydaddoli'n rheolaidd yn helpu i gynnig ystyr i fywyd gan ei fod yn cynnig rhyddid o ofn marwolaeth.
- Mae cydlyniad cymdeithasol i'w gael mewn cymdeithasau sy'n cydaddoli'n rheolaidd.

## Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 68

A oes rheswm mewn gwirionedd i amau mai archdeip arall yn unig yw Duw? Ystyriwch y canlynol:

1 Mae credinwyr crefyddol yn nodi profiadau fel gwyrthiau sy'n awgrymu mai bod allanol yw Duw.

Gallai hyn fod yn dystiolaeth o Dduw sy'n bodoli'n allanol, neu gallai fod yn ymgysylltu â'r archdeipiau; mae Jung yn awgrymu bod hyn yn angenrheidiol ar gyfer cyfanrwydd. Yn aml, prin yw'r dystiolaeth empirig sydd gan wyrthiau i'w cefnogi nhw, felly efallai eu bod nhw eu hunain yn archdeipaidd o ran tarddiad.

2 Mae credinwyr eraill yn honni iddyn nhw gael profiadau crefyddol lle maen nhw'n cael gwybodaeth neu sicrwydd.

Eto, gallai hyn fod yn dystiolaeth o Dduw sy'n bodoli'n allanol, neu gallai fod yn brofiad archdeipaidd sy'n ddefnyddiol ar gyfer ymunigoli. Mae'n bwysig bod pobl yn credu ynddyn nhw er eu llesiant meddyliol eu hunain.

3 A yw hi'n amhosibl i Dduw fodoli'n wrthrychol os yw Jung yn gywir?

Dydy syniadau Jung ddim yn ei gwneud hi'n amhosibl i Dduw fodoli. Efallai fod Jung yn gywir *ac* efallai fod Duw yn bodoli. Fodd bynnag, mae syniadau Jung yn gwneud i Dduw fod yn llai tebygol fel bod sy'n bodoli'n wrthrychol. Efallai fod hwn yn gwestiwn na ddylen ni ei archwilio'n rhy fanwl os ydyn ni eisiau ymunigoli'n llwyddiannus a byw bywydau iach!

# 1C U2 Materion yn ymwneud â gwrthod crefydd: Atheïstiaeth (Anffyddiaeth)

## Profi eich hun, tudalen 70

1 Pam mae rhai ysgrifenwyr yn cyflwyno Socrates fel atheist?

Mae Socrates yn herio awdurdod a chysondeb priodoleddau'r duwiau Groegaidd.

2 Beth yw ystyr *atheos*?

(Groeg) Heb Dduw.

3 Rhowch ddau reswm pam mae atheistiaeth (anffyddiaeth) yn wahanol i agnosticiaeth.

- Mae atheïstiaid yn gwrthod cred mewn unrhyw Dduw(iau), ond dydy agnostigiaid ddim yn gwybod a oes Duw(iau).
- Mae atheist yn gwrthod pob baich prawf gan nad yw'n gwneud honiadau cadarnhaol, ond efallai bydd agnostig yn honni ei bod hi'n amhosibl gwybod a yw Duw yn bodoli (agnosticiaeth gref).

## Profi eich hun, tudalen 71

1 Beth sy'n nodedig am Atheïstiaeth Newydd?

Mae Atheïstiaid Newydd yn wahanol oherwydd nid dim ond pobl sydd heb gred yn Nuw neu fathau penodol o dduwiau neu'n gwrthod cred yn Nuw neu fathau penodol o dduwiau ydyn nhw, maen nhw'n mynd ati'n frwd i wrthwynebu unrhyw gred yn Nuw.

2 Rhowch ddau reswm pam mae'n bosibl cyhuddo crefydd o fod yn ddifeddwl.

- Mae'r syniad bod ffydd ddall yn rhinweddol yn annog pobl i dderbyn gosodiadau heb feddwl na rheswm.
- Mae crefydd yn dysgu pobl i fodloni ar beidio â deall y byd.

3 Rhowch ddwy enghraifft o sut mae crefydd yn atal neu'n arafu cynnydd gwyddonol.

- Mae crefydd mewn rhai rhannau o America yn rheoli sut addysgir gwybodaeth wyddonol mewn ysgolion ar faterion fel esblygiad a newid hinsawdd.
- Mae cred grefyddol yn rheoli triniaeth feddygol i'r rhai sydd â salwch angheuol a menywod beichiog.

## Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 72

A yw Atheïstiaeth Newydd yn cynnig dadl foddhaol yn erbyn cred grefyddol? Ystyriwch y canlynol:

1 A yw'r Atheïstiaid Newydd yn defnyddio unrhyw ddulliau afresymegol yn eu dadleuon?

Nac ydyn – Ar ôl cymryd safbwynt gwyddonol, maen nhw'n gyson wrth ei gymhwyso'n ddiduedd i bob agwedd ar fywyd. Dyna yw pwynt eu dadl.

Ydyn – Maen nhw'n tueddu at ymagwedd *ad hominem* (ymosod ar y person yn hytrach nag ar y ddadl), sy'n anghyfreithlon. Dydy hi ddim yn dilyn, dim ond oherwydd eu bod nhw'n darganfod unigolyn nad yw'n apelio atyn nhw, fod eu hathroniaeth i gyd yn anghywir. Dydy dweud eu bod nhw'n diystyru pob person crefyddol fel rhywun plentynnaidd a difeddwl ddim yn dadansoddi eu sail resymegol yn llwyddiannus.

2 A yw hi'n deg dweud bod pob person crefyddol yn dangos arwyddion o afiechyd meddwl?

Ydy – Os ydyn ni'n gweld crefydd ei hun fel afiechyd meddwl yn yr un ffordd ag y gwnaeth Freud. Yn yr achos yma, drwy ddilyn y diffiniad hwn, byddai afiechyd meddwl ar bob person crefyddol.

Nac ydy – Yn sicr mae llawer o enghreifftiau o bobl grefyddol sydd ag afiechyd meddwl, ond mae hyn yn wir am bobl o bob math. Hefyd mae enghreifftiau niferus o bobl grefyddol sydd fel arall yn dangos eu bod nhw'n gallu bod yn aelodau sy'n gweithredu'n llawn yn y gymdeithas, a dadansoddi data yn synhwyrol ac yn rhesymegol.

3 A yw bod yn grefyddol ac yn wyddonydd yn rhesymegol?

Nac ydy – Fel byddai Dawkins yn dadlau, mae'n amhosibl, a byddai unrhyw un sy'n honni fel arall yn dweud celwydd am un ohonyn nhw. Mae'n rhoi enghreifftiau Stephen Hawking ac Albert Einstein, sy'n atheïstiaid 'eithafol' yn ôl Dawkins, yn defnyddio'r term Duw fel bod apelio at y gymdeithas dim ond yn golygu rhywbeth gwahanol iawn â'r term.

Ydy – Mae llawer o enghreifftiau o bobl hynod ddeallus fel Polkinghorne, Collins, McGrath ac yn y blaen, sy'n amlddisgyblaethol ac yn gallu gwneud gosodiadau gwyddonol a chrefyddol. Maen nhw'n gallu gweld bod crefydd a gwyddoniaeth yn gwneud mathau gwahanol o waith ac yn ateb mathau gwahanol o gwestiynau.

# Cwestiynau enghreifftiol

## Cwestiynau enghreifftiol AA1, tudalen 75

1 Cymharwch esboniadau Freud a Jung o gred grefyddol.

<table>
<tr><th>Freud</th><th>Jung</th></tr>
<tr><td colspan="2">Lluniad y meddwl dynol yw crefydd, yn hytrach na rhywbeth sy’n seiliedig ar realiti gwrthrychol.</td></tr>
<tr><td>Mae tair rhan i’r seice:<ul><li>Id – Dyheadau anymwybodol, sy’n gynhenid ac yn naturiol ond heb fod yn ddymunol bob amser.</li><li>Uwch-ego – Y rheolaeth anymwybodol y mae’r gymdeithas wedi’i dysgu i ni, sydd wedi dod yn reddfol.</li><li>Ego – Y rhan o’n meddwl sy’n ymwybodol ar y cyfan, sy’n ceisio bod yn gyfrwng rhwng yr id a’r uwch-ego.</li></ul></td><td>Mae tair rhan i’r seice:<ul><li>Ymwybod – Y rhan o’r meddwl rydyn ni’n ymwybodol ohoni ac rydyn ni’n ei haddasu wrth ymateb i’r byd y tu allan (enw arall yw’r ego).</li><li>Anymwybod personol – Mae’n unigryw i’r unigolyn ac yn cael ei gaffael drwy gydol oes rhywun. Dyma lle mae atgofion coll, profiadau wedi’u hadwthio a dyheadau yn byw.</li><li>Yr anymwybod cyffredinol – Rhan hynaf y meddwl, treftadaeth hynafiadol. Mae’n amhersonol, yn gyffredinol ac yn unfath ym mhob bod dynol. Mae’n cynhyrchu delweddau cyntefig a dyma ffynhonnell pob crefydd.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Cymharodd Freud grefydd â niwrosis, gan awgrymu mai cynnyrch tebyg y meddwl dynol yw’r ddau.</td><td>Nid cynnyrch afiechyd meddwl yw crefydd; yn hytrach mae’n cydbwyso’r meddwl ac mae’n allwedd i ymunigoli llwyddiannus.</td></tr>
<tr><td>Afiechyd meddwl yw niwrosis sy’n achosi symptomau o straen cronig. Fel niwrosis, mae crefydd yn ddefodol, yn ailadroddus ac yn ysgogi teimladau negyddol.</td><td>Proses yw ymunigoli pan mae person yn integreiddio ac yn cydbwyso rhannau ymwybodol ac anymwybodol ei feddwl.</td></tr>
<tr><td>Galwodd Freud grefydd yn niwrosis obsesiynol cyffredinol neu’n niwrosis cyffredinol, y mae pob bod dynol yn ei ddioddef wrth geisio adwthio’r dyheadau mwyaf sylfaenol o’r id pan mae’n gwrthdaro â rheolaeth yr uwch-ego.</td><td>Mae ein hanymwybod cyffredinol, ac felly’r rhagduedd i gynhyrchu delweddau archdeipaidd, yn gyffredinol. Mae angen i bob bod dynol ymunigoli a chydbwyso’r delweddau hyn, ac mae afiechyd meddwl yn dod pan nad yw hyn yn llwyddiannus.</td></tr>
<tr><td>Mae crefydd yn tarddu o gymhleth Oedipws cyffredinol sydd ym mhob gwryw. Mae ganddyn nhw i gyd chwant rhywiol am eu mamau a chasineb/edmygedd tuag at eu tadau sy’n deillio o’r id.</td><td>Mae crefydd yn archdeipaidd yn wreiddiol. Mae’n cynnwys delweddau y mae strwythurau ein meddwl yn eu cynhyrchu. Mae pob person yn cynhyrchu’r un mathau o ddelweddau, e.e. y persona a’r cysgod.</td></tr>
<tr><td>Er enghraifft, mae astudiaeth achos Dyn y Bleiddiaid yn dangos bod y claf, ar ôl tystio i’w rieni’n cael rhyw pan oedd yn blentyn, wedi datblygu ffobiâu a thueddiadau</td><td>Er enghraifft, cafodd Miss Miller y sgitsoffrenig freuddwyd am wyfyn a oedd yn dyheu am oleuni. Cymharodd Jung hyn â’r dyhead dynol am Dduw; ailadroddir hyn</td></tr>
</table>

| Freud | Jung |
|---|---|
| crefyddol obsesiynol o ganlyniad i adwthio ei chwantau a'i drawma. | mewn traddodiad crefyddol, sy'n cymharu Duw â goleuni. |
| Fel salwch, mae angen i grefydd gael ei thrin a'i gwella. | Mae angen croesawu crefydd ac mae angen i bobl ymgysylltu'n llawn â hi i gael llesiant meddyliol. |

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

2 Archwiliwch safbwynt Freud mai niwrosis yw crefydd.

- Heriodd Freud gred grefyddol drwy honni mai ein meddyliau ni sy'n ei chreu, yn hytrach na'i bod yn deillio o realiti y tu allan i ni. Mae hyn yn golygu nad oes angen i Dduw fodoli.
- Honnodd Freud fod tair rhan i'r seice dynol (strwythur y meddwl):
  - Id – Dyheadau anymwybodol, sy'n gynhenid ac yn naturiol ond heb fod yn ddymunol bob amser.
  - Uwch-ego – Y rheolaeth anymwybodol y mae'r gymdeithas wedi'i dysgu i ni, sydd wedi dod yn reddfol.
  - Ego – Y rhan o'n meddwl sy'n ymwybodol ar y cyfan, sy'n ceisio bod yn gyfrwng rhwng yr id a'r uwch-ego.
- Efallai bydd dyheadau'r id yn gwrthdaro â'r rheolaeth o'r uwch-ego. Mae niwrosis yn codi pan mae'r gwrthdaro hwn wedi'i adwthio. Niwrosis yw afiechyd meddwl sy'n achosi symptomau o straen cronig. Cymharodd Freud grefydd â niwrosis, gan awgrymu mai cynnyrch tebyg y meddwl dynol yw'r ddau.
- Mae crefydd, fel unrhyw niwrosis arall, yn ddefodol ac ailadroddus. Er enghraifft, mewn gwasanaeth yn yr eglwys, ailadroddir y litwrgi yn yr un ffordd ym mhob gwasanaeth. Mae gan yr Ewcharist ddefodau a geiriad penodol y mae'n rhaid eu perfformio'n gywir. Mae'r un peth yn wir am y rhai sydd ag ymddygiad gorfodaeth obsesiynol.
- I gyfranogwr crefyddol, mae perfformio'r ddefod yn gysur os perfformir hi'n gywir, ond mae'n ysgogi euogrwydd os nad yw hynny'n digwydd. Mae'n bosibl dweud yr un fath am bobl niwrotig eraill, sy'n gweld eu bod nhw'n ailadrodd ymddygiadau dro ar ôl tro os na allan nhw gael y ddefod yn gywir.
- Ym mhob achos mae'r ddefod yn symbolaidd. Yn achos crefydd, symbolaeth ysbrydol yw hi; yn achos afiechyd meddwl arall, mae'n symbol o'r frwydr seicolegol.
- Galwodd Freud grefydd yn niwrosis obsesiynol cyffredinol neu'n niwrosis cyffredinol, y mae pob bod dynol yn ei ddioddef wrth geisio adwthio'r dyheadau mwyaf sylfaenol o'r id pan maen nhw'n gwrthdaro â rheolaeth yr uwch-ego.
- I Freud, y cymhleth Oedipws hwn sydd wrth wraidd pob cred ac ymddygiad crefyddol. Yn chwedloniaeth Groeg, llofruddiodd Oedipws ei dad a phriodi ei fam ei hun yn ddiarwybod.
- Yn achos pobl yn y byd go iawn, mae bachgen sy'n bwydo ar y fron yn chwenychu ei fam ac yn genfigennus o'i dad, ond yn ei edmygu hefyd. Mae'r uwch-ego yn atal ei deimladau rhag cael eu cyflawni, felly maen nhw'n cael eu hadwthio. Mae hyn yn

achosi euogrwydd a gwrthdaro yn y meddwl anymwybodol. Os na chaiff y gwrthdaro hwn ei ddatrys, mae'n ymddangos fel niwrosis.

- Ateb anaeddfed yw crefydd y dylai bodau dynol dyfu allan ohono os ydyn nhw'n datrys y gwrthdaro ag ateb wedi'i resymu. Felly niwrosis y mae angen ei drin a'i wella yw crefydd.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

3 Esboniwch ddealltwriaeth Jung o grefydd fel rhywbeth sy'n angenrheidiol ar gyfer twf personol.

- Mae dealltwriaeth Carl Jung o gred grefyddol yn her i'w gwirionedd gwrthrychol oherwydd ei bod yn honni mai ein meddyliau ni sy'n cynhyrchu cred grefyddol, yn hytrach na'i bod hi'n deillio o realiti y tu allan i ni. Mae hyn yn golygu efallai nad oes Duw sy'n bodoli'n wrthrychol.
- Fodd bynnag, roedd Jung yn llawer mwy cadarnhaol am reolaeth a swyddogaeth crefydd na Freud. Roedd yn honni ei bod hi'n angenrheidiol ar gyfer twf personol.
- Cyflwynodd Jung yr arsylwadau canlynol yn lle casgliadau Freud:
  - Mae crefydd yn broses naturiol a buddiol.
  - Mae'n cyflawni'r swyddogaeth o greu cytgord yn y seice.
  - Byddai cael gwared ar grefydd yn achosi problemau seicolegol.
  - Delweddau o'r hunan yw delweddau crefyddol.
  - Maen nhw'n cyfoethogi bywyd dynol ac yn bwysig.
- Arsylwodd Jung fod y rhai hynny o'i gleifion a oedd dros 35 oed yn aml yn dioddef o fod wedi colli eu crefydd. Daeth Jung i'r casgliad nad oedd gan bobl fodern y cyfanrwydd y maen nhw'n chwilio amdano oherwydd nad ydyn nhw'n credu mewn mythau mwyach.
- Mae Jung yn dadlau bod cam cyntaf bywyd person yn ymwneud â dod o hyd i le yn y byd ac â chreu cyfeillgarwch, teulu a gwaith. Fodd bynnag, o ganol oed ymlaen, pan mae'r person yn wynebu llai o gyfleoedd ac iechyd sy'n dirywio, mae'n rhaid iddo ddod o hyd i bwrpas newydd mewn bywyd a dod i delerau â'i bersonoliaeth ei hun.
- Proses yw ymunigoli pan mae person yn integreiddio ac yn cydbwyso rhannau ymwybodol ac anymwybodol ei feddwl. Mae'n gwneud hyn drwy dderbyn cynnwys yr anymwybod cyffredinol i'r meddwl ymwybodol. Methu gwneud hyn sy'n achosi afiechyd meddwl.
- Nid cynnyrch afiechyd meddwl yw crefydd; yn hytrach mae'n cydbwyso'r meddwl ac mae'n allwedd i ymunigoli llwyddiannus.
- Roedd Jung yn honni bod rhan o'n meddwl o'r enw'r anymwybod cyffredinol. Dyma ran hynaf y meddwl, treftadaeth hynafiadol sy'n amhersonol, yn gyffredinol ac yn unfath ym mhob bod dynol. Mae'n cynhyrchu delweddau cyntefig a dyma ffynhonnell pob crefydd.
- Archdeipiau oedd enw Jung ar yr anymwybod cyffredinol:
  - Mae archdeipiau'n strwythurau/glasbrintiau neu'n cynhyrchu delweddau yn y meddwl.
  - Maen nhw'n cynhyrchu mathau o ddelweddau i ymateb i'n profiadau ni.
  - Maen nhw'n ein helpu ni i wneud synnwyr o'n lle ni yn y byd.

- Mae angen i ni gynhyrchu'r delweddau hyn fel y gallwn ni ymunigoli'n llwyddiannus ac felly cael cydbwysedd meddyliol. Mae Duw yn un o'r mathau hyn o ddelweddau.
- Mae'r rhai sy'n gwrthod crefydd yn llai tebygol o ymunigoli'n llwyddiannus ac yn fwy tebygol o gael profiad o niwrosis oherwydd tensiwn seicolegol. Daeth Jung i'r casgliad bod crefydd yn seicolegol werthfawr.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

4 Archwiliwch yr heriau i grefydd gan Atheïstiaeth Newydd.

- Diffinnir atheistiaeth fel:
  - absenoldeb cred mewn duwdodau (does gan y person ddim cred), neu
  - gwrthod cred mewn duwdodau (mae'r person yn gwrthod unrhyw gred), neu
  - y gred nad oes unrhyw dduwdodau (mae gan y person gred i'r gwrthwyneb).
- Mae Atheïstiaid Newydd neu gwrth-theïstiaid yn dadlau y dylid cael gwared ar grefydd o'n cymdeithas ni. Mae Atheïstiaid Newydd yn wahanol i atheistiaeth fel roedd hi yn y gorffennol. Dydy Atheïstiaid Newydd ddim heb gred yn Nuw yn unig, maen nhw'n mynd ati'n weithredol i wrthwynebu unrhyw gred yn Nuw.
- Cododd mudiad yr Atheïstiaeth Newydd yn sgil ymosodiadau terfysgol 9/11. Mae Dawkins yn honni ei fod yn gweld crefydd fel nonsens diniwed cyn 9/11, ond nawr mae'n ei gweld fel nonsens peryglus iawn. Mae'n herio'r gred yn Nuw a bywyd ar ôl marwolaeth yn enwedig, a hynny ar y sail y bydd bywyd ar y Ddaear yn cael ei drin â llai o barch os oes rhagor o fywyd ar ôl i'r un hwn orffen.
- Mae Atheïstiaid Newydd yn dadlau bod crefydd yn ddi-feddwl:
  - Mae Dawkins a Harris yn cytuno y dylai'r rhagdybiaeth am Dduw gael ei chraffu'n wyddonol fel unrhyw ragdybiaeth arall, eto i gyd dydy hynny ddim yn digwydd. Mae hi'n aml yn cael ei diogelu'n arbennig yn erbyn craffu o'r fath.
  - Term Dawkins am ddylunio deallus a chreadaeth yw 'ffugwyddoniaeth'. Mae hyn oherwydd bod mudiadau fel hyn yn honni bod yn wyddonol ond nad ydyn nhw'n gyson â'n dealltwriaeth ni o fethodoleg wyddonol ar hyn o bryd.
  - Mae'r syniad bod ffydd ddall yn rhinweddol yn annog pobl i dderbyn gosodiadau heb feddwl na rheswm ac yn mynd ati'n weithredol i annog pobl i beidio â defnyddio eu rheswm.
  - Does gan yr ysgrythur ddim data y tu allan iddi ei hun i gefnogi ei bod hi'n gywir, ac eto mae pobl grefyddol yn dibynnu arni am y gwirionedd.
  - Mae crefydd yn dysgu pobl i fodloni ar beidio â deall y byd ac ymddiried yn Nuw yn unig. Does dim tystiolaeth i brofi ei fodolaeth Ef.
  - Dadl Dawkins yw bod ffydd grefyddol yn Nuw yn rhithdyb neu'n gred anghywir barhaus yn rhywbeth, yn groes i dystiolaeth gref i'r gwrthwyneb.
- Hefyd mae Atheïstiaid Newydd yn dadlau mai bydolwg plentynnaidd yw crefydd:
  - mae Dawkins yn gweld ei bod hi'n blentynnaidd tybio bod gan rywun arall gyfrifoldeb dros roi ystyr a phwrpas i'n bywydau.
  - Mae'n gweld mai addysg a chodi ymwybyddiaeth yw un o'r prif ddulliau o wrthwynebu dogma crefyddol i helpu pobl i ddatblygu'n oedolion heb fod angen Duw.

  - Mae cred grefyddol yn lleihaol, yn lleihau'r bydysawd i rywbeth bach, cyfyngedig, yn lle'r peth eang, helaeth, rhyfeddol, fel y mae gwyddoniaeth yn ei ganfod.
  - Mae'r ymagwedd grefyddol yn troi Duw yn fod dynol mawr ac annymunol y dylen ni ei ofni yn hytrach na'i barchu.
- Mae Atheïstiaid Newydd yn dadlau bod crefydd yn rhwystro cynnydd gwyddonol:
  - mae Hitchens yn honni bod crefydd yn gweithio'n galed i wrthwynebu'r hyn y mae crefydd yn ei weld yn her i ffydd gan ymchwil gwyddonol.
  - Er enghraifft, mae crefydd mewn rhai rhannau o America yn rheoli sut addysgir gwybodaeth wyddonol mewn ysgolion ar faterion fel esblygiad a newid hinsawdd.
  - Hefyd, mae crefydd yn rheoli meddygaeth, er enghraifft atal HIV drwy atal cenhedlu, yr hyn y mae ymchwil meddygol yn gallu ei wneud a'r hyn nad yw'n gallu ei wneud, sut mae'r rhai sydd â salwch angheuol a menywod beichiog yn cael eu trin, a gwrthwynebiad iachawyr trwy ffydd i feddygaeth.
  - Mae gwrthwynebu gwyddoniaeth yn groes i reswm, eto i gyd mae crefydd yn atal gwyddoniaeth rhag symud ymlaen a gwella bywyd i bawb.
  - Mae Dawkins yn cyhuddo crefydd o danseilio gwyddoniaeth drwy addysgu crefydd mewn ysgolion. Mae'n dweud mai gwthio crefydd a chamdriniaeth grefyddol yw hyn.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

5 Esboniwch sut mae crefydd wedi ymateb i heriau Atheïstiaeth Newydd.

- Mae credinwyr crefyddol yn ymateb i heriau Atheïstiaeth Newydd mewn amrywiaeth o ffyrdd, rhai ohonyn nhw'n cydymdeimlo â safbwynt y byd modern ac eraill yn cydymdeimlo llai. Ym mhob achos, y nod yw amddiffyn y ffydd rhag yr heriau hyn yn rhesymegol, yn foesol ac yn ysbrydol.
- Mae'r Atheïstiaid Newydd yn cyflwyno'r ddadl bod gwyddoniaeth a chrefydd yn anghydnaws. Mae credinwyr crefyddol yn ymateb drwy gyflwyno credinwyr o'r gymuned wyddonol. Er enghraifft:
- John Polkinghorne, ffisegydd damcaniaethol a diwinydd:
  - Mae ganddo ymagwedd realaidd feirniadol at grefydd ac yn ystyried mai rhan yn unig o'r hyn sydd ei angen i ddeall y bydysawd yw ffiseg.
  - Mae'n honni bod tystiolaeth wyddonol dros fodolaeth Duw gan fod y bydysawd yn ddealladwy a bod deddfau natur wedi'u haddasu'n berffaith i gynhyrchu bywyd dynol deallus. Tiwnio manwl anthropig yw'r enw ar y pwynt olaf hwn.
- Alister McGrath, bioffisegydd moleciwlaidd a diwinydd, a Joanna Collicutt McGrath, seicolegydd siartredig ac offeiriad Anglicanaidd:
  - Maen nhw'n dadlau bod Dawkins yn anghywir wrth greu darlun o grefydd a gwyddoniaeth yn ymladd â'i gilydd, gyda gwyddoniaeth fel yr unig awdurdod posibl.
  - Maen nhw'n dadlau mai *magisteria* sy'n gorgyffwrdd yn rhannol (*partially overlapping magisteria – POMA*) yw crefydd a gwyddoniaeth. Ystyr hyn yw bod meysydd lle mae'r ddau awdurdod, gwyddoniaeth a chrefydd, yn gallu bod o fudd i'w gilydd.
- Mae Atheïstiaeth Newydd a damcaniaethau gwyddonol sy'n cael eu hyrwyddo gan atheïstiaid yn aml yn cael eu gweld yn fygythiad i grefydd ac awdurdod yr ysgrythur. Un ymateb posibl yw gwrthod gwyddoniaeth a'r byd seciwlar yn gyfan gwbl er mwyn dychwelyd at werthoedd sylfaenol ffydd. Er enghraifft:

- Ken Ham, cyd-sefydlydd y mudiad Answers in Genesis, amgueddfa Creation Museum a pharc thema creadyddol Ark Encounter:
  - Mae'n pwysleisio awdurdod absoliwt yr ysgrythur dros wyddoniaeth fodern, seciwlar, felly mae'r Hen Destament yn wir yn llythrennol.
  - Fel creadydd y ddaear ifanc, mae'n honni mai 6000, nid 13.7 biliwn, o flynyddoedd oed yw'r bydysawd, felly mae'n gwrthod y Glec Fawr ac esblygiad.
- Addysg grefyddol a gwyddonol:
  - Heddiw mae brwydr barhaus yn UDA er mwyn gallu addysgu Teach the Controversy, sy'n golygu y dylai amser teg a chyfartal gael ei roi mewn gwersi gwyddoniaeth i syniadau eraill heblaw am ddamcaniaeth esblygiad, fel creadaeth neu ddyluniad deallus.
  - Cynigir dyluniad deallus fel ymagwedd wyddonol amgen. Mae'n addysgu mai'r ffordd orau o egluro rhai o nodweddion y bydysawd yw drwy achos deallus, nid drwy un heb ei gyfeirio.
- Disgyblaeth grefyddol amddiffyn neu brofi gwirionedd athrawiaethau crefyddol drwy ddadl a disgwrs systematig yw apologiaeth. Mae Atheïstiaeth Newydd wedi achosi dadleuon cyhoeddus ag apolegyddion ar y radio, y teledu a'r cyfryngau cymdeithasol. Er enghraifft:
- Robert Barron, offeiriad Catholig Rufeinig ac apolegydd sydd â phresenoldeb sylweddol ar y cyfryngau cymdeithasol:
  - Atheïstiaeth ddibwys, nid crefydd, yw cyffur trwch y boblogaeth. Mae'n cuddio ein hawydd am Dduw ac yn pylu ein sensitifrwydd tuag at ein dyheadau dyfnaf.
  - Atheïstiaeth yw'r ffantasi, lle mae'n dweud 'Oni fyddai hi'n braf tasen ni'n gallu gwneud fel y mynnon ni a fyddai dim canlyniadau?'
- William Lane Craig, apolegydd Cristnogol, athronydd a diwinydd o UDA sydd wedi dadlau'n gyhoeddus â sawl un o'r 'Pedwar Marchog' (Richard Dawkins, Sam Harris, Christopher Hitchens a Daniel Dennett):
  - Mae'n honni bod rhaid i ffydd grefyddol gael ei lledaenu drwy apelio at reswm a rhesymeg neu bydd atheistiaeth yn ei threchu.
  - Heb Dduw, does dim moesoldeb a drygioni, mae'r byd yn mynd yn nonsens, does dim cosb am ddrygioni a does dim pwrpas i fywyd.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

## Cwestiynau enghreifftiol AA2, tudalen 75

1 Gwerthuswch yr honiad nad oes gan ymagwedd Jung at grefydd unrhyw sail mewn ffeithiau empirig.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Ffaith empirig = Ffaith y mae'r synhwyrau'n gallu ei chanfod ac y mae modd ei gwirio neu ei hanwirio a'i hailadrodd.

**Paragraff Un:**

- Does gan ymagwedd Jung at grefydd ddim sail mewn ffeithiau empirig oherwydd bod ei ddull dadansoddi'n cynnwys tystiolaeth o freuddwydion a phrofiadau preifat. Dydy'r rhain byth yn gallu cael eu defnyddio fel tystiolaeth gan nad oes modd eu gwirio nhw.
- Fodd bynnag, yr unig ffordd rydyn ni wedi 'gwybod' unrhyw beth erioed yw drwy brofiad personol. Pan rydyn ni'n dehongli gwybodaeth synhwyraidd, profiad preifat yw hyn ac mae'n amhosibl ei rannu'n gyhoeddus.
- Mae ymagwedd Jung yn seiliedig ar ffeithiau empirig gymaint ag unrhyw ymagwedd wyddonol arall. Mae pob ymagwedd yn oddrychol i ryw raddau, ond mae gan Jung fethodoleg sy'n ailadroddadwy ac a oedd yn llwyddiannus gyda llawer o'i gleifion.

**Paragraff Dau:**

- Does dim tystiolaeth ar gyfer cysyniad Jung o strwythurau'r meddwl, yn fwyaf arwyddocaol ar gyfer yr anymwybod cyffredinol, sy'n awgrymu nad oes gan ei ddamcaniaeth unrhyw sail mewn ffeithiau empirig.
- Fodd bynnag, mae ymchwil helaeth gan Jung ac eraill i fythau a symbolau ar draws diwylliannau yn cadarnhau bod themâu sy'n codi dro ar ôl tro.
- Mae diffyg tystiolaeth bendant yn golygu na fydd y ddamcaniaeth byth yn gallu cael ei chyffredinoli fel ceisiodd Jung ei wneud. Felly, er efallai fod ychydig o sail ffeithiol, mae'n amhosibl cymhwyso'r ddamcaniaeth i bawb.

**Paragraff Tri:**

- Tystiolaeth empirig yw'r hyn sy'n ein helpu ni i wahaniaethu rhwng ffaith a ffuglen. Yn namcaniaeth Jung, mae'n anodd iawn dweud i ba raddau mae ei archdeipiau'n ffaith neu'n ffuglen. Cynhyrchir nifer mawr o ddelweddau, ac mae hi'n bosibl eu dehongli nhw i gyd.
- Yn ogystal, byddai rhywun yn disgwyl ei bod hi'n bosibl anwirio ffeithiau empirig. Eto i gyd, dydy Jung ddim fel petai'n gadael i unrhyw dystiolaeth gyfrif yn ei erbyn gan fod pob delwedd a gynhyrchir, iddo ef, yn archdeipaidd.
- Fodd bynnag, mae disgyblaeth seicolegol dehongli a dadansoddi breuddwydion yn wyddonol. Mae methodoleg ar waith ac mae'r meddwl wedi'i leoli yn yr ymennydd corfforol, sy'n awgrymu bod yn rhaid bod ymagwedd Jung yn seiliedig ar ffeithiau empirig i ryw raddau.

**Casgliad:**

- Mae ymagwedd Jung yn rhoi esboniad empirig dros fodolaeth crefydd fel lluniad y meddwl. Er y gallai hyn apelio at atheist cydymdeimladol, dydy hi ddim yn ddamcaniaeth y mae'n bosibl ei chefnogi â thystiolaeth synhwyraidd bendant y mae modd ei hanwirio. Felly, does ganddi ddim sail mewn ffeithiau empirig.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth ynghylch y cwestiwn.**

2 'Mae cred grefyddol yn blentynnaidd.' Gwerthuswch y safbwynt hwn.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Plentynnaidd = Anaeddfed, rhywbeth nad yw'n ddisgwyliedig gan oedolyn a rhywbeth y bydd rhywun yn tyfu allan ohono wrth ddatblygu'n llawnach.

**Paragraff Un:**

- Mae Dawkins a'r Atheïstiaid Newydd eraill yn cyflwyno llawer o dystiolaeth i gefnogi'r honiad hwn. Er enghraifft, dydy credoau crefyddol ddim yn seiliedig ar reswm ac maen nhw'n tueddu i fod yn ddi-feddwl, yn agored i awgrymiadau rhyfedd weithiau.
- Fodd bynnag, dadl *ad hominem* yw hon sy'n ymosod ar y person yn hytrach nag ar gynnwys yr honiad. Felly, nid yn unig mae hi'n sarhaus, mae hi'n athronyddol anghyfreithlon.
- Byddai rhywun yn disgwyl bod gan syniad plentynnaidd nodweddion plentynnaidd, ac mae hyn yn wir am gred grefyddol. Yn yr ysgrythur, mae Iesu yn apelio at bobl i ddod ato fel mae plant bach yn ei wneud, yn llawn ymddiriedaeth, heb amau ac yn addolgar. Os felly, mae'r safbwynt yn rhesymol.

**Paragraff Dau:**

- Mae pardduo pob crediniwr crefyddol yn afresymol. Er bod rhai credinwyr a fyddai'n cymryd ymagwedd ffydd ddall (ffyddiaethol) at grefydd, dydy hyn ddim yn wir am bawb. Gwaith diwinyddiaeth yw holi, deall ac ymresymu, a dydy hyn ddim yn blentynnaidd o bell ffordd.
- Fodd bynnag, roedd Freud wedi gwneud honiad tebyg yn erbyn crefydd pan welodd fod datblygiad y rhywogaeth a'r unigolyn yn cydredeg. Yn yr achos hwn, roedd yn gweld crefydd fel rhyw fath o gam cyntaf o ddatblygiad cymdeithasol rydyn ni'n tyfu allan ohono ac yn troi at reswm yn y pen draw.
- Dydy'r math hwn o gyffredinoli pob bod dynol ddim yn gyfreithlon gan ei fod yn cyflawni twyllresymeg cyfansoddiad: drwy dybio bod yr hyn sy'n wir am ran yn wir am y cyfan hefyd. Dim ond oherwydd bod ychydig o bobl sâl yn dangos tueddiadau plentynnaidd gyda'u cred grefyddol, dydy hynny ddim yn golygu bod hyn yn wir am bob person crefyddol.

**Paragraff Tri:**

- Mae honiad Atheïstiaeth Newydd bod crefydd yn blentynnaidd yn un rhesymol, yn yr ystyr bod crefydd yn gwrthwynebu addysg, gwyddoniaeth a rheswm. Rhoddodd Hitchens ddadleuon dros hyn pan nododd sut mae'n atal cynnydd gwyddonol.
- Yn ogystal, yn yr ymatebion mwy ffwndamentalaidd i atheistiaeth, rydyn ni'n gweld gwrthwynebiad i dystiolaeth am oedran y Ddaear, am ei ffurf ac am darddiad y ddynoliaeth. Eto, mae hyn yn seiliedig ar ymddiried yn ddi-feddwl yn yr ysgrythur, yn hytrach nag ymagwedd wedi'i rhesymu.
- Fodd bynnag, mae llawer o bobl a fyddai'n defnyddio rheswm i gefnogi eu credoau, ac mae'r gymuned wyddonol yn cynnwys llawer o gredinwyr crefyddol sy'n dadansoddi eu credoau yn hytrach na diystyru gwyddoniaeth fel rhywbeth sy'n groes i'r ysgrythur.

**Casgliad:**

- Yn y pen draw, mae'n bosibl cyhuddo llawer o gredinwyr crefyddol o fod yn blentynnaidd pan maen nhw'n lleihau eu Duw i blentyn piwis dychrynllyd neu i dad a fydd yn datrys yr holl broblemau rydyn ni wedi'u hachosi i ni ein hunain. Fodd bynnag, i lawer, dydy Duw ddim fel hyn ac mae dadansoddi cymeriad a realiti Duw yn broses soffistigedig, nid yn un blentynnaidd.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth ynghylch y cwestiwn.**

# Thema 2 U2 Profiad crefyddol (rhan 2)

## 2A U2 Dylanwad profiad crefyddol ar arferion crefyddol a ffydd

### Profi eich hun, tudalen 77

1 Enwch y saith nodwedd ar grefydd gan Smart.

- Mytholegol neu naratif – Y storïau neu'r adroddiadau ysgrythurol
- Emosiynol neu brofiadaidd – Y teimladau sy'n gysylltiedig â'r ymwneud
- Defodol – Trefn seremoni, y geiriau sy'n cael eu dweud a'r gweithredoedd sy'n cael eu gwneud
- Deunydd/Materol – Y pethau, y gwrthrychau a'r lleoedd sy'n gysylltiedig
- Sefydliadol neu gymdeithasol – Bod yn aelod o'r gymuned a chyfranogi ynddi
- Cyfreithiol neu foesegol – Y deddfau, y rheolau a'r codau sy'n rheoli ymddygiad
- Athrawiaethol neu athronyddol – Dysgeidiaethau systematig a systemau cred

2 Rhowch ddwy enghraifft o sylfaenwyr crefyddol a gafodd brofiadau crefyddol.

**Atebion enghreifftiol:**

- Crist (Cristnogaeth) – Adeg bedydd Iesu, gwelodd yr Ysbryd Glân yn disgyn fel colomen a chlywodd lais Duw yn datgan mai ef oedd ei fab.
- Muhammad (Islam) – Cafodd Muhammad ymweliad gan Jibril mewn ogof ar ben mynydd a derbyniodd eiriau'r Qur'an.

3 Sut byddai profiad Paul o dröedigaeth yn dangos maddeuant Duw? (Gweler Yr Actau 9.)

Cafodd Saul, a fu'n erlid Cristnogion, weledigaeth o Grist ac o ganlyniad bu'n ufuddhau i orchmynion Duw. Gweddïodd Ananias am i Saul gael ei iacháu yn enw Iesu, a chafodd Saul ei olwg yn ôl. Yr awgrym yw bod Saul (Paul wedyn) yn edifarhau am ei weithredoedd (dangosir hyn drwy ei ufudd-dod i orchmynion Duw) ac i Dduw faddau iddo (dangosir hyn drwy ei weithred yn iacháu).

### Profi eich hun, tudalen 78

1. Sut gallai profiad crefyddol ffigwr allweddol helpu i gymell pobl i ufuddhau i ddeddfau moesol neu grefyddol?

- Mae'n galluogi pobl i deimlo'n rhan o'r gymuned.
- Mae'r ffynhonnell ddwyfol yn rhoi ysgogiad i bobl ymateb.
- Mae enghraifft pobl eraill yn gwneud i rai pobl deimlo bod yr un peth yn bosibl iddyn nhw.
- Mae'n dystiolaeth o realiti'r dwyfol i'r rhai sydd ei hangen.

2. Awgrymwch ddwy enghraifft o ymddygiad sy'n dynodi profiad crefyddol ac yn helpu undod cymdeithasol.

   **Atebion enghreifftiol:**

   - Cydweddïo
   - Pererindod i gysegr neu i safle profiad crefyddol.

## Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 79

A yw hi'n bosibl ystyried bod profiad sy'n methu cael ei ddilysu neu ei wirio i weld a yw'n gywir, yn werthfawr byth? Ystyriwch y canlynol:

1 Sut gallwn ni farnu a yw ffrwyth profiad rhywun yn werthfawr ai peidio?

- Yn ôl a ydyn nhw'n mynd ati'n weithredol i alluogi cydlyniad cymdeithasol yn hytrach nag anhrefn.
- Yn ôl a ydyn nhw'n galluogi bywyd bodlon iddyn nhw eu hunain a/neu i eraill.
- Yn ôl a ydyn nhw'n achosi newid cadarnhaol yn ffordd o fyw person.

2 Os nad oes Duw, a yw'r profiad crefyddol yn dal i fod yn werthfawr?

Ydy – Os oes effeithiau cadarnhaol i'r person a/neu i'r bobl o'i gwmpas, yna gallwn gymryd ymagwedd bragmataidd fel James a dweud, os yw'n gweithio, yna mae'n real.

Nac ydy – Yn y pen draw mae person wedi'i dwyllo ac mae'n seilio ei fywyd ar gelwydd. Mae byw'n onest yn y byd go iawn yn fywyd sy'n cyfoethogi person yn fwy.

# 2B U2 Diffiniadau o wyrthiau

## Profi eich hun, tudalen 80

1 Yn ôl Aquinas, pam nad yw gwyrth yn gallu bod yn groes i ddeddf natur?

Oherwydd mai ewyllys Duw sy'n creu natur, ac yn ôl yr ewyllys honno.

2 Sut diffiniodd Hume wyrthiau?

'Deddf natur yn cael ei thorri oherwydd bod y Duwdod eisiau hynny'n benodol, neu oherwydd bod rhyw gyfrwng anweledig yn ymyrryd.'

3 Pam roedd angen i Hume ddiffinio gwyrthiau os oedd yn mynd i wadu eu bodolaeth?

Mae Hume yn diffinio gwyrthiau fel ein bod ni'n eglur am yr hyn y mae'n ei ystyried yn amhosibl.

## Profi eich hun, tudalen 82

1 Pa fath o ddigwyddiadau y mae diffiniad Holland yn caniatáu iddyn nhw gael eu galw'n wyrthiau?

Cyd-ddigwyddiadau.

2 Pa enghraifft roddodd Holland o wyrth?

Bachgen yr oedd ei gar bach wedi'i ddal ar reilffordd yn llwybr trên a oedd ar fin cyrraedd. Daeth y trên i stop oherwydd y cyd-ddigwyddiad bod y gyrrwr wedi llewygu o achos mater meddygol a bod y breciau'n wedi cael eu gwasgu'n awtomatig.

3 Sut mae Swinburne yn diffinio gwyrth?

'Torri deddf natur gan dduw, hynny yw, bod rhesymegol pwerus iawn nad yw'n wrthrych materol (h.y. mae'n anweledig ac yn anghyffwrdd).'

## Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 83

A oes unrhyw rai o'r diffiniadau o wyrthiau'n ddigonol? Ystyriwch y canlynol:

1 Os nad yw deddf natur yn gallu cael ei thorri, a yw hyn yn golygu bod bodolaeth Duw yn amhosibl?

Ydy – Os oes bod hollalluog, dylai'r bod hwnnw, drwy ddiffiniad, fod yn gallu torri deddfau natur.

Nac ydy – Mae deddfau y mae Duw hollalluog yn eu rhoi yn eu lle yn gallu bod yn amhosibl eu torri oherwydd eu bod yn unol â'i ewyllys Ef sy'n gallu gwneud popeth.

2 A oes rhaid credu mewn duwdod er mwyn credu mewn gwyrthiau?

Nac oes – Yn ymarferol, mae llawer o bobl sy'n hapus i gredu mewn gwyrthiau neu i honni iddyn nhw ddigwydd, ond eto i gyd, dydyn nhw ddim yn ymrwymo i gred mewn unrhyw Dduw neu dduwiau.

Oes – Mae'n rhaid i wyrth, fel unrhyw ddigwyddiad, fod ag achos. Os yw'r digwyddiad yn torri deddfau natur, yna mae'n rhaid bod achos y tu allan i fyd natur i wneud iddo ddigwydd.

3 A yw hi'n dderbyniol datgan bod gwyrth wedi digwydd dim ond oherwydd bod person wedi cael ymateb emosiynol i ddigwyddiad annisgwyl?

Ydy – Does dim angen i'r gair gwyrth gael ei gyfyngu i dorri deddfau natur yn unig. Does dim pwrpas i wyrth nad yw'n cael rhyw fath o effaith, yn emosiynol a/neu'n ysbrydol, ar y person(au) sy'n derbyn.

Nac ydy – Mae pobl yn gallu cael ymatebion emosiynol i unrhyw ddigwyddiad. Mae'n rhaid bod rhywbeth sy'n dynodi bod gwyrth yn rhywbeth arbennig neu arwyddocaol er mwyn ei gwneud hi'n wyrth go iawn. Os nad yw hi'n torri deddf natur, does dim byd sy'n ei gwneud hi'n wahanol i ddigwyddiad arferol.

# 2C U2 Astudiaeth gymharol o waith dau ysgolhaig allweddol o fewn ac oddi allan i'r traddodiad Cristnogol, a'u safbwyntiau cyferbyniol ar bosibilrwydd bodolaeth gwyrthiau

## Cymhwyso eich gwybodaeth 86

A oes byth unrhyw reswm da pam dylen ni amau tystiolaeth person sy'n honni bod gwyrth wedi digwydd? Ystyriwch y canlynol:

1 A ydych chi'n gallu ymddiried yn fwy neu'n llai mewn pobl grefyddol nag mewn pobl anghrefyddol?

Nac ydw – Rydych chi'n gallu ymddiried cymaint/cyn lleied mewn pobl grefyddol ag mewn unrhyw grŵp arall o fodau dynol.

Ydw – Mae'r ffaith eu bod nhw'n credu mewn rhywbeth fel Duw, sydd heb ei gefnogi, yn ddigon o reswm i amau gwirionedd neu werth eu honiadau eraill.

2 A yw hi'n fwy neu'n llai tebygol y bydd person sy'n grefyddol heb gael llawer o addysg?

Yn fwy tebygol – Mae person addysgedig yn llai tebygol o gredu yn Nuw gan y bydd yn deall y wyddoniaeth yn gywir ac yn gallu defnyddio rheswm yn ddigon dibynadwy i sylweddoli beth sy'n ofergoel.

Yr un mor debygol ag unrhyw grŵp arall o fodau dynol – Mae pobl grefyddol mewn pob math o swyddi, gan gynnwys yn y maes academaidd a gwyddoniaeth, ac mae'n rhaid i lawer o arweinwyr crefyddol fod yn addysgedig er mwyn bod â swydd fel clerigwr.

3 Pa reswm fydd bob amser yno a ddylai wneud i ni fod yn fwy tebygol o amau person sy'n honni bod gwyrth wedi digwydd?

Mae'r ffaith ei fod yn honni bod gwyrth wedi digwydd yn rheswm da i'w amau. Y rheswm am hyn yw oherwydd ein bod ni'n gwybod o brofiad nad yw gwyrthiau'n digwydd. Drwy ddiffiniad, maen nhw'n annhebygol iawn ac felly rydyn ni'n debygol o amau'r person mwyaf dibynadwy hyd yn oed, os dyma mae'n ei honni.

## Profi eich hun, tudalen 86

1 Pam mae Hume yn amau tystiolaeth pobl sydd wedi honni eu bod nhw wedi profi gwyrth?

- Mae hi bob amser yn fwy tebygol bod y person yn dweud celwydd neu wedi camgymryd bod gwyrth wedi digwydd.
- Does byth digon o dystion:
  - sydd â digon o synnwyr da
  - sydd wedi cael addysg a dysg
  - y gallwch chi ymddiried ynddyn nhw i beidio â'n camarwain ni
  - sydd ag enw da digonol
  - sydd â digon i'w golli os gwelwn ni iddyn nhw ddweud celwydd.
- Mae pobl yn debygol o fod yn chwilio am sylw.
- Mae'r rhai sy'n honni yn annibynadwy a heb synnwyr cyffredin.

- Efallai bydd person crefyddol yn dweud celwydd er mwyn rhoi tröedigaeth i bobl.
- Mae'r rhai sy'n honni bod gwyrthiau wedi digwydd yn anwybodus ac yn ddiaddysg.

2 Pam mae Swinburne yn awgrymu y dylen ni ymddiried mewn tystiolaeth o'r fath?

Dylen ni ddefnyddio egwyddor tystiolaeth – os yw rhywun yn dweud bod digwyddiad wedi digwydd, yna mae'n debygol ei fod wedi, oni bai bod rheswm i amau'r honiad. Fel arall rydyn ni'n mynd i gors lawn amheuon, lle na allwn ni ymddiried mewn dim y mae neb yn ei ddweud.

3 Beth yw ystyr addasu eich cred i'r dystiolaeth?

Dylai eich cred fod mor gryf â maint y dystiolaeth sydd i'w chefnogi. Mae mwy o dystiolaeth bod deddfau natur yn absoliwt ac yn ddigyfnewid nag sydd eu bod nhw'n gallu cael eu torri. Felly, dylen ni gredu mwy ym mhŵer deddfau naturiol, a chredu llai mewn gwyrthiau.

# Cwestiynau enghreifftiol

## Cwestiynau enghreifftiol AA1, tudalen 89

1 Cymharwch y diffiniadau o wyrth gan Swinburne, Hume, Holland ac Aquinas.

| Enw | Diffiniad | Sylwadau i gymharu |
|---|---|---|
| **Aquinas** | 'Gwyrthiau yw'r enw, fel arfer, ar bethau sy'n cael eu cyflawni'n ddwyfol, ar wahân i'r drefn arferol mewn pethau.' | • Tebyg i Hume a Swinburne.<br>• Mae'n ehangu'r diffiniad i gynnwys tair ffordd y gallai Duw weithredu ym myd natur:<br>1 Rhywbeth nad yw Natur yn gallu ei wneud ar ei phen ei hun.<br>2 Rhywbeth y gall Natur ei wneud ond nid yn y drefn honno.<br>3 Rhywbeth y gall Natur ei wneud, ond nad yw hi'n ei wneud.<br>• Dydy'r diffiniad ddim yn caniatáu ei bod hi'n bosibl torri deddf natur. |
| **Hume** | 'Deddf natur yn cael ei thorri oherwydd bod y Duwdod eisiau hynny'n benodol, neu oherwydd bod rhyw gyfrwng anweledig yn ymyrryd.' | • Tebyg i Aquinas a Swinburne.<br>• Yn eithaf cyfyngedig gan ei fod yn ymdrin â thorri deddfau natur yn unig.<br>• Dydy hi ddim yn bosibl galw dim byd llai na hyn yn wyrth.<br>• Fyddai'r diffiniad ddim yn cynnwys cyd-ddigwyddiadau neu ddigwyddiadau y byddai deddfau naturiol yn gallu eu hesbonio nhw. |
| **Swinburne** | 'Torri deddf natur gan dduw, hynny yw, bod rhesymegol pwerus iawn nad yw'n wrthrych materol (h.y. mae'n anweledig ac yn anghyffwrdd).' | • Tebyg i Aquinas a Hume.<br>• Mae'n ychwanegu y dylai fod pwrpas i ddigwyddiad fel hwn gan nad yw Duw yn fympwyol. |

| Enw | Diffiniad | Sylwadau i gymharu |
|---|---|---|
| | | • Mae torri deddf natur yn ddigwyddiad o wrth-achos nad yw'n ailadroddadwy.<br>• Mae'n dderbyniol tybio mai Duw yw'r achos os nad yw hi'n bosibl tystio i unrhyw achos arall a bod tystiolaeth arall i awgrymu mai ateb cadarnhaol i weddi yw'r digwyddiad. |
| **Holland** | Digwyddiad sydd ag arwyddocâd dynol mewn amgylchiadau penodol. | • Mae'n wahanol iawn i'r diffiniadau eraill.<br>• Mae'n ystyried bod diffiniadau sy'n ymwneud â thorri deddfau yn unig yn rhy gaethiwus.<br>• Mae'n cynnwys cyd-ddigwyddiadau.<br>• Mae'n derbyn bod elfen emosiynol i'r honiadau.<br>• Mae'n derbyn bod gwyrthiau amodoldeb yn wahanol i wyrthiau torri deddfau.<br>• Mae'n caniatáu enghraifft y plentyn a'r trên. |

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

2 Archwiliwch beth yw gwerth profiad crefyddol i gymuned grefyddol.

- Efallai mai gwerth profiad crefyddol i gymuned grefyddol yw cadarnhau system cred.
- Profiad crefyddol yw ffynhonnell dysgeidiaeth grefyddol. Yn aml mae gan grefyddau'r byd ffigwr neu ffigyrau allweddol, a'u profiad nhw o'r dwyfol yw sail y ddysgeidiaeth a'r cyfarwyddyd moesegol. Er enghraifft, adeg bedydd Iesu, gwelodd yr Ysbryd Glân yn disgyn fel colomen a chlywodd lais Duw yn datgan mai ef oedd ei fab. Wrth i Siddhartha Gautama fyfyrio o dan y goeden Bodhi, cafodd oleuedigaeth ar ôl ymladd â'r demtasiwn oddi wrth Mara.
- Yn ôl Max Weber, mae cymunedau crefyddol yn seiliedig ar ddysgeidiaeth ffigur carismataidd. Mae honiad y ffigwr iddo gael profiad o'r dwyfol yn apelio at ein buddiannau delfrydol sydd ddim yn cael eu bodloni ar hyn o bryd.
- Neu, yn hytrach na bod y digwyddiadau'n sail i'r ddysgeidiaeth, efallai bydd y digwyddiadau'n cadarnhau dysgeidiaeth sy'n bodoli'n barod. Os yw cymuned yn credu bod Duw yn gariadus, efallai bydd profiad crefyddol yn cadarnhau'r gred hon. Er enghraifft, roedd yr Apostolion yn dysgu bod Duw yn maddau, ac mae tröedigaeth ac edifeirwch Paul yn cefnogi'r honiad hwn.
- Efallai bydd profiad crefyddol yn hyrwyddo system gwerthoedd ffydd.
- Mae pobl grefyddol yn aml yn defnyddio enghreifftiau o ffigyrau crefyddol sydd wedi cael neu sy'n cael profiadau crefyddol fel enghreifftiau da i ymgyrraedd atyn nhw. Er enghraifft, mae pobl yn efelychu Crist yn cael ei demtio yn ystod ei gyfnod yn yr anialwch (Luc 4:1–14) drwy ymprydio neu ymddisgyblu, yn enwedig yn ystod y Grawys.
- Roedd Emile Durkheim yn cydnabod bod credu yn Nuw neu yn y dwyfol yn ysgogydd cymdeithasol i ymddygiad moesol. Mae ymwneud crefyddol â'r dwyfol drwy ddefnyddio symbolau a defodau yn helpu i'n cymell ni i reoli ein hymddygiad, hyd yn oed os nad oes ffynhonnell ddwyfol.

- Efallai bydd profiadau crefyddol yn cryfhau cydlyniad cymuned grefyddol. Honnodd Durkheim fod crefydd yn cryfhau'r gymdeithas drwy ddod â phobl at ei gilydd a'u galluogi i gydweithio.
- Pwrpas profiad crefyddol corfforaeth gweddïo, adnewyddu ffydd neu hyd yn oed profiadau fel y Toronto Blessing yw bod yn ffocws ar gyfer cydaddoli. Er enghraifft, mae datguddio'r Qur'an i Muhammad yn cael ei ddathlu yn ystod Ramadan drwy ymprydio ac iftar.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

3 Esboniwch sut mae Swinburne wedi herio beirniadaeth Hume ar wyrthiau.

- Mae Swinburne yn diffinio gwyrthiau yn debyg i Hume, fel 'Torri deddf natur gan dduw, hynny yw, bod rhesymegol pwerus iawn nad yw'n wrthrych materol (h.y. mae'n anweledig ac yn anghyffwrdd).'
- Eto i gyd, yn hytrach na beirniadu gwyrthiau fel Hume, mae'n ysgrifennu i amddiffyn gwyrthiau. Mae Swinburne yn herio honiad Hume nad oes digon o dystiolaeth ar gyfer gwyrthiau.
- Mae Swinburne yn honni bod pedwar math o dystiolaeth:
  - Atgofion personol
  - Tystiolaeth pobl eraill
  - Tystiolaeth gorfforol
  - Ein dealltwriaeth o ddeddfau naturiol
- Mae'r rhain i gyd yn cyfrif fel tystiolaeth ac mae'n rhaid i ni gasglu cymaint ag sy'n bosibl ohoni. Os oes mwy o dystiolaeth dros y digwyddiad nag sydd yn ei erbyn, mae'n debygol iddo ddigwydd.
- Mae'n herio amheuaeth Hume drwy nodi, os ydyn ni'n amau'r cofnodion am wyrth, yna bod rhaid i ni amau honiadau hanesyddol a gwyddonol gan eu bod nhw'n dibynnu ar yr un ffurfiau ar dystiolaeth.
- Mae Swinburne yn awgrymu y dylen ni ddefnyddio egwyddor hygoeledd – os yw hi'n ymddangos bod rhywbeth wedi digwydd, yna mae'n hynny'n debygol oni bai bod rheswm i awgrymu fel arall. Mae'n mynd rhagddo i herio safonau Hume am fod yn afresymol o uchel:
  - Beth yw nifer digonol o dystion i gadarnhau honiad?
  - Beth yw addysg ddigonol?
  - Nid celwyddgi yw pob person crefyddol.
- I Swinburne, mae mathau gwahanol o dystiolaeth yn fwy pwysig na'i gilydd:
  - Mae ein tystiolaeth ni ein hunain yn well na thystiolaeth rhywun arall.
  - Mae tystiolaeth rhywun dibynadwy yn well na thystiolaeth rhywun annibynadwy.
  - Mae nifer mawr o dystion yn well na nifer bach.
- Mae'n cyhuddo Hume o fod yn rhagfarnllyd wrth ddiystyru pob tystiolaeth grefyddol. Os ydyn ni'n amau honiadau pobl am wyrth, yna dylen ni amau pob un o'u profiadau personol eraill am yr un rheswm.

- Felly, i osgoi cors lawn amheuon, dylen ni ddefnyddio egwyddor tystiolaeth – os yw rhywun yn dweud bod digwyddiad wedi digwydd, yna mae'n debygol ei fod wedi, oni bai bod rheswm i amau'r honiad.
- Mae Hume yn honni bod gwyrthiau crefyddol yn anghyson, ond mae Swinburne yn nodi, er y gallen nhw fod, nad ydyn nhw byth. Er enghraifft:
  - Offeiriad Catholig Rufeinig yn gweddïo am wyrth er mwyn dangos traws-sylweddiad.
  - Mae offeiriad Protestannaidd sy'n gweddïo am wyrth er mwyn dangos traws-sylweddiad yn eilunaddolgar.
- Byddai'r rhain yn gwrth-ddweud ei gilydd, ond dydy gwyrth fel hon ddim wedi digwydd erioed.
- Y cyfan mae gwyrthiau gwirioneddol o unrhyw ffynhonnell yn ei wneud yw dangos grym Duw neu ei natur hollraslon.
- Does dim anawsterau rhesymegol wrth dybio y gallai fod tystiolaeth hanesyddol gref o blaid bod gwyrthiau'n digwydd.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

4 Cymharwch safbwyntiau Hume a Swinburne ar bosibilrwydd gwyrthiau.

| **Hume** | **Swinburne** |
|---|---|
| Diffiniodd wyrth fel 'Deddf natur yn cael ei thorri oherwydd bod y Duwdod eisiau hynny'n benodol, neu oherwydd bod rhyw gyfrwng anweledig yn ymyrryd.' | Diffiniodd wyrth fel 'Torri deddf natur gan dduw, hynny yw, bod rhesymegol pwerus iawn nad yw'n wrthrych materol (h.y. mae'n anweledig ac yn anghyffwrdd).' |
| Mae Hume yn dadlau bod person doeth yn addasu ei gred i'r dystiolaeth:<br>• Mae profiad cyson yn golygu prawf llawn.<br>• Gyda phrofiad newidiol, mae'n rhaid pwyso a mesur tebygolrwydd.<br>• Mae gwyrthiau'n brofiadau newidiol oherwydd eu bod nhw'n gwrth-ddweud profiad cyson pobl o ddeddfau natur.<br>• Does dim tystiolaeth sy'n ddigon cryf, o gofio cymaint o dystiolaeth sydd na fyddai gwyrth yn digwydd.<br>• Dydy gwyrthiau ddim yn amhosibl ond maen nhw'n hynod annhebygol.<br>• Mae hi bob amser yn fwy tebygol bod y person yn dweud celwydd neu wedi camgymryd bod y wyrth wedi digwydd. | Mae pedwar math o dystiolaeth:<br>1 Atgofion personol<br>2 Tystiolaeth pobl eraill<br>3 Tystiolaeth ffisegol<br>4 Ein dealltwriaeth o ddeddfau naturiol<br>Mae'r rhain i gyd yn cyfrif fel tystiolaeth ac mae'n rhaid i ni gasglu cymaint ag sy'n bosibl ohoni. Os oes mwy o dystiolaeth dros y digwyddiad nag sydd yn ei erbyn, mae'n debygol iddo ddigwydd.<br>Os ydyn ni'n amau hanesion am wyrthiau, yna rhaid i ni amau pob honiad hanesyddol a gwyddonol am yr un rheswm.<br>Yn ôl egwyddor hygoeledd, os yw hi'n ymddangos bod rhywbeth wedi digwydd, yna mae'n hynny'n debygol oni bai bod rheswm i awgrymu fel arall. |
| Does byth digon o dystion:<br>• sydd â digon o synnwyr da<br>• sydd wedi cael addysg a dysg<br>• y gallwch chi ymddiried ynddyn nhw i beidio â'n camarwain ni | Mae safonau Hume yn afresymol o uchel:<br>• Beth yw nifer digonol o dystion?<br>• Beth yw addysg ddigonol?<br>• Nid celwyddgi yw pob person crefyddol. |

| Hume | Swinburne |
|---|---|
| • sydd ag enw da digonol<br>• sydd â digon i'w golli os gwelwn ni iddyn nhw ddweud celwydd.<br>Dydy'r digwyddiad byth yn digwydd mewn lle digon cyhoeddus neu ddigon adnabyddus o'r byd i ni gredu ei fod yn wir. | Mae mathau gwahanol o dystiolaeth yn fwy pwysig na'i gilydd:<br>• Mae ein tystiolaeth ni ein hunain yn well na thystiolaeth rhywun arall.<br>• Mae tystiolaeth rhywun dibynadwy yn well na thystiolaeth rhywun annibynadwy.<br>• Mae nifer mawr o dystion yn well na nifer bach.<br>Mae Hume yn rhagfarnllyd wrth ddiystyru pob tystiolaeth grefyddol. |
| • Mae pobl yn tueddu i ddymuno gwyrthiau.<br>• Oherwydd y dymuniad angerddol hwn, mae synnwyr cyffredin a dibynadwyedd yn diflannu.<br>• Efallai bydd person crefyddol yn dweud celwydd er mwyn rhoi tröedigaeth i ragor o bobl.<br>• Mae'n gorliwio i gael ei edmygu ac i gael sylw.<br>• Mae'r rhai sy'n honni bod gwyrthiau wedi digwydd yn anwybodus ac yn ddiaddysg. | Os ydyn ni'n amau honiadau pobl am wyrthiau, yna dylen ni amau pob profiad personol arall am yr un rheswm.<br>Dylen ni ddefnyddio egwyddor tystiolaeth – os yw rhywun yn dweud bod digwyddiad wedi digwydd, yna mae'n debygol, oni bai bod rheswm i amau'r honiad. |
| Mae hanesion am wyrthiau o grefyddau gwahanol yn diddymu ei gilydd:<br>• Mae pob honiad am wyrth yn cael ei wneud i brofi gwirionedd y grefydd.<br>• Mae'r un mor bosibl bod pob un yn gywir neu'n anghywir.<br>• Mae gan bob un yr un grym i ddymchwel ei gilydd.<br>• Mae pob un yn gwrth-ddweud ei gilydd; felly, mae pob un yn anghywir. | Gallai gwyrthiau crefyddol wrth-ddweud ei gilydd, ond dydyn nhw byth yn gwneud hynny. Er enghraifft:<br>• Offeiriad Catholig Rufeinig yn gweddïo am wyrth er mwyn dangos traws-sylweddiad.<br>• Mae offeiriad Protestannaidd sy'n gweddïo am wyrth er mwyn dangos traws-sylweddiad yn eilunaddolgar.<br>Byddai'r rhain yn gwrth-ddweud ei gilydd, ond dydy gwyrth fel hon ddim wedi digwydd erioed.<br>Y cyfan mae gwyrthiau gwirioneddol o unrhyw ffynhonnell yn ei wneud yw dangos grym Duw neu ei natur hollraslon. |
| Mae Hume yn dod i'r casgliad bod llawer mwy o dystiolaeth bob amser nad oedd gwyrth nag o dystiolaeth bod gwyrth. | Mae Swinburne yn dod i'r casgliad nad oes anawsterau rhesymegol wrth dybio y gallai fod tystiolaeth hanesyddol gref o blaid bod gwyrthiau'n digwydd. |

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

5 Archwiliwch pam gallai credinwyr crefyddol dderbyn bod gwyrthiau'n digwydd.

- Dydy pob crediniwr crefyddol ddim yn derbyn bod gwyrthiau'n digwydd. Mae nifer o resymau pam mae'r bobl grefyddol sy'n derbyn gwyrthiau'n gwneud hynny.

- Efallai byddan nhw'n derbyn tystiolaeth o ysgrythurau y credir yn aml mai'r dwyfol sydd wedi'u hysbrydoli nhw. Lle mae ysgrythurau crefyddol yn cynnwys disgrifiadau o wyrth, maen nhw'n dweud wrthon ni fod y dwyfol yn ymwneud â'r byd ac yn ymddiddori ynddo.
- Er enghraifft, yn Exodus 14, llwyddodd yr Israeliaid i ddianc o'r Aifft ond roedden nhw'n methu croesi'r Môr Coch. Ar orchymyn Duw, rhannodd Moses y Môr Coch i'r Israeliaid gael croesi. Boddwyd byddin yr Aifft a oedd yn eu herlid pan wnaeth Moses i'r môr ddychwelyd i'w ddyfnder arferol. Mae'r ysgrythur yn awgrymu bod Duw wedi ymddiddori yn yr heriau yr oedd ei bobl etholedig yn eu hwynebu a'i fod wedi trosgynnu deddfau natur.
- Efallai bydd credinwyr yn derbyn dysgeidiaeth draddodiadol. Yn draddodiadol, mae natur y dwyfol yn aml yn bersonol, yn bwerus ac yn garedig. Mae'n bosibl dehongli digwyddiadau yng ngoleuni'r nodweddion dwyfol hyn.
- Mae Credo'r Apostolion, a adroddir mewn gwasanaethau eglwys, yn crynhoi ac yn cadarnhau'r credoau sylfaenol y mae'r Eglwys yn eu derbyn a'u haddysgu. Mae'n nodi:

  'Credaf yn Iesu Grist, ei unig Fab, ein Harglwydd
  a gaed trwy nerth yr Ysbryd Glân
  a aned o Fair Forwyn.
  ... Disgynnodd at y meirw.
  Atgyfododd y trydydd dydd.'
- Mae gan y credo hwn ddwy wyrth yn ganolog i'w ddatganiad o ffydd:

  1 Bod Iesu wedi'i eni o wyryf.
  2 Ei fod wedi'i godi o'r meirw.
- Yn ôl traddodiad, newidiodd Duw swyddogaeth deddfau natur er mwyn gwneud ei ewyllys. Mae'n bersonol, yn bwerus ac yn gariadus.
- Mae disgrifiadau modern o wyrthiau'n cadarnhau i gredinwyr y traddodiad bod gan Dduw y mathau hyn o rinweddau. Mae'n ymddiddori yn y byd, mae'n gallu effeithio arno ac mae'n caru ei greadigaeth ddigon i wneud hynny weithiau.
- Er enghraifft, yn 2008 aeth y Chwaer Bernadette Moriau i achlysur bendithio i bobl sâl yn Lourdes. Roedd Moriau yn hollol anabl ar ôl cael pedair llawdriniaeth aflwyddiannus am broblem cefn ers 40 mlynedd a oedd yn ei hatal rhag cerdded. Teimlodd don o gynhesrwydd, clywodd lais yn dweud wrthi am dynnu'r ffrâm a oedd amdani, a cherddodd i ffwrdd o'i chadair olwyn. Penderfynodd yr Eglwys Gatholig Rufeinig gydnabod y digwyddiad hwn yn swyddogol yn wyrth yn 2018, ar ôl methu dod o hyd i esboniad gwyddonol.
- I'r bobl sy'n gysylltiedig, dyma gadarnhau bod Crist yn dal i fod ar waith yn y byd a bod ganddo allu aruthrol i iacháu.
- Mae honiadau personol am wyrth yn rheswm arall pam efallai fod credinwyr yn derbyn gwyrthiau. Ar ôl i berson gael profiad o'r math hwn o ddigwyddiad, mae'n llai pwysig bod deddf natur wedi cael ei thorri ac yn fwy pwysig bod Duw wedi clywed ei gri am help neu wedi estyn allan iddo yn y byd.
- Er enghraifft, yn y 1980au, cafodd Jennifer Rees Larcome ei tharo gan enceffalitis, neu lid yr ymennydd, a bu bron iddi farw. Roedd hi'n gaeth i gadair olwyn ers wyth

mlynedd pan aeth i gynhadledd gyda'r eglwys; gweddïodd dieithryn drosti ac yna roedd hi'n gallu cerdded eto.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

6 Esboniwch ddylanwad profiad crefyddol ar arferion crefyddol a ffydd.

- Mae profiad crefyddol yn gallu dylanwadu ar gymunedau ac unigolion crefyddol.
- Mae saith dimensiwn crefydd Ninian Smart yn dangos bod profiad yn ganolog wrth ddiffinio'r hyn yw crefydd.
- Efallai fod profiad crefyddol yn dylanwadu ar ffydd drwy fod yn ffynhonnell dysgeidiaeth grefyddol.
- Yn aml mae gan grefyddau'r byd ffigwr neu ffigyrau allweddol, a'u profiad nhw o'r dwyfol yw sail y ddysgeidiaeth a'r cyfarwyddyd moesegol. Er enghraifft, mewn Sikhiaeth, diflannodd Guru Nanak i afon am dri diwrnod a chwrdd â Duw. Wedyn gorchmynnodd Duw iddo roi gwybod i eraill am ei wir natur.
- Neu, efallai bydd profiad ffigyrau crefyddol allweddol yn cadarnhau'r hyn sy'n cael ei ddysgu'n barod am natur y dwyfol. Er enghraifft, dysgodd yr Apostolion fod Duw yn fewnfodol ac roedd eu profiad torfol o'r tafodau tân adeg y Pentecost yn cadarnhau hyn.
- Efallai bydd profiadau crefyddol yn hyrwyddo system gwerthoedd ffydd y gymuned.
- Mae pobl grefyddol yn aml yn defnyddio enghreifftiau o ffigyrau crefyddol sydd wedi cael neu sy'n cael profiadau crefyddol fel cymhelliad neu enghraifft dda i ymgyrraedd ati. Mae tröedigaeth Awstin Sant o Hippo, a ddaeth yn awdurdod blaenllaw wrth sefydlu athrawiaeth gynnar yr Eglwys, yn enghraifft dda o ddelfryd rinweddol.
- Mae ymwneud crefyddol â'r dwyfol drwy ddefnyddio symbolau a defodau yn helpu i'n cymell ni i reoli ein hymddygiad.
- Efallai bydd profiad crefyddol yn cryfhau cydlyniad cymuned grefyddol. Mae Durkheim yn honni bod crefydd yn cryfhau'r gymdeithas drwy ddod â phobl at ei gilydd a'u galluogi i gydweithio. Er enghraifft, datguddiwyd y Qur'an i Muhammad ac mae'r gymuned yn nodi hyn adeg Ramadan drwy ymprydio a thrwy'r iftar.
- Neu, mae gwerth i'r unigolyn.
- Mae'n bosibl i brofiad crefyddol adfer ffydd, gan gynhyrchu perthynas Fi-Ti Buber â Duw drwy ryngweithio personol ac ymgysylltu emosiynol â'r un arall, neu gred Price 'mewn' drwy ymrwymiad neu agwedd emosiynol tuag at Dduw.
- Mae profiad crefyddol yn gallu cryfhau ffydd yn wyneb gwrthwynebiad. Mae pobl yn aml yn amau credinwyr, yn eu gwawdio neu'n eu condemnio'n llwyr hyd yn oed. Oherwydd hyn mae rhai wedi aberthu dros eu ffydd. Er enghraifft, y disgyblion adeg y Pentecost – cawson nhw eu gwawdio am fod wedi meddwi (Yr Actau 2:13).
- Mae gweddïo ac ymroddiad yn cryfhau'r credinwyr hyn, ac maen nhw'n teimlo sicrwydd sy'n cyd-fynd ag elfen noëtig profiad cyfriniol fel mae James yn ei ddisgrifio.
- Mae profiad crefyddol yn gallu arwain at adnewyddu ymrwymiad i ddelfrydau ac athrawiaethau crefyddol.

- Mae gan lawer o grwpiau crefyddol seremonïau neu ddefodau derbyn sy'n symbol o burdeb neu o'r hen ffordd o fyw yn marw a'r ffordd newydd o fyw yn dechrau. Er enghraifft, mewn Cristnogaeth mae gan y Bedyddwyr, y Pentecostiaid a'r Anglicaniaid fedydd crediniwr; mae Mwslimiaid yn gwneud wudu cyn gweddïo.
- Roedd Billy Graham, yr efengylwr, yn cynnal ralïau neu 'groesgadau' a oedd yn annog pobl â chwestiynau i ddod i'r blaen i weddïo ac i gael cwnsela. Byddai cannoedd ar filoedd o gredinwyr yn dod ymlaen fel ffordd o adnewyddu eu ffydd neu o ddynodi ymrwymiad iddi.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

## Cwestiynau enghreifftiol AA2, tudalen 89

1 Gwerthuswch y safbwynt nad yw profiadau crefyddol yn bwysig i gredoau ac arferion crefyddol.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Ddim yn bwysig = Ddim yn cael unrhyw effaith neu does dim o'u hangen.

**Paragraff Un:**

- Mae profiad yn un o saith dimensiwn crefydd Smart. Mae'n amhosibl ei wahanu oddi wrth grefydd ac felly mae'n hynod o bwysig.
- Wedi dweud hyn, er ei fod yn un o ddimensiynau crefydd, nid dyma'r unig un ac efallai nad dyma'r pwysicaf.
- Yn ogystal, mae'n bosibl cymhwyso llawer o'r saith dimensiwn i grwpiau a chymdeithasau seciwlar hefyd. Mae hyn yn awgrymu mai'r rhan gymdeithasol yn hytrach na'r rhan profiad yw rhan fwyaf hanfodol crefydd.

**Paragraff Dau:**

- Mae profiad crefyddol yn cadw cymuned grefyddol gyda'i gilydd drwy gael profiad o ddefodau a dysgeidiaethau. Felly, mae'n gwneud i brofiad fod yn rhan ganolog o'r hyn yw crefydd.
- Eto i gyd, mae profiadau'n gallu cynnwys mynd i'r eglwys yn unig yn yr un ffordd ag y mae rhywun yn mynd i'r siop. Profiad yw hwn, er nad yw'n brofiad goruwchnaturiol. Felly, mae'n rhaid i ni holi beth yw ystyr profiad crefyddol yn y lle cyntaf.
- Mae unrhyw brofiad yn angenrheidiol i helpu i strwythuro cymuned, ond nid profiadau yw'r canolbwynt. Mae'r canolbwynt yn athrawiaethol, yn foesegol neu'n gymdeithasol yn hytrach nag yn seiliedig ar brofiad.

**Paragraff Tri:**

- Profiad crefyddol yw'r peth sy'n ysbrydoli pobl i ddilyn ffydd a bod yn driw iddi hi. Dyma'r hyn sy'n dangos realiti gwrthrychol y tu hwnt i'r byd hwn ac sy'n rhoi rheswm dros fodolaeth y ffydd.
- Fodd bynnag, cymuned a chyfeillgarwch sydd eu hangen ar bobl yn hytrach na phrofiadau haniaethol. Dyma sy'n cadw'r gymuned gyda'i gilydd, nid ateb cyflym o ryfeddod a syndod sydd wedi diflannu mewn chwinciad.

- Byddai hi'n ymddangos mai mythau diddorol yw profiadau crefyddol sy'n rhoi strwythur i grefydd ond dim byd arall; felly dydyn nhw ddim ym bwysig ar y cyfan.

**Casgliad:**

- Er bod dadleuon i'r gwrthwyneb, rhaid cofio mai profiad crefyddol yw ffynhonnell crefydd. Profiadau sylfaenwyr fel Crist neu Siddhartha Gautama yw sylfaen crefydd a'r sail i athrawiaeth a defodau. Felly maen nhw'n hanfodol i fodolaeth crefydd, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n hanfodol i gredinwyr unigol.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth ynghylch y cwestiwn.**

2 'Does dim diffiniad digonol o wyrth.' Gwerthuswch y safbwynt hwn.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Digonol = Digon da neu foddhaol.

**Paragraff Un:**

- Mae diffiniad Aquinas yn ddigon eang i gynnwys amrywiaeth o ffyrdd y gall Duw effeithio ar y byd, ac felly mae ei ddiffiniadau o wyrth yn ddigonol o leiaf, os nad yn gynhwysfawr.
- Eto i gyd, mae pob diffiniad yn golygu bod honiad rhywun am wyrth heb ei gynnwys. Mae gan Vardy enghraifft, sef aelodau'r côr eglwys a gyrhaeddodd ymarfer yn hwyr, ar wahân i'w gilydd, gan felly osgoi boeler yn ffrwydro yn y neuadd. Mae'r enghraifft yn fwy na chyd-ddigwyddiad yn unig, ond dydy hi ddim wedi'i chynnwys o dan ddiffiniad Aquinas.
- Dylai fod gan bob diffiniad digonol y ffaith bod deddfau naturiol yn cael eu torri yn y meini prawf yn rhywle, er mwyn gwneud i'r digwyddiadau fod yn amlwg yn wahanol i'r arfer. Ond i hyn gael ei gynnwys, mae'n bosibl gweld bod y diffiniad yn ddigonol.

**Paragraff Dau:**

- Mae diffiniad Hume yn eglur ac yn syml, a dydy e ddim yn rhoi lle i unrhyw ansicrwydd amwys, felly mae'n ddigonol.
- Fodd bynnag, mae Hume yn rhy gaeth yn ei ddiffiniad, heb roi lle i gymeriad Duw fel un caredig, personol a thrugarog.
- Yn ogystal, mae'n anodd gweld bod diffiniad Hume yn cydnabod pwrpas digwyddiadau fel hyn ryw lawer. Mae hyn, fel mae Swinburne yn ei nodi, yn hanfodol wrth ystyried gwyrth.

**Paragraff Tri:**

- Mae diffiniad Holland yn rhoi cyfrif am ganfyddiad pobl o Dduw yn gweithio yn y bydysawd. Does bosib mai dyma sydd bwysicaf wrth ystyried bod digwyddiad yn wyrthiol.
- Eto i gyd, os yw diffiniad yn rhy eang, mae'n colli cymeriad unigryw gwyrth. Mae diffiniad Holland fel petai'n gwneud hyn wrth iddo gydnabod mai cyd-ddigwyddiadau'n unig yw gwyrth.

- Fodd bynnag, fel mae Holland yn ei nodi, mae dweud nad oes angen galw digwyddiadau fel hyn yn wyrth fel dweud nad oes angen cwympo mewn cariad pan mae'n bosibl i bobl aros yn ffrindiau. Mae hyn yn diystyru'r ymateb emosiynol i ddigwyddiad, sy'n ganolog i'r honiadau o wyrth.

**Casgliad:**

- Yn y pen draw, does dim diffiniad digonol o wyrth. Mae Duw sy'n ymyrryd ac sy'n gweithredu i droi dŵr yn win, eto i gyd nad yw'n gweithredu i achub plentyn sy'n marw, yn broblemus. Eto i gyd, mae Duw sy'n methu gweithredu o gwbl yr un mor anodd. Efallai y dylen ni ymagweddu'n hollol wahanol, fel mae Maurice Wiles yn ei wneud, a dweud mai gwyrth yw popeth o ran bod unrhyw fodolaeth o gwbl.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth ynghylch y cwestiwn.**

# Thema 3 U2: Iaith grefyddol (rhan 1)

## 3A U2 Problemau cynhenid iaith grefyddol

### Profi eich hun, tudalen 91

1 Pam mae'n broblem i iaith grefyddol os ydyn ni'n disgrifio Duw fel bod anfeidrol?

Nodwedd haniaethol yw anfeidredd. Mae hyn yn golygu nad oes ganddi unrhyw gysylltiad â'r hyn y gallwn ni gael profiad ohono yn y byd empirig. Felly, mae'n anodd gwybod beth yw ei hystyr mewn gwirionedd.

2 Sut mae problem drygioni'n dangos bod datganiadau crefyddol yn annealladwy?

Mae'n tynnu sylw at honiadau iaith grefyddol sy'n ymddangos yn anghyson neu'n baradocsaidd. Paradocs yw problem drygioni, gan fod theistiaid yn honni bod Duw yn hollalluog ac yn hollraslon ac eto maen nhw'n cydnabod ein bod ni'n dioddef.

3 Pam mae testunau sanctaidd yn ychwanegu at y broblem hon?

Mae'n amhosibl inni gredu mai ffeithiau yw honiadau ysgrythurol yn yr un ffordd ag y gallen ni gredu honiad arferol am y byd, felly mae'r ystyr yn aneglur iawn.

Mae'r iaith grefyddol sydd yn yr ysgrythurau'n ymwneud â chysyniadau neu syniadau metaffisegol nad ydyn nhw'n ymwneud â'r byd empirig.

### Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 92

A yw'r problemau hyn yn gwneud iaith grefyddol yn ddiystyr? Ystyriwch y canlynol:

1 A yw iaith anghrefyddol yn gallu bod yn oddrychol weithiau?

Ydy – Mae'n gallu bod, bryd bynnag mae'n sôn am deimladau, syniadau neu agweddau. Mae unrhyw sôn am foeseg, emosiynau, barddoniaeth, celf neu gerddoriaeth yn gallu bod yn oddrychol. Byddai rhai'n dadlau, os yw'n an-wybyddol, yna mae'n ddiystyr.

Nac ydy – Mae hi hyd yn oed yn bosibl rhoi agweddau a theimladau ar brawf i ryw raddau. Rwy'n gallu dweud a yw rhywun yn hapus wrth ei fynegiant wyneb neu ei ymddygiad. Felly mae'r frawddeg 'Rwy'n teimlo'n hapus' yn ystyrlon. Ond does dim byd y gallaf ei wneud byth i roi iaith grefyddol ar brawf i weld a yw hi'n wir.

2 A oes modd i osodiadau anghrefyddol ddefnyddio terminoleg haniaethol weithiau?

Nac oes – Mae pob iaith anghrefyddol yn ymwneud mewn rhyw ffordd â'r byd empirig.

Oes – Mae holl gangen athroniaeth sy'n cael ei galw'n fetaffiseg yn ymwneud â chysyniadau haniaethol fel amser, bod, lle a gwybodaeth. Nid syniadau crefyddol yw'r rhain o reidrwydd, er bod pobl grefyddol yn eu hystyried nhw hefyd.

3 A yw hi byth yn bosibl deall yr ystyr pan mae rhywun yn disgrifio ei deimladau?

Nac ydy – Ein teimladau ein hunain yn unig y gallwn ni eu hadnabod oherwydd mai dyma'r unig rai y gallwn ni eu profi. Efallai bydd pobl eraill yn defnyddio'r un derminoleg, ond mae'n amhosibl i ni wybod eu bod nhw'n teimlo'r un ffordd.

Ydy – Fel bodau dynol mae ein cyfansoddiad corfforol a chemeg yr ymennydd yn golygu bod rhaid bod ein greddfau a'n teimladau yn debyg i ryw raddau. Rwy'n gwybod pa fath

o deimlad rwy'n ei gael wrth wenu, felly gallaf drosglwyddo'r syniad hwnnw a'i gymhwyso i bobl eraill rwy'n eu gweld nhw'n gwenu.

### Profi eich hun, tudalen 92

1 Pam gallai'r gair 'gras' fod yn fwy anodd i anghrediniwr ei ddeall?

Mae'r gair 'gras' yn derminoleg benodol sydd ddim yn ymwneud â'r byd ffisegol; mae'n fwy seiliedig ar ffydd neu brofiad crefyddol, nad yw anghredinwyr yn eu rhannu.

2 Os yw terminoleg grefyddol yn oddrychol, nid yn wrthrychol, sut mae hyn yn ychwanegu at y broblem?

Mae'n amhosibl gwybod a yw'n gywir neu'n anghywir (mae'n an-wybyddol).

3 Os yw iaith grefyddol yn an-wybyddol, pam na allwn ni ei phrofi i weld a yw'n gywir neu'n anghywir?

Oherwydd ei bod hi'n mynegi agweddau neu ddehongliadau, nid ffeithiau yn y byd empirig.

## 3B U2 Iaith grefyddol yn wybyddol (safbwynt crefyddol traddodiadol) ond yn ddiystyr (safbwynt Positifiaethwyr Rhesymegol)

### Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 96

A yw egwyddorion gwirio ac anwirio yn profi bod iaith grefyddol yn ddiystyr? Ystyriwch y canlynol:

1 A oes unrhyw dystiolaeth sy'n gallu cyfrif tuag at yr Egwyddor Wirio?

Nac oes – Mae'r Egwyddor Wirio yn ddiystyr. Does dim byd yn gallu cyfrif fel tystiolaeth mai tawtoleg yw'r unig osodiadau ystyrlon neu osodiadau sydd â thystiolaeth ffisegol i'w profi.

Oes – Mae'n bosibl cytuno'n gyffredinol ar osodiadau synthetig a dadansoddol ac mae hyn yn cyfrif fel tystiolaeth i gefnogi'r Egwyddor Wirio.

2 A oes unrhyw iaith yn dal i fod yn ddiystyr os ydyn ni'n cymhwyso gwirio gwan neu wirio mewn egwyddor?

Nac oes – Y broblem yma yw bod addasiad Ayer yn gwneud pob iaith yn ystyrlon ac nad yw hyn yn ein helpu i ddod o hyd i faen prawf ystyr o gwbl.

Oes – Mae rhai mathau o iaith grefyddol yn dal i fod yn ddiystyr. Er enghraifft, dydyn ni ddim yn gwybod o hyd beth yw ystyr sôn am ras Duw neu derminoleg arall benodol i grefydd. Yn yr achosion hyn, dydyn ni ddim yn gwybod am beth y bydden ni'n gwirio mewn egwyddor neu ba dystiolaeth bosibl a allai gyfrif tuag ati.

3 Pam mae Dameg y Teganau yn y Cwpwrdd yn ystyrlon os nad yw hi'n bosibl ei hanwirio?

Dydy hi ddim yn ystyrlon os nad oes dim byd y gallwn ni ei wneud i'w hanwirio hi. Yn ogystal, nid bod yn honiad ffeithiol yw ei bwriad beth bynnag ac felly mae'n ddiystyr.

Mae hi'n dal yn bosibl i ni anwirio pob elfen unigol o'r gosodiad gan Swinburne. Gallwn ni wirio beth yw ystyr teganau, symudiad a pheidio ag edrych. Felly, wrth eu rhoi nhw at ei gilydd, mae hi'n dal yn bosibl iddyn nhw olygu rhywbeth.

## Profi eich hun, tudalen 97

1 Pa fathau o iaith sy'n ystyrlon yn ôl Cylch Vienna?

Dadansoddol (iaith sy'n ymwneud â gosodiadau rhesymegol fel tawtoleg) a synthetig (iaith sy'n ymwneud ag eitemau materol y mae'n bosib gwirio a rhoi ar brawf).

2 Pa addasiadau a wnaeth Ayer i'r Egwyddor Wirio?

- Gwirio ar waith – Mae gwirio gwirionedd neu anwiredd y gosodiad yn ymarferol bosibl.
- Gwirio mewn egwyddor – Rydyn ni'n gwybod mewn egwyddor beth sydd ei angen er mwyn gwirio, ond mae'n anymarferol.
- Gwirio cryf – Mae gosodiad yn cael ei wirio'n bendant yn empirig.
- Gwirio gwan – Mae peth tystiolaeth empirig yn cyfrif tuag at osodiad, fel ei fod yn debygol.

3 Beth yw ystyr dweud bod yr Egwyddor Wirio yn amhosibl ei gwirio?

Nid gosodiad dadansoddol yw'r Egwyddor Wirio ei hun ac felly mae'n amhosibl ei gwirio yn erbyn tystiolaeth empirig. Yn ôl ei meini prawf ei hun, mae hyn yn ei gwneud hi'n osodiad diystyr.

4 Pa fathau o osodiadau problemus y mae'r Egwyddor Wirio yn eu gwneud yn ddiystyr?

Mae'n amhosibl gwirio gosodiadau hanesyddol, ac mae'n amhosibl gwirio gosodiadau gwyddonol hollgyffredinol. Mae hyn yn cyfyngu'n sylweddol ar y rhestr o osodiadau ystyrlon.

5 Beth yw ystyr Parabl y Ddinas Nefol?

Mae'r ffordd yn symbol o fywyd dynol, a chrediniwr ac atheist yw'r teithwyr. Dydy'r naill na'r llall ddim yn gallu bod yn siŵr am fodolaeth y ddinas nefol (y nefoedd neu fywyd ar ôl marwolaeth) ond mae'n rhaid iddyn nhw deithio drwy eu bywydau beth bynnag. Byddwn ni'n darganfod a oes bywyd ar ôl marwolaeth ar ôl i ni gyrraedd diwedd oes.

# 3C U2 Iaith grefyddol yn an-wybyddol a chydweddiadol

## Profi eich hun, tudalen 99

1 Beth yw cydweddiad?

Cymhariaeth sy'n cael ei gwneud rhwng dau beth nad ydyn nhw'n unfath ond sy'n rhannu tebygrwydd.

2 Sut gallwn ni gymharu Duw â phethau yn y byd?

Duw yw achos effeithlon popeth yn y bydysawd. Mae'n rhaid bod achos yn meddu ar y nodweddion y mae'n eu hachosi, felly mae'n rhaid i unrhyw beth o'r byd yr ydym yn ei gymharu â Duw fod yn debyg iddo Ef.

3 Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cydweddiad priodoli a chydweddiad cyfrannedd?

- Cydweddiad priodoli – Mae Duw yn cael ei gymharu â phethau'r byd oherwydd mai Duw yw achos y pethau hynny.
- Cydweddiad cyfrannedd – Mae'r gymhariaeth yn cael ei graddio yn ôl mawredd y bod sy'n cael ei gymharu.

## Profi eich hun, tudalen 100

1 Pam mae angen i iaith grefyddol fod yn rhyfedd?

Mae hi'n mynegi eiliad o ryfeddod.

2 Beth mae enghraifft nofiwr Ramsey yn ei ddangos i ni?

Mae hi'n dangos model achosion i ni sy'n gyfarwydd i bawb (lle mae amrywiaeth o bethau corfforol yn achosi gweithred nofiwr sy'n plymio). Pan rydyn ni'n ychwanegu'r goleddfydd ('yn gyntaf'), rydyn ni'n gwybod bod y ffordd y dylen ni ddeall achos ychydig yn wahanol i'r holl achosion corfforol eraill. Mae cadwyn o achosion yn gallu achosi symudiad y nofiwr yn gorfforol, ond penderfyniad i blymio yw'r achos 'cyntaf' – mae'n debyg, ond eto i gyd yn wahanol o ran natur, i'r mathau eraill o achosion.

3 Beth mae enghraifft y llys barn yn bwriadu ei esbonio?

Mae iaith grefyddol yn ychwanegu ystyr at eiriau sy'n cael eu defnyddio. Mae goleddfydd yn gadael i'r oleuedigaeth hon ddigwydd, yn yr ystyr bod gair yn ychwanegu golau a dealltwriaeth lle nad oedd y rhain o'r blaen. Mae'r 'gair rhyfedd' yn y stori yn gwneud i'r barnwr a'r diffinydd fod yn fwy eglur yn yr un ffordd.

## Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 101

A yw'r cysyniad o gydweddiad yn gwneud iaith grefyddol yn ystyrlon? Ystyriwch y canlynol:

1 A allwn ni wybod unrhyw ffeithiau am Dduw os ydyn ni'n defnyddio cydweddiad i siarad amdano Ef?

Gallwn – Mae pob cydweddiad yn gallu rhoi gwirionedd i ni, nid y gwirionedd i gyd yn unig.

Na allwn – Mae'n rhaid dehongli cydweddiad a does dim ffordd o wybod a ydyn ni'n ei ddehongli'n gywir.

2 A yw pob iaith grefyddol yn gydweddiadol? Sut gallwn ni wybod?

Ydy – Roedd Aquinas yn teimlo bod yn rhaid bod unrhyw sôn am Dduw yn gydweddiadol oherwydd na allwn ni sôn yn llythrennol am ei nodweddion, gan mai iaith gyfyngedig sydd gennym ni i wneud hynny.

Nac ydy – Mae peth iaith grefyddol o leiaf yn ceisio gwneud honiadau llythrennol am Dduw neu am ei weithredoedd. Er enghraifft, mae disgwyl i Gristnogion gredu bod Crist

wedi marw'n llythrennol ac wedyn iddo gael ei atgyfodi, fel arall does dim pwrpas i'r grefydd.

3 Yn eich barn chi, sut gallai credinwyr crefyddol ymateb i rywun sy'n dweud bod iaith grefyddol yn gydweddiadol?

Yn gadarnhaol – Mae'r ysgrythur yn gwneud mwy o synnwyr os yw hi'n cael ei gweld yn gydweddiadol. Yn hytrach na bod yn rhaid credu mewn gosodiadau paradocsaidd, mae'n bosibl eu gweld nhw fel rhai anllythrennol ac felly efallai eu bod nhw'n dderbyniol. Mae'n gwneud mwy o synnwyr yn yr oes fodern.

Yn negyddol – Mae'n lleihau honiadau crefyddol i fod yn storïau y mae'n rhaid eu hailadrodd air am air ond sy'n ffuglen gyda moeswers gudd bosibl). Mae honiadau crefyddol yn bwysicach na hyn.

# Cwestiynau enghreifftiol

## Cwestiynau enghreifftiol AA1, tudalen 105

1 Esboniwch yr Egwyddor Wirio gan gyfeirio at A. J. Ayer.

- Datblygodd Positifiaeth Resymegol yn y 1920au gyda grŵp o athronwyr o'r enw Cylch Vienna. Eu nod oedd pennu meini prawf ystyr cyffredin ar gyfer iaith.
- Rhannon nhw iaith yn osodiadau dadansoddol a synthetig. I Gylch Vienna, dyna'r unig fathau o iaith sy'n gallu bod ag ystyr.
- Mae gosodiadau dadansoddol yn deillio o reswm, fel gosodiadau mathemategol neu dawtoleg. Er enghraifft, mae 2 + 2 = 4 neu 'Mae'r iâ wedi rhewi' yn ystyrlon. Eto i gyd, dydyn nhw ddim wir yn dweud dim byd wrthon ni oherwydd eu bod nhw'n hunanamlwg.
- Mae gosodiadau synthetig yn deillio o arsylwi ar y byd materol. Maen nhw'n dweud wrthon ni am y byd. Er enghraifft, gosodiad synthetig yw 'Mae fy het yn wyrdd' ac mae'n bosibl ei gwirio wrth i berson arall edrych ar fy het. Felly mae gosodiadau synthetig yn ystyrlon.
- Dyma sut sefydlodd Cylch Vienna yr Egwyddor Wirio. Mae unrhyw osodiad nad yw'n bosibl ei wirio drwy arsylwi na rhesymu yn ddiystyr ac yn methu cael ei ddadansoddi'n athronyddol.
- Felly mae pob gosodiad crefyddol yn ddiystyr oherwydd nad oes ffordd o'i wirio â thystiolaeth empirig.
- Cymerodd A. J. Ayer safbwynt y Positifiaethwyr Rhesymegol hefyd. Arsylwodd anawsterau gyda system ddosbarthu Cylch Vienna, gan eu bod nhw'n gwneud rhai gosodiadau hanesyddol a gwyddonol yn ddiystyr. I ddatrys hyn, ychwanegodd Ayer ragor o gategorïau at yr Egwyddor Wirio.
- Mae gwirio ar waith Ayer yn golygu ei bod hi'n ymarferol bosibl gwirio a yw gosodiad yn gywir neu'n anghywir, ac felly mae'n bosibl ei fod yn ystyrlon. Mae hyn yn golygu bod fy ngosodiad 'Mae fy het yn wyrdd' yn ystyrlon, ond nid felly'r gosodiad 'Mae Duw yn gariadus'. Dydy'r gosodiad 'Mae gan bob aderyn ddwy goes' ddim yn ystyrlon

chwaith oherwydd ei bod hi'n amhosibl yn ymarferol i mi fynd a dod o hyd i bob aderyn sydd wedi bodoli erioed er mwyn gwirio a yw'r gosodiad yn wir.

- Nod Ayer oedd ceisio ymdrin â hyn drwy ei wirio mewn egwyddor. Ond i ni wybod mewn egwyddor beth sydd ei angen er mwyn gwirio, mae'r gosodiad yn ystyrlon. Mae hyn yn golygu, yn enghraifft yr aderyn, er ei bod hi'n anymarferol gwirio pob aderyn, rwy'n gwybod beth byddwn i'n ei wneud yn ddamcaniaethol. Fodd bynnag, mae hyn yn dal i wneud gosodiadau crefyddol yn ddiystyr, oherwydd ei bod hi'n amhosibl i mi wybod sut i wirio bod Duw yn gariadus.
- Yn ogystal, gwnaeth Ayer wahaniaethu rhwng gwirio cryf a gwirio gwan. Os yw gosodiad yn cael ei wirio'n empirig yn derfynol (hynny yw, gallwn ni wirio a bod â chasgliad diamheuol ynghylch gwirionedd y gosodiad), yna mae'n ystyrlon, yn ôl gwirio cryf.
- Os oes peth tystiolaeth empirig o blaid gosodiad, gan ei wneud yn debygol, yna gwirio gwan yw hyn. Mae Ayer yn gadael i hyn fod yn ystyrlon hefyd. Nawr mae gosodiadau hanesyddol neu hollgyffredinol yn gallu bod yn ystyrlon oherwydd bod peth tystiolaeth ar gael i gefnogi'r honiad, ond does gan osodiadau crefyddol ddim tystiolaeth empirig i'w cefnogi o hyd, felly maen nhw'n ddiystyr.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

2 Archwiliwch sut mae problemau cynhenid yn her i iaith grefyddol.

- Un o broblemau cynhenid iaith grefyddol yw ei bod hi'n rhy gyfyngedig i allu sôn yn gywir am natur Duw.
- Dywedir bod gan Dduw nifer o rinweddau, fel bod yn hollraslon, yn hollalluog, yn anfeidrol ac yn oesol. Pan ddisgrifir natur Duw, mae nodwedd haniaethol yn cael ei diffinio. Mae hyn yn golygu nad oes ganddi unrhyw gysylltiad â'r hyn y gallwn ni gael profiad ohono yn y byd empirig, ac felly mae'n anodd gwybod beth yw ei hystyr mewn gwirionedd.
- Er enghraifft, mae Duw yn:
    - Anfeidrol (yn iaith y capel)/Anfeidraidd – Bodau meidrol a meidraidd ydyn ni ac mae'r byd rydyn ni'n rhan ohono yn feidrol/feidraidd hefyd. Felly, mae'n amhosibl i ni ddeall mewn gwirionedd beth yw ystyr anfeidrol/anfeidraidd gan na allwn ni gael profiad ohono ein hunain.
    - Diamser – Mae popeth rydyn ni'n ei brofi yn digwydd mewn amser. Felly, dydy hi ddim yn bosibl i ni wybod beth yw bodoli y tu allan i amser.
- Mae her gynhenid arall i iaith grefyddol yn ymwneud â'r ysgrythurau ac â dysgeidiaethau crefyddol.
- Mae'r ysgrythurau neu ddysgeidiaethau crefyddol yn aml fel petaen nhw'n gwneud honiadau sy'n anghyson neu'n baradocsaidd. Paradocs yw problem drygioni, gan fod theïstiaid yn honni bod Duw yn hollalluog ac yn hollraslon ac eto maen nhw'n cydnabod ein bod ni'n dioddef. Mae honiadau eraill sydd fel petaen nhw'n anghyson. Er enghraifft, 'Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw' (Ioan 11:25) – diffinnir marwolaeth fel diwedd bywyd – felly sut mae bywyd ar ôl marwolaeth yn bosibl?

- Mae'n amhosibl i ni gredu bod y rhain yn ffaith yn yr un ffordd ag y gallen ni gredu honiad cyffredin am y byd. Felly gallai rhai geisio awgrymu mai honiadau trosiadol, neu ysbrydoledig, ydyn nhw. Os felly, mae'r ystyr yn aneglur iawn.
- Mae'r iaith grefyddol sydd yn yr ysgrythur ac mewn dysgeidiaeth yn ymwneud â chysyniadau neu syniadau metaffisegol. Os dechreuwn ni drafod a yw Duw yn bodoli, a oes bywyd ar ôl marwolaeth, neu eneidiau neu ysbrydion, yna rydyn ni'n sôn am bethau metaffisegol. Mae'n mynd yn anodd iawn deall beth sy'n cael ei olygu neu ei fwriadu oherwydd nad ydyn nhw'n gysylltiedig â'r byd empirig.
- Her arall yw nad yw iaith grefyddol yn sylfaen nac yn brofiad cyffredinol a rennir. Mae'r iaith rydyn ni'n ei defnyddio'n dod o'r byd materol, ac rydyn ni i gyd yn cael profiad ohono. Mae'n disgrifio profiadau synhwyraidd ac yn ceisio eu deall. Fodd bynnag, mae crefydd yn defnyddio terminoleg benodol sydd ddim yn ymwneud â'r byd ffisegol ond sy'n seiliedig ar ffydd neu brofiad crefyddol.
- Does dim sylfaen gyffredin i'r iaith rydyn ni'n ei defnyddio a therminoleg grefyddol. Er enghraifft:
  - Gras – Sylwedd heb ei greu y mae Duw yn ei roi i ni.
  - Sancteiddrwydd – Duwioldeb neu gysegredigrwydd.
- Mae'r rhain yn syniadau nad ydyn nhw'n trosi i unrhyw beth y tu allan i gyd-destun crefyddol, felly efallai na fydd crediniwr crefyddol yn gallu cyfleu unrhyw beth am ei grefydd i anghrediniwr.
- Yn olaf, ateb rhai pobl i'r problemau uchod yw ceisio ymagweddu'n an-wybyddol at ddeall iaith grefyddol. Dydy iaith an-wybyddol ddim yn mynegi gosodiadau gwrthrychol, ond mae hi'n mynegi agweddau neu ddehongliadau.
- Os defnyddir iaith grefyddol yn wybyddol, mae'n amhosibl rhoi prawf ar honiadau sy'n cael eu gwneud gan ddefnyddio tystiolaeth empirig. Felly, byddai rhai'n dadlau nad yw hi'n gallu bod yn ystyrlon.
- Os yw hi'n bosibl rhoi prawf ar iaith grefyddol, yna gallai fod yn bosibl profi bod y gosodiadau'n anghywir. Mae hyn yn broblem oherwydd wrth gwrs byddai pobl grefyddol yn dadlau bod eu gosodiadau'n gywir yn ôl datguddiad Duw.
- Fodd bynnag, os defnyddir iaith grefyddol yn an-wybyddol, yna mae'n anodd deall yr agwedd oddrychol sy'n cael ei mynegi oherwydd ei bod hi'n amhosibl ei rhannu ag eraill ac mae'n amhosibl dweud ei bod hi'n gwneud unrhyw honiadau ffeithiol.
- Byddai credinwyr yn gwrthod y syniad nad yw eu honiadau'n seiliedig ar ffeithiau.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

3 Cymharwch ymagweddau gwirio ac anwirio.

| Gwirio | Anwirio |
|---|---|
| Yr Egwyddor Wirio – Mae'n bosibl ystyried bod gosodiad yn ystyrlon dim ond os oes dull i'w ddefnyddio i brofi ei wirionedd. | Yr Egwyddor Anwirio – Mae'n bosibl ystyried bod gosodiad yn ystyrlon dim ond os oes dull i'w ddefnyddio i brofi ei anwiredd. |
| Cylch Vienna, A. J. Ayer | Karl Popper, Anthony Flew |

| **Gwirio** | **Anwirio** |
|---|---|
| Sefydlodd Cylch Vienna dri chategori o iaith:<br>• Dadansoddol (ystyrlon) – Rhesymegol, mathemategol, tawtoleg, e.e. 2 + 2 = 4 neu 'Mae'r iâ wedi rhewi'<br>• Synthetig (ystyrlon) – Mae'n bosibl ei gwirio yn erbyn tystiolaeth empirig, e.e. 'Mae fy het yn wyrdd'<br>• Diystyr – Pob math arall o iaith, e.e. 'Mae Duw yn dda'. | Mae iaith yn ystyrlon os oes dull ar gael er mwyn dangos ei bod hi'n anghywir. Er enghraifft, ar gyfer 'Mae pob alarch yn wyn', does dim angen dod o hyd i bob alarch, y cyfan sydd ei angen yw dod o hyd i un alarch sydd ddim yn wyn. |
| Ychwanegodd Ayer fathau gwahanol o wirio:<br>• Gwirio cryf – Gallwn ni wirio'r dystiolaeth a bod yn sicr am yr honiad.<br>• Gwirio gwan – Mae peth tystiolaeth sy'n gallu gwneud datganiad yn debygol.<br>• Gwirio mewn egwyddor – Rwy'n gwybod beth gallwn i ei wneud i wirio, ond dydw i ddim yn ei wneud mewn gwirionedd.<br>• Gwirio ar waith – Rwy'n gwirio'r dystiolaeth mewn gwirionedd.<br>Yn ôl ei ddamcaniaeth, roedd iaith grefyddol yn dal i fod yn ddiystyr os oedd yr egwyddorion hyn yn cael eu cymhwyso. | Rhoddodd Flew ddameg y garddwr i ddangos y problemau gydag iaith grefyddol:<br>Mae dau fforiwr yn cyrraedd gardd yn y jyngl. Mae un fforiwr yn honni bod garddwr sy'n gofalu amdani, mae'r llall yn dweud nad oes garddwr. Maen nhw'n aros i wylio ac yn gosod profion a maglau i ddal y garddwr, ond yn ofer. Mae un fforiwr yn dal i honni bod garddwr, ond ei fod yn anweledig, yn amhosibl ei gyffwrdd ac yn methu teimlo poen.<br>Mae hi'n amhosibl anwirio honiadau'r fforiwr oherwydd ei fod yn gwrthod gadael i unrhyw dystiolaeth gyfrif yn ei erbyn. |
| Mae addasiadau Ayer yn golygu bod amrywiaeth ehangach o iaith yn ystyrlon, ond bod iaith grefyddol yn dal yn ddiystyr oherwydd nad oes prawf ar gael i wirio bod Duw neu honiadau tebyg. | Mae pobl grefyddol yn ailddiffinio termau crefyddol drwy'r amser i'w hatal rhag cael eu hanwirio, felly mae iaith grefyddol yn ddiystyr oherwydd ei bod hi'n amhosibl ei hanwirio hi. |
| Hefyd gwadodd Ayer y gallen ni wybod mewn egwyddor beth gallwn ni ei wneud i wirio honiadau am Dduw, gan fod honiadau fel hyn yn cyfeirio at nodweddion metaffisegol nad oes ganddyn nhw realiti yn y byd hwn. | Erbyn i dermau crefyddol gael eu hailddiffinio dro ar ôl tro, does dim gwahaniaeth rhwng eu Duw nhw a dim duw o gwbl: 'Mae Duw yn marw marwolaeth 1,000 o addasiadau.' |

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

4 Esboniwch yr ymagwedd gydweddiadol at iaith grefyddol gan **y ddau hyn:** Aquinas **a** Ramsey.

- Un ateb i broblemau iaith grefyddol yw ei bod hi'n gydweddiadol. Mae'r maen prawf ystyr hwn yn honni nad ydyn ni i fod i ddeall gosodiadau am Dduw yn llythrennol, ond eu bod nhw'n cymharu Duw – bod trosgynnol, tragwyddol, heb gorff – â phethau/bodau yn y byd.

- Dysgodd Aquinas, wrth i ni ddefnyddio enwau Duw, fod dwy ffordd o ddeall iaith:
  - Diamwys – Iaith y mae'n bosibl ei deall mewn un ffordd yn unig. Mae'n amhosibl ei dehongli'n wahanol.
  - Amwys – Iaith sydd â nifer o ystyron posibl, y mae pob un ohonyn nhw yr un mor ddilys â'i gilydd.
- Does dim un o'r rhain yn addas i sôn am Dduw. Iaith ddynol am y byd empirig yw'r cyfan sydd gennym ni, ac felly mae'n amhosibl iddi olygu'r un peth pan rydyn ni'n ei defnyddio i sôn am Dduw. Eto i gyd, mae ei hangen i gyfleu gwirionedd a gwybodaeth gywir amdano Ef. Felly, mae'n rhaid iddi fod yn eglur ac yn ddealladwy.
- Mae Aquinas yn dadlau bod trydydd posibilrwydd – iaith gydweddiadol – yn ffordd ganol rhwng y ddwy hyn. Gallwn ni wybod beth yw ystyr gosodiadau crefyddol, nid oherwydd ein bod ni'n gallu adnabod Duw yn uniongyrchol, ond oherwydd y gallwn ni wneud cydweddiadau rhwng y byd a Duw.
- Fel yr achos effeithiol, Duw yw achoswr diachos popeth yn y bydysawd. Mae'n rhaid bod gan achos y nodweddion y mae'n eu hachosi. Felly, mae 'mae Duw yn dda' yn ystyrlon oherwydd gallwn ni weld daioni yn y byd y mae Duw wedi'i achosi. Dydy daioni ddim yn unfath â Duw, cymhariaeth yn unig yw hi. Gallwn ni siarad am Dduw yn gywir, ond nid yn gynhwysfawr.
- Mae dwy ffordd wahanol y gallen ni wneud cymariaethau rhwng Duw a ni:
  - Cydweddiad priodoli – Mae Duw yn cael ei gymharu â phethau'r byd oherwydd mai Duw yw achos y pethau hynny. Er enghraifft, 'Gwnaeth ef y ddaear trwy ei nerth, sicrhaodd y byd trwy ei ddoethineb, estynnodd y nefoedd trwy ei ddeall' (Jeremeia 10:12). Mae'n bosibl cymhwyso nerth, doethineb a dealltwriaeth i Dduw oherwydd mai Ef a'u hachosodd nhw ynon ni, a gallwn ni weld hyn yn y byd.
  - Cydweddiad cyfrannedd – Mae'r gymhariaeth yn cael ei graddio yn ôl mawredd y bod sy'n cael ei gymharu. Er enghraifft, 'Molwch yr Arglwydd, oherwydd da yw ef' (Salm 135:3). Rydyn ni'n deall daioni yn y byd, a gallwn ni ei chwyddo yn ein meddyliau er mwyn deall daioni mwy Duw.
- Roedd Ian Ramsey yn honni ei bod hi'n angenrheidiol bod iaith grefyddol yn 'rhyfedd' gan ei bod hi'n mynegi eiliad o ryfeddod. Mae angen dwy elfen er mwyn gallu siarad yn ystyrlon am Dduw:
  - Modelau – Rydyn ni i gyd yn gyfarwydd â'r gair hwn; mae'n gallu cael ei ddefnyddio i'n galluogi ni i adnabod nodweddion sefyllfa anghyfarwydd, e.e. 'Mae Duw yn dda'. Da yw'r model rydyn ni'n gyfarwydd ag ef, ond dydy e ddim yn ddigon i ddeall natur Duw o'i ddefnyddio ar ei ben ei hun.
  - Goleddfwyr – Ychwanegir y gair hwn i addasu'r model ac i ddatgelu. Mae'n goleddfu'r model ac yna yn ei ddatblygu mewn cyfeiriad defnyddiol, e.e. 'Mae Duw yn annherfynol o dda'. Annherfynol yw'r goleddfydd sy'n esbonio sut dylen ni ddeall y model.
- Mae nodweddion eraill Duw yn gweithredu yn yr un ffordd. Mae Duw yn annherfynol o ddoeth, yn greawdwr ex nihilo, pwrpas tragwyddol. O ychwanegu'r goleddfydd, datgelir rhywbeth; 'mae'r goleuni'n gwawrio', 'mae'r geiniog yn disgyn', ac rydyn ni'n deall mewn ffordd ddwfn. Mae'r datgelu hwn yn fewnwelediad i'r dwyfol sy'n amhosibl ei fynegi. Mae'n ysgogi ymdeimlad o ryfeddod ac ymrwymiad.

- Mae Ramsey yn adrodd y stori ganlynol: Mae Mr Ustus Jones yn cyrraedd y llys wedi'i wisgo mewn wig, gyda gŵn ysgarlad a ffwr carlwm. Bwriad y rhain yw ei amhersonoli. Hen ffrind coleg iddo yw'r diffinydd. Dydyn nhw ddim yn adnabod ei gilydd tan i air rhyfedd fel 'Sam' gael ei gynnwys yn y sgwrs. Mae'r llys wedi'i wefreiddio wrth i'r geiniog ddisgyn, wrth i'r iâ ddadmer ac mae pawb yn deall bod dyfnder ac elfen bersonol i'w sefyllfa nhw.
- Rhaid i fodel gael ei oleddfu cyn ei fod yn ddefnyddiol i sôn am Dduw oherwydd bod yn rhaid iddo fod yn ddigon rhyfedd fel ei bod hi'n bosibl i Dduw gael ei ddatgelu.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

5 Archwiliwch yr heriau i anwirio gan Hare, Mitchell **a** Swinburne.

- Yn egwyddor anwirio Frew, mae'n honni nad yw credinwyr crefyddol yn gadael i unrhyw dystiolaeth gyfrif yn erbyn eu honiadau. Fel y fforiwr yn ei addasiad o Ddameg y Garddwr Anweledig gan Wisdom, mae credinwyr crefyddol yn goleddfu eu honiadau am Dduw dro ar ôl tro fel nad yw hi'n bosibl profi eu bod nhw'n anghywir.
- Mae Hare yn herio honiad Flew drwy honni bod pawb yn gweld y dystiolaeth o'u blaenau o flic gwahanol. Cred sy'n sail i fydolwg yw blic. Ychydig fel gwisgo sbectol ac arlliw arnyn nhw, mae pawb yn gweld y byd drwy arlliw gwahanol. Yn nadl y brifysgol, adroddodd Hare Ddameg y Myfyriwr Paranoid:
- Mae myfyriwr paranoid yn argyhoeddedig bod pob un o'i ddarlithwyr eisiau ei ladd. Mae ei ffrindiau'n ei gyflwyno i rai o'r darlithwyr mwyaf dymunol y gallan nhw ddod o hyd iddyn nhw. Wedyn maen nhw'n gofyn i'r myfyriwr, 'Does bosibl dy fod ti'n credu eu bod nhw eisiau dy ladd di nawr?' Ond mae'r myfyriwr yn ateb, 'Dim ond esgus maen nhw, maen nhw'n cynllwynio yn fy erbyn i drwy'r amser!'
- Mae'r ffrindiau a'r gwallgofddyn yn wahanol oherwydd bod ganddyn nhw fliciau gwahanol. Maen nhw'n dehongli'r dystiolaeth o'u blaenau nhw'n wahanol ac felly does dim gwahaniaeth faint o dystiolaeth a gyflwynir, byddan nhw'n deall yr hyn y maen nhw'n ei weld mewn ffyrdd gwahanol.
- Er enghraifft, efallai bydd crediniwr crefyddol ac atheist yn gweld yr un eitemau empirig yn y byd. Bydd yr atheist yn dehongli llygad, er enghraifft, drwy ei flic fel canlyniad rhyfeddol prosesau esblygiad sydd wedi digwydd drwy hap a damwain a thrwy addasu i'r amgylchedd. Bydd crediniwr yn tystio i'r un dystiolaeth ac yn ei gweld drwy ei flic fel tystiolaeth o ddyluniad deallus at bwrpas.
- Yn ôl Mitchell, dydy pobl grefyddol ddim yn gadael i dystiolaeth gyfrif yn erbyn eu honiadau, ond maen nhw wedi ymrwymo'n barod i safbwynt ffydd am resymau eraill. I esbonio ei bwynt, mae'n adrodd Dameg y Partisan a'r Dieithryn:
- Amser rhyfel, mae partisan yn cwrdd â dieithryn sy'n honni ei fod yn rheoli'r gwrthsafiad yn erbyn y gelyn ac mae'n argyhoeddi'r partisan i ymddiried ynddo. Wedyn, mae'r partisan yn gweld y dieithryn yn helpu'r ddwy ochr. Mae ei ffrindiau'n meddwl ei fod yn wallgof ac yn tynnu ei sylw at y dieithryn wrth iddo drosglwyddo gwladgarwyr i'r heddlu. Mae'r partisan yn meddwl bod hon yn dystiolaeth ddamniol ond mae'n dal i'w helpu oherwydd ei fod yn ymddiried ynddo, ar sail eu sgwrs gyntaf.
- Mae Mitchell yn nodi bod gan gredinwyr crefyddol ffydd yn Nuw ar y dechrau, felly pan mae materion fel problem drygioni yn eu hwynebu, maen nhw'n dal i ymddiried yn Nuw – er bod y dystiolaeth yn codi problemau.

- Mae Swinburne yn cynnig her arall. Mae'n nodi, hyd yn oed os nad yw hi'n bosibl anwirio honiadau crefyddol, nad yw hyn yn eu gwneud nhw'n ddiystyr. Efallai fod rhai gosodiadau'n ystyrlon hyd yn oed os yw hi'n amhosibl eu hanwirio. Er enghraifft, dychmygwch deganau sy'n dod allan o'r cwpwrdd ac yn symud o gwmpas pan nad ydyn ni'n gwylio. Rydyn ni i gyd yn deall ystyr hyn, er nad oes dim y gallwn ni ei wneud i brofi bod y gosodiad yn anghywir.
- Gan nad oes dim y gallwn ni ei wneud i brofi bodolaeth Duw yn empirig, mae'n honiad amhosibl ei anwirio. Heb ystyried a yw honiadau fel hyn yn gywir neu'n anghywir, maen nhw'n ystyrlon oherwydd ein bod ni'n deall beth mae gosodiad fel hwn yn ei honni.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

## Cwestiynau enghreifftiol AA2, tudalen 105

1 'Mae anwirio'n hollol lwyddiannus wrth ddangos bod iaith grefyddol yn ddiystyr.' Gwerthuswch y safbwynt hwn.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Hollol lwyddiannus = Wedi cyflawni ei nod yn llawn, sef, yn yr achos hwn, dangos bod iaith grefyddol yn ddiystyr.

**Paragraff Un:**

- Mae anwirio'n hollol lwyddiannus oherwydd ei fod yn cymhwyso set gyson o feini prawf i bob math o iaith mewn ffordd wyddonol. Y canlyniad yw bod iaith grefyddol yn ddiystyr o'i mesur yn erbyn y meini prawf hyn.
- Fodd bynnag, er mwyn i anwirio fod yn hollol gyson, mae'n methu ei brawf ei hun a dydy hi ddim yn egwyddor sy'n bosibl ei hanwirio. Mae hyn yn golygu ei fod yn aflwyddiannus oherwydd, yn ôl ei feini prawf ei hun, mae'n ddiystyr nawr.
- Yn ogystal, mae blics Hare yn dangos bod y gallu i anwirio gosodiad yn eithaf dibynnol ar flic y bobl gysylltiedig. Mae hyn yn golygu efallai na fydd y peth rwy'n credu ei fod yn bosibl ei anwirio yn ymddangos yn bosibl ei anwirio i chi. Mae'r ffordd rydyn ni'n dehongli tystiolaeth yn hollol ddibynnol ar ein blic. Felly dydy anwirio ddim yn llwyddiannus wrth ddangos bod iaith grefyddol yn ddiystyr.

**Paragraff Dau:**

- Yr anhawster gydag egwyddor fel anwirio yw nad yw hi'n bosibl profi pob math o iaith yn erbyn yr un maen prawf oherwydd bod ganddi swyddogaethau amrywiol. Mae rhai mathau o iaith yn ymwneud â gwneud gosodiadau, ond mae math arall o iaith yn gallu dweud jôc, rhoi cyfarwyddiadau neu fynegi emosiwn. Dydy anwirio ddim yn llwyddiannus oherwydd nad yw hi'n bosibl anwirio unrhyw un o'r tair swyddogaeth hyn, ond maen nhw'n ystyrlon mewn ffyrdd gwahanol.
- Fodd bynnag, mae'n rhaid bod gan iaith synnwyr rhesymegol yn sail iddi fel bod athroniaeth yn bosibl. Os nad oes cysondeb rhesymegol, yna mae hi'n anodd gweld sut mae'n bosibl i unrhyw beth fod yn ystyrlon, felly mae anwirio'n effeithiol ac felly yn llwyddiannus.

- Yn ogystal, mae anwirio'n dangos sut dylen ni drin pob math o iaith yn ôl yr un maen prawf ystyr, fel bod ymagwedd deg a chyson at iaith. Os yw pobl yn tybio bod iaith grefyddol yn ddiystyr, dylen nhw wneud hyn ar ôl cymhwyso'r un maen prawf ystyr teg i bob math o iaith. Felly, mae'n llwyddiannus.

**Paragraff Tri:**

- Mae rhesymeg yn dweud, os ydyn ni'n gwneud honiad am wirionedd, dylai fod modd ei brofi yn y byd go iawn. Bwriad honiadau crefyddol am Dduw a'i natur yw bod yn osodiadau ac felly mae'n rhaid eu trin fel hynny. Felly, gan fod iaith grefyddol yn methu'r prawf, mae anwirio'n llwyddiannus wrth ddangos ei bod hi'n ddiystyr.
- Yn ogystal, mae anwirio'n amlygu tybiaeth bod pobl yn deall ystyr termau crefyddol. Pan rydyn ni'n ystyried y rhinweddau sy'n cael eu honni am Dduw yn ôl anwirio, gallwn ni weld nad oes gwahaniaeth rhwng y Duw hwn a dim duw o gwbl.
- Fodd bynnag, mae anwirio'n cyfyngu iaith ystyrlon i labelu eitemau yn yr eiliad bresennol. Mae unrhyw fath arall o iaith – iaith y gorffennol, iaith y dyfodol, iaith gyffredinol neu iaith sydd â swyddogaeth amgen – yn cael ei gwneud yn ddiystyr. Mae'n amhosibl mai fel hyn roedd Flew yn gweithredu yn ei fywyd pob dydd a'i berthnasoedd personol! Felly, mae anwirio'n methu.

**Casgliad:**

- Wrth ddod i gasgliad, mae dweud bod rhai mathau o iaith yn ddiystyr yn cyfyngu ar ddyfnder mynegiant dynol. Yn yr un ffordd ag yr amlygodd George Orwell yn *1984*, rydyn ni'n dileu cyfoeth ac amrywiaeth iaith os ydyn ni'n cymhwyso'r meini prawf hyn. Felly, er y gallai anwirio fod yn llwyddiannus wrth wneud iaith grefyddol yn ddiystyr, ddylai e ddim – oherwydd bod yn rhaid cael mwy na gosodiadau am ffeithiau moel er mwyn bod yn ddynol.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth ynghylch y cwestiwn.**

2 Gwerthuswch y safbwynt bod y cysyniad crefyddol o gydweddiad yn methu gwneud iaith grefyddol yn ystyrlon.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Yn methu = Ddim yn llwyddo. Mae hyn yn golygu nad yw cysyniad cydweddiad yn gweithio, ei fod yn anghyson neu'n anghywir.

**Paragraff Un:**

- Mae cysyniad cydweddiad yn llwyddo oherwydd ei fod yn ateb llawer o broblemau cynhenid iaith grefyddol. Mae'n derbyn bod yr iaith a ddefnyddir yn gyfyngedig. Drwy drin yr iaith hon fel cymhariaeth, mae'n ei galluogi i fod yn gywir os nad yw'n ddigon cynhwysfawr i ddisgrifio Duw yn llwyr.
- Fodd bynnag, ymagwedd an-wybyddol yw cydweddiad. Mae'n anodd gweld sut gallwn ni wybod a yw'r honiadau cydweddiadol am Dduw yn gywir. Mae hyn yn cyfyngu ar lwyddiant y ddamcaniaeth.
- Yn ogystal, mae ceisio defnyddio iaith gydweddiadol i ddisgrifio Duw yn arwain yn anochel at ddehongli. Hyd yn oed os yw'r math o iaith a ddefnyddir yn gywir, does dim

byd i sicrhau bod ein dehongliad yn gywir hefyd. Felly, mae iaith gydweddiadol yn methu.

**Paragraff Dau:**

- Mae Duw yn hollol annhebyg i ni, ond gan mai Duw yw ein hachos effeithiol, mae ambell beth sy'n bosibl ei gymharu rhyngon ni. Felly, mae cydweddiad yn llwyddo i ddisgrifio'r dwyfol mewn iaith empirig.
- Ond mae Stanisław Lem yn nodi nad yw hi byth yn bosibl disgrifio rhywbeth mor wahanol i ni yn ein hiaith ni. Mae gormod o bethau sy'n rhwystr i ddealltwriaeth. Er enghraifft, os gall rhywbeth 'fodoli' heb gyfeiriad at amser neu fater, beth yw ystyr 'bodoli' o gwbl?
- Fodd bynnag, dydy'r cyfyngu ar fynegiant ddim yn cyfyngu ar realiti. Er efallai nad yw cydweddiad yn ddigonol i ddisgrifio'r dwyfol, efallai ei fod yn mynd rywfaint o'r ffordd i'n galluogi ni i siarad amdano, felly dydy e ddim yn methu'n llwyr.

**Paragraff Tri:**

- Defnyddir cydweddiad drwy'r amser wrth ddefnyddio iaith mewn meysydd heblaw am grefydd. Mae'n gyfarwydd, mae'n ddealladwy ac felly mae'n faen prawf y mae pobl grefyddol ac anghrefyddol yn gallu ei gymhwyso a'i ddeall.
- Fodd bynnag, mae'n bosibl dyfeisio cyfres o reolau i'w chymhwyso i unrhyw beth. Dydy hyn ddim yn gwneud y rheolau hyn yn gywir wrth adlewyrchu'r gwirionedd.
- Dydy mater ystyr ddim yn ymwneud ag a yw honiad yn gywir neu'n anghywir mewn gwirionedd. Mae'r gosodiad 'Mae pob eliffant yn binc' yn ystyrlon, er nad yw'n wir. Y cyfan sydd angen i Aquinas a Ramsey ei wneud yw creu system er mwyn deall iaith grefyddol, ac maen nhw wedi gwneud hyn yn llwyddiannus.

**Casgliad:**

- Mae gan gydweddiad rai rhinweddau er mwyn deall iaith grefyddol, yn yr ystyr ei fod yn systematig ac felly'n llwyddiannus. Fodd bynnag, fel unrhyw fath arall o iaith, mae nifer o swyddogaethau gan iaith grefyddol. Yn yr ysgrythurau rydyn ni'n gweld honiadau ffeithiol, caneuon, gorchmynion, deddfau a barddoniaeth. Dydy pob peth ddim yn gydweddiadol ac felly mae cydweddiad yn methu rhoi cyfrif am iaith grefyddol.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth ynghylch y cwestiwn.**

# Thema 4 U2: Iaith grefyddol (rhan 2)

## 4A U2 Iaith grefyddol yn an-wybyddol ac yn symbolaidd

### Profi eich hun, tudalen 107

1 Pa bedair swyddogaeth oedd gan iaith grefyddol yn ôl Randall?

- Cymhelliant – Mae symbolau'n ennyn emosiynau ac yn ysgogi pobl i weithredu. Maen nhw'n cymell teimladau'r rhai sy'n rhannu'r profiad ac yn rhoi grym i'r symbol ei hun i sbarduno ac ysbrydoli pobl.
- Cymdeithasol – Maen nhw'n ysgogi pobl i gydweithio ac maen nhw'n clymu cymunedau wrth ei gilydd. Mae'r syniadau a ddefnyddir wrth addoli yn rhoi hunaniaeth ar y cyd i bobl ac yn rhoi gweledigaeth gyffredin o werthoedd cyffredin. Mae hyn yn dod yn graidd hunaniaeth grefyddol.
- Cyfathrebu – Maen nhw'n cyfleu agwedd ar brofiad y mae'n amhosibl ei mynegi fel arall. Maen nhw'n ennyn teimladau ac yn trosglwyddo grym i'r symbol ei hun. Nid symbolau gwyddoniaeth yw'r rhain sy'n rhoi gwybodaeth ffeithiol am y byd. Yn hytrach maen nhw'n an-wybyddol ac yn emosiynol.
- Egluro a datguddio – Maen nhw'n datgelu mewnwelediad dynol i'r dwyfol yn yr un ffordd ag y mae celf neu farddoniaeth yn datgelu dealltwriaeth o'n lle ni yn y byd. Dydy hi ddim yn bosibl gwirio symbolau, ond maen nhw'n egluro ein dealltwriaeth. Drwy symbolau'n unig y mae'r bod dynol yn gallu nesáu at y dwyfol a byw bywyd crefyddol.

2 Pam mae iaith grefyddol ychydig bach fel celf neu farddoniaeth, yn ôl Randall?

Mae iaith grefyddol, fel celf neu farddoniaeth, yn rhoi mewnwelediad ynghylch ystyr bywyd ac i'n pwrpas ni ynddo, yn hytrach na ffeithiau am y byd ffisegol.

3 Beth yw ystyr yr ymadrodd damcaniaeth cydlyniad gwirionedd?

Y safbwynt athronyddol bod gwirionedd gosodiad mewn perthynas â'i gysondeb â gosodiadau eraill.

### Profi eich hun, tudalen 108

1 Ble mae Positifiaeth Resymegol yn methu, yn ôl Tillich?

Mae'n trin pob gair fel arwyddion yn unig.

2 Awgrymwch dair ffordd y mae symbolau'n wahanol i arwyddion, yn ôl Tillich.

- Mae'n amhosibl rhoi gair neu wrthrych arall yn lle symbolau, ond mae'n bosibl rhoi gair neu wrthrych arall yn lle arwyddion.
- Mae cyswllt annatod yn dod rhwng symbolau a'r peth y maen nhw'n pwyntio ato, ond mae arwyddion yn fympwyol.
- Mae symbolau'n farddonol, yn litwrgaidd, ac mae ganddyn nhw bŵer.

3 Beth fyddai'n gwneud i symbol farw?

Os yw symbol yn peidio â datgelu dimensiynau eraill o realiti mewn cymdeithas, yna mae'n marw.

### Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 109

A yw Tillich a Randall yn helpu i ddatrys unrhyw un o broblemau iaith grefyddol? Ystyriwch y canlynol:

1 Os yw iaith grefyddol yn an-wybyddol, beth mae hi'n ei gyfathrebu mewn gwirionedd?

Mae'n anodd dweud oni bai eich bod chi'n rhan o'r gymuned grefyddol sy'n defnyddio'r iaith symbolaidd. Mae Tillich yn defnyddio enghraifft darn o gelf, sy'n awgrymu bod angen un ffydd arnoch chi'n barod er mwyn deall yr ystyr mewn iaith o'r fath. Felly, mae'r ffaith nad oes sylfaen o brofiad cyffredin yn dal i fod yn broblem arwyddocaol.

2 A yw hi byth yn bosibl gwybod unrhyw beth nad yw'n bosibl ei wirio neu ei anwirio?

Nac ydy – Yr unig beth y gallwch ei wybod yw rhywbeth sydd â thystiolaeth empirig sy'n dangos yn ddiamheuol ei fod yn wir.

Ydy – Mae mwy nag un ffordd o gaffael gwybodaeth. Mae rhesymoliaeth yn awgrymu y gallwch chi gaffael gwybodaeth drwy ddefnyddio rheswm yn unig. Efallai y gallwn ni gaffael gwybodaeth drwy ddatguddiad hefyd. Felly dylai unrhyw iaith rheswm neu ddatguddiad fod yn ddilys.

3 A yw gwaith celf, barddoniaeth neu gerddoriaeth yn cyfleu unrhyw fath o wirionedd?

Nac ydyn – Maen nhw'n hardd ac yn llawn mynegiant, ond mae'n amhosibl eu deall nhw fel pethau i'w dadansoddi i gael mewnwelediad neu realiti.

Ydyn – Mae pobl yn gyson yn cael mewnwelediad drwy greu gweithiau fel hyn, neu drwy brofi gweithiau fel hyn gan bobl eraill. Nid gwirionedd gwybyddol mohono, ond mae'n rhyw fath o fewnwelediad a dealltwriaeth o'r profiad dynol.

## 4B U2 Iaith grefyddol yn an-wybyddol ac yn fytholegol

### Profi eich hun, tudalen 113

1 Sut mae'n bosibl i fythau fod yn ystyrlon os ydyn nhw'n an-wybyddol?

- Mae mythau'n sôn am beth yw ystyr bod yn ddynol mewn byd dryslyd, peryglus neu ddirgel.
- Maen nhw'n ymwneud â'r byd empirig drwy ystyried yr arwyddocâd y tu ôl i brofiadau bydol.
- Maen nhw'n cyfleu dealltwriaeth ddynol o natur, pwrpas a pherthynas Duw â'r byd.
- Maen nhw'n cynnig mewnwelediadau i'r gymdeithas neu'r diwylliant y maen nhw'n perthyn iddi.

- Maen nhw'n ymdrin â'r mathau o broblemau sy'n wynebu bodau dynol o hyd, er enghraifft pam rydyn ni yma, pwrpas drygioni a'r angen am ofal.
- Maen nhw'n siarad â phobl am eu tynged.

2 Awgrymwch dri symbol a'u hystyron sy'n digwydd sawl tro ym mytholeg y creu.

- Dŵr – Dirgelwch; anhrefn; natur anrhagweladwy; diffyg rheolaeth; yn puro; yn cynnal bywyd; yn ddinistriol; yn frawychus; yn gallu llifo dros y Ddaear neu lyncu cwch ond eto i gyd mae Duw yn gallu ei reoli.
- Tir – Trefn; sefydlogrwydd; rheolaeth
- Golau – Gwybodaeth; dealltwriaeth; grym; gwirionedd; canfyddiad; bywyd

3 Beth yw arwr yr haul?

Person o darddiad dwyfol neu hanner dwyfol sy'n gysylltiedig â grym yr haul.

## Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 114

A yw'r cysyniad o fyth yn gwneud iaith grefyddol yn ystyrlon? Ystyriwch y canlynol:

1 A allwn ni wybod unrhyw ffeithiau am Dduw os ydyn ni'n defnyddio myth i siarad amdano Ef?

Na allwn – Pethau empirig yw ffeithiau. Dydy Duw ddim yn empirig a dydy iaith fytholegol ddim yn honni ei bod hi'n cyfleu data empirig.

Gallwn – Dydy ffaith ddim yn gyfyngedig i ddata empirig a labelu gwrthrychau. Mae mythau'n siarad â phobl gydol amser am y pryderon a'r gwerthoedd y mae bodau dynol yn eu rhannu. Maen nhw'n dangos i ni fod ein pryderon a'n gwerthoedd yn bwysig ac nad ydyn nhw'n unigryw.

2 Sut ac a allwn ni ddweud y gwahaniaeth rhwng elfennau mytholegol a llythrennol stori?

Na allwn – Mae'n amhosibl troi'r cloc yn ôl a deall beth oedd bwriad yr awdur. Mae'n debygol y byddai awduron yr ysgrythur, heb wybodaeth wyddonol fodern, wedi credu bod rhai o'r 'mythau' hyn yn wir.

Gallwn – Drwy ystyried pa elfennau sy'n gyson â gwyddoniaeth fodern a pha rai sy'n groes iddi. Mae'n bosibl deall unrhyw beth sy'n groes i wyddoniaeth fodern yn fytholegol.

3 Yn eich barn chi, sut gallai credinwyr crefyddol ymateb i rywun sy'n dweud bod iaith grefyddol yn fytholegol?

Byddai rhai'n berffaith hapus gyda hyn – Dyma sut mae credinwyr yn trin yr iaith hon ers canrifoedd. Roedd ysgolheigion fel Awstin ac Aquinas hyd yn oed yn cydnabod bod adegau pan oedd yr ysgrythur yn cyferbynnu â'n profiad o'r byd. Roedden nhw'n sylweddoli mai arwydd oedd hwn y dylen ni chwilio am ystyr ysbrydol y testun.

Byddai rhai, sy'n ffafrio dehongliad llythrennol, yn gwrthwynebu – Ymagwedd fwy modern gan rai credinwyr yw derbyn bod yr ysgrythur i gyd yn llythrennol wir oherwydd fel arall mae'n codi amheuon am y gorchmynion moesol a roddodd Duw. Os yw rhan ohoni'n fytholegol, gallai'r cyfan fod yn fytholegol, ac mae hyn yn annioddefol.

# 4C U2 Iaith grefyddol fel gêm ieithyddol

## Profi eich hun, tudalen 116

1 Rhestrwch dair ffordd o ddefnyddio iaith.

**Atebion enghreifftiol:**

- Ebychu
- Adrodd stori
- Dweud jôc

2 Pam roedd Wittgenstein yn meddwl bod Positifiaeth Resymegol yn gyfyngedig?

Mae Positifiaeth Resymegol yn methu cwmpasu cymhlethdod iaith. Mae'n trin pob iaith fel petai'r un pwrpas gan bob un: nodi ffeithiau.

3 Pam mae iaith grefyddol yn ddiogel rhag heriau Positifiaeth Resymegol?

Mae'n rhaid eich bod chi wedi ymdrwytho yn y ffurf ar fywyd sy'n cyfateb i'r gêm er mwyn deall ei rheolau hi. Dydy herio rheolau un gêm drwy ddefnyddio rheolau gêm arall ddim yn gyfiawn.

## Profi eich hun, tudalen 117

1 Beth yw damcaniaeth cydlyniad gwirionedd?

Mae damcaniaeth cydlyniad gwirionedd yn honni bod modd ystyried bod rhywbeth yn wir os yw'n gydlynol â gosodiadau penodol eraill.

2 Beth mae Wittgenstein yn ei feddwl wrth ddweud y dylen ni 'edrych a gweld'?

Mae Wittgenstein yn dadlau bod yn rhaid i ni 'edrych a gweld' sut defnyddir yr iaith, yn hytrach na pha ddarlun mae pob gair yn ei greu yn ein meddyliau. Felly, pan mae rhywun yn dweud 'Help!', dydyn ni ddim yn chwilio am eitem sy'n cyfateb i'r gair, rydyn ni'n deall bod gorchymyn yn cael ei roi. Os clywn ni rywun yn dweud 'Beth yw'r enw ar y peth yna?', rydyn ni'n 'edrych a gweld' cais am wybodaeth yn hytrach na datganiad am ffaith wybyddol.

3 Beth yw ystyr bod person wedi ymdrwytho mewn ffurf ar fywyd?

Cymryd rhan ynddi a bod yn rhan ohoni. Os ydych chi'n chwarae gêm o rygbi, byddai'n rhaid i chi fod ar y cae, yn rhedeg, yn taclo ac yn trin y bêl, nid yn gwylio o'r ystlys yn unig. Mewn gêm ieithyddol, mae'n rhaid i chi fod yn defnyddio'r iaith eich hun, yn gwrando arni ac yn ei siarad er mwyn ymdrwytho'n wirioneddol ynddi.

## Cymhwyso eich gwybodaeth, tudalen 117

A yw'r cysyniad o gemau ieithyddol yn gwneud iaith grefyddol yn ystyrlon? Ystyriwch y canlynol:

1 Ydy hi byth yn bosibl herio honiad sy'n cael ei wneud am Dduw?

Ydy – Os ydych chi wedi ymdrwytho yn y gêm ac mae rhywun yn eich gêm yn gwneud honiad rydych chi'n meddwl ei fod yn anghywir, yna rydych chi'n rhydd i herio'r honiad.

Yr hyn na allwch chi ei wneud yw herio honiad a wnaed yn ôl gêm nad ydych chi'n ei chwarae.

Nac ydy – Os ydych chi wedi ymdrwytho yn yr un gêm â phobl eraill, yna rydych chi'n mynd i wneud yr un mathau o honiadau. Mae'n amhosibl i chi fod wedi ymdrwytho yn y gêm ac yna herio ei rheolau hi. O reidrwydd, er mwyn bod yn rhan o'r gêm, rydych chi wedi derbyn y rheolau ac felly chewch chi byth herio honiad. Yn ogystal, does neb y tu allan i gêm yn cael herio honiad a gafodd ei wneud yn y gêm.

2 Sut rydych chi'n meddwl y byddai crediniwr crefyddol yn teimlo ynghylch iaith grefyddol yn cael ei chymharu â gêm?

Byddai ambell grediniwr yn gwrthwynebu'n gryf – Efallai y byddai'n ystyried bod y gymhariaeth â gêm yn bychanu iaith grefyddol ac yn methu adnabod bod honiadau ffeithiol yn cael eu gwneud weithiau. Nid gêm yw honni bod Duw yn bodoli, gosodiad ydyw y mae credinwyr yn credu ei fod yn ffeithiol.

I bobl eraill, byddai hyn yn dderbyniol – Pan maen nhw'n sôn am Dduw yn bodoli, mae credinwyr crefyddol yn gwneud rhywbeth gwahanol i'r gwyddonydd wrth ddisgrifio priodweddau atom carbon. Mae ystyried hyn yn ôl cydweddiad gêm yn caniatáu i swyddogaethau gwahanol iaith fod yr un mor ddilys â'i gilydd.

3 A allai rhywun ymdrwytho mewn gêm Bositifaidd Resymegol a gêm grefyddol?

Na allai – Os ydych chi wedi ymdrwytho'n llwyr yn y ffurf grefyddol ar fywyd, byddai hi'n amhosibl i chi allu credu ei bod hi'n dderbyniol i chi gymryd rhan mewn gêm sy'n uniongyrchol groes i'r un grefyddol.

Gallai – Mae rhai pobl yn gweld bod crefydd yn werthfawr ac yn ddefnyddiol, eto i gyd dydyn nhw ddim yn cytuno ei bod hi'n ffeithiol wir. Does dim rheswm pam na allai rhywun sy'n ymdrwytho mewn Positifiaeth Resymegol chwarae gêm ffydd ar ddydd o orffwys crefyddol. Mae'n rhaid i Bositifiaethwyr Rhesymegol ddefnyddio iaith pob dydd pan maen nhw y tu allan i'r brifysgol os ydyn nhw'n dymuno cynnal perthnasoedd a chael ansawdd bywyd. Mae gêm Positifiaeth Resymegol yn cael ei chwarae yn amgylchedd yr ystafell ddosbarth athroniaeth, ond does dim lle iddi yn unman arall.

# Cwestiynau enghreifftiol

## Cwestiynau enghreifftiol AA1, tudalen 120

1 Cymharwch waith Randall a Tillich ar iaith grefyddol fel rhywbeth symbolaidd.

| **Randall** | **Tillich** |
|---|---|
| Meini prawf ystyr an-wybyddol:<br>• Maen nhw'n gwneud honiadau y mae'n amhosibl eu gwirio yn ôl tystiolaeth empirig.<br>• Dydyn nhw ddim yn mynegi gosodiadau.<br>• Mae iddyn nhw gynnwys deongliadol. | |
| Mae symbolau'n wahanol i arwyddion. | |
| Arwydd: | Arwydd:<br>• mae'n pwyntio y tu hwnt iddo ef ei hun at rywbeth arall |

| **Randall** | **Tillich** |
|---|---|
| • yn cynrychioli neu'n sefyll dros rywbeth arall<br>• mae'n cynhyrchu'r un ymateb gan bobl â'r peth y mae'n sefyll drosto.<br>Symbol:<br>• yn ei gynrychioli ei hun<br>• mae'n ysgogi ymateb unigryw yn y rhai sy'n ei weld neu'n ei ddefnyddio. | • mae'n fympwyol ac mae'n bosibl rhoi rhywbeth arall yn ei le<br>• does arno ddim angen unrhyw berthynas â'r peth y mae'n pwyntio ato.<br>Symbol:<br>• mae'n pwyntio y tu hwnt iddo ef ei hun at rywbeth arall<br>• mae'n amhosibl rhoi gair neu wrthrych arall yn ei le<br>• mae cyswllt annatod yn dod rhyngddo a'r peth y mae'n pwyntio ato. |
| Roedd gan Randall ddamcaniaeth cydlyniad gwirionedd – bod gwirionedd gosodiad mewn perthynas â'i gysondeb â gosodiadau eraill. | Mae symbolau'n mynegi ein 'mater pwysig eithaf', sef y sanctaidd neu'r nwminaidd. |
| Yn canolbwyntio ar swyddogaeth iaith grefyddol. Pedair swyddogaeth symbolau:<br>• Cymhelliant – Mae symbolau'n ennyn emosiynau ac yn ysgogi pobl i weithredu.<br>• Cymdeithasol – Maen nhw'n ysgogi pobl i gydweithio ac maen nhw'n clymu cymunedau wrth ei gilydd.<br>• Cyfathrebu – Maen nhw'n cyfleu agwedd ar brofiad y mae'n amhosibl ei mynegi fel arall.<br>• Egluro a datguddio – Maen nhw'n datgelu mewnwelediad dynol i'r dwyfol yn yr un ffordd ag y mae celf neu farddoniaeth yn datgelu dealltwriaeth o'n lle ni yn y byd. | Chwe nodwedd ar symbolau:<br>• Maen nhw'n pwyntio y tu hwnt iddyn nhw eu hunain at rywbeth arall – Gyda symbolau crefyddol, y Sanctaidd yw'r peth hwn.<br>• Maen nhw'n cymryd rhan yn yr hyn y maen nhw'n pwyntio ato – Mae'r symbol yn dod yn rhan o'r ystyr.<br>• Maen nhw'n agor lefelau o realiti sydd ynghudd fel arall – Mae iaith lythrennol yn gyfyngedig.<br>• Maen nhw'n datgloi agweddau ar ein henaid sy'n cyfateb i'r lefelau hyn o realiti – Mae hyn yn rhoi ysbrydoliaeth a dealltwriaeth ddyfnach o ffydd.<br>• Methu cael eu cynhyrchu – Mae symbolau'n deillio o'r anymwybod cyffredinol ac yn cael eu derbyn dim ond os ydyn nhw'n bodloni anghenion sefyllfa fewnol y grŵp.<br>• Mae symbolau'n gallu marw – Os yw symbol yn peidio â gweithredu mewn cymdeithas, yna mae'n marw. |

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

2 Archwiliwch iaith grefyddol fel rhywbeth an-wybyddol a mytholegol.

- Mae mythau'n an-wybyddol oherwydd nad ydyn nhw'n cyfleu ffeithiau am y byd empirig. Fodd bynnag, mae'n bosibl dweud eu bod nhw'n ffynhonnell gyfoethog o wirionedd ysbrydol neu foesol.
- Mythau:
  - Sôn am beth yw ystyr bod yn ddynol mewn byd dryslyd, peryglus neu ddirgel.
  - Ymwneud â'r byd empirig drwy ystyried yr arwyddocâd y tu ôl i brofiadau bydol.

- Cyfleu dealltwriaeth ddynol o natur, pwrpas a pherthynas Duw â'r byd.
- Cynnig mewnwelediadau i'r gymdeithas neu'r diwylliant y maen nhw'n perthyn iddi.
- Ymdrin â'r problemau sy'n wynebu bodau dynol o hyd, er enghraifft pam rydyn ni yma, pwrpas drygioni a'r angen am ofal.
- Siarad â phobl am eu tynged.

- Er mwyn deall myth crefyddol, mae'n rhaid i ni ystyried *Sitz im Leben* yr ysgrifennwr. Y ffordd orau i ni ddeall yr ystyr y tu ôl i'r ddelweddaeth a'r symbolau yn y stori yw os ydyn ni'n gwybod ychydig bach yn rhagor am y gymdeithas yr oedd yr awdur yn ysgrifennu ynddi a beth gallai ei fater pwysig eithaf fod.
- Mae mythau'n digwydd ar draws crefyddau a diwylliannau ac maen nhw'n cynnwys themâu cyffredin oherwydd bod materion sy'n gyffredin i brofiad dynol. Mae angen nifer o ddisgyblaethau fel diwinyddiaeth, anthropoleg a seicoleg i ddatod yr ystyr cymhleth sydd yn y mythau.
- Er enghraifft, mae mythau'r creu yn sôn am gyfnod cyntefig cyn cofnodion hanesyddol. Er na fwriadwyd y storïau hyn i fod yn wybyddol, maen nhw'n ystyrlon serch hynny. Maen nhw'n cynnwys themâu cyffredin:
  - Dŵr – Yn cynrychioli anhrefn, yn cynnal bywyd, yn frawychus, yn gallu llifo dros y Ddaear neu lyncu cwch ond eto i gyd mae Duw yn gallu ei reoli.
  - Tir – Yn cynrychioli trefn, sefydlogrwydd a rheolaeth.
  - Goleuni – Yn sefyll dros wybodaeth, gwirionedd a bywyd.
- Mae mythau'n ymwneud â'n hofnau a'n materion pwysig eithaf: Pa fath o brofiad fydd marw? Beth fydd yn digwydd i mi? Beth fydd yn digwydd os yw rhywun yn gwasgu'r botwm niwclear? Beth os bydd y capiau iâ i gyd yn toddi a'r byd yn cael ei orlifo? Mae gennym faterion pwysig eithaf sy'n wahanol yn y byd heddiw, ond mae mythau'n ymdrin â'r angen am ddealltwriaeth.
- Yn ôl Jung, mae'r mythau hyn yn archdeipaidd o ran eu tarddiad ac rydyn ni'n eu cynhyrchu nhw oherwydd eu bod nhw'n rhan o angen seicolegol hollgyffredinol am lesiant meddyliol.
- Ym mhob myth, mae elfen o ofn, diffyg rheolaeth a dirgelwch. Er bod gan y gymdeithas fodern fwy o wybodaeth wyddonol nawr, mae'r ddynoliaeth yn dal i ddangos bod angen mythau sy'n tystio i'n hofn am drychineb apocalyptaidd.
- Mae'r mythau hyn yn dod â mewnwelediad sydd ddim yn herio gwyddoniaeth, ond sy'n siarad â ni'n ysbrydol neu'n emosiynol fel y gallwn ni ddeall ein lle ein hun yn y bydysawd a chael ein hysbrydoli i ymateb yn gadarnhaol iddo.
- Mae Alasdair MacIntyre yn cynnig y dylen ni gwestiynu a yw mythau'n fyw neu'n farw, yn hytrach na dadansoddi a ydyn nhw'n gywir neu'n anghywir. Ystyr hyn yw bod myth naill ai'n cynnwys diben a pherthnasedd o ran sut mae pobl yn byw, neu dydy e ddim.
- Er enghraifft, a yw'r myth yn:
  - helpu i glymu cymunedau wrth ei gilydd?
  - llunio ymddygiad dynol ar ffurf moeseg?
  - rhoi ymdeimlad o bwrpas i unigolion yn eu bywydau?
  - ysbrydoli gweithredu cymdeithasol?
- Mae mythau'n datgan ein lle yn y gymdeithas, ein perthynas â Duw a phwrpas ein bywydau. Wedyn maen nhw'n effeithio ar ein hymddygiad.

- Maen nhw'n gallu bod yn an-wybyddol ac eto'n dal i fod ag ystyr. Eu bwriad yw trefnu ein profiadau, rhoi gwybodaeth i ni amdanon ni ein hunain, mynegi gobaith a chynnig patrymau ar gyfer gweithredu dynol mewn bywyd go iawn ac mewn defodau.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

3 Esboniwch gysyniad Wittgenstein o iaith grefyddol fel gêm ieithyddol.

- Dadl Wittgenstein yn ei lyfr *Philosophical Investigations* yw bod ystyr gair yn ei swyddogaeth yn yr iaith. Mae Wittgenstein yn defnyddio cydweddiad bocs offer llawn; mae swyddogaeth geiriau mor eang ac amrywiol â swyddogaeth yr offer. Mae pob un yn gallu gwneud pethau gwahanol.
- Defnyddir iaith mewn nifer o ffyrdd, ac mae Wittgenstein yn rhoi rhestr helaeth o swyddogaethau sy'n cynnwys:
  - Disgrifio gwrthrych
  - Ebychu
  - Dweud jôc
  - Gofyn, diolch, cyfarch, rhegi, gweddïo...
- Mae pob un o swyddogaethau gwahanol iaith yn gêm ieithyddol wahanol.
- Labelu eitemau yw un gêm ieithyddol. Gêm ieithyddol gyntefig yw hon lle gallai plentyn ddeall sut mae eitem a gair yn cyfateb. Gêm arall fwy cymhleth yw pan mae rhywun yn deall bod angen gweithredu i ymateb i'r gair, er enghraifft mynd i nôl yr eitem honno.
- Mae Positifiaeth Resymegol yn methu cwmpasu cymhlethdod iaith yn yr ystyr ei bod hi'n trin pob iaith fel petai'r un pwrpas gan bob un, sef nodi ffeithiau.
- Mae Positifiaeth Resymegol ac iaith grefyddol yn gemau ieithyddol gwahanol. Er enghraifft, diffiniwch y gair 'gêm'. Ydy e'n ymwneud ag ennill neu golli? Os 'ydy' yw'r ateb, yna byddai hyn yn golygu nad yw plentyn sy'n bwrw ei bêl yn erbyn wal yn chwarae gêm. Ydy e'n ymwneud â sgìl neu fedr? Os 'ydy' yw'r ateb, yna nid chwarae gêm mae grŵp o blant sy'n chwarae 'Faint o'r gloch yw hi, Mr Blaidd?'.
- Mae'r defnydd o iaith yn rhan o weithgarwch neu ffurf ar fywyd sy'n nodi sut mae'r iaith yn mynd i gael ei defnyddio. Mae ffurfiau ar fywyd yn dibynnu ar ddiwylliant a chyd-destun. Ffurf ar fywyd y chwaraewr rygbi yw symud ar gae rygbi. Bydd e'n deall 'gêm' mewn ffordd wahanol i chwaraewr gwyddbwyll, sydd â'i ffurf ar fywyd o dan do ac yn ddisymud, wrth fwrdd. Mae pob bod dynol yn ymdrwytho mewn ffurfiau gwahanol ar fywyd. Os ydych chi'n ymdrwytho mewn ffurf ar fywyd, byddwch chi'n deall rheolau'r gêm honno.
- Mae tebygrwydd rhwng y gemau, ond dydy pob gêm ddim yn rhannu'r un nodweddion. Mae gemau ieithyddol yn dangos tebygrwydd teuluol neu *Familienähnlichkeit*. Mae tebygrwydd yn y gemau ieithyddol sy'n cael eu chwarae, ond dydyn nhw ddim yn unfath. Does dim byd yn gyffredin i bob gêm, ond mae perthynas rhyngddyn nhw i gyd sy'n gorgyffwrdd ac yn cris-croesi, ac mae'n amhosibl ei labelu a'i diffinio mewn un ffordd.
- Mae'n bosibl dysgu gemau ieithyddol eraill a chymryd rhan mewn mwy nag un gêm. Dydy'r fath beth ag iaith breifat ddim yn bosibl; gweithgarwch cymunedol yw iaith. Felly, dydy unrhyw beth a phopeth ddim yn ystyrlon, mae angen i bobl eraill ddeall rheolau'r gêm.

- Mae gemau ieithyddol yn an-wybyddol. Felly, o gyd-destun yr iaith mae ystyr yn dod, nid o nodi gwirioneddau y mae'n bosibl eu gwirio am y byd. Dydy ystyr gêm ieithyddol ddim bob amser yn eglur i bobl nad ydyn nhw'n cymryd rhan yn y gêm, felly rhaid i bobl fod wedi ymdrwytho yn y ffurf ar fywyd i'r iaith fod yn ystyrlon.
- Mae Wittgenstein yn dadlau bod yn rhaid i ni 'edrych a gweld' sut defnyddir yr iaith, yn hytrach na pha ddarlun mae pob gair yn ei greu yn ein meddyliau. Felly, pan mae rhywun yn dweud 'Help!', dydyn ni ddim yn chwilio am eitem sy'n cyfateb i'r gair, rydyn ni'n deall bod gorchymyn yn cael ei roi.
- Mae iaith grefyddol yn gydlynol yng nghyd-destun ffurf grefyddol ar fywyd. Mae damcaniaeth cydlyniad gwirionedd yn honni bod modd ystyried bod rhywbeth yn wir os yw'n gydlynol â gosodiadau penodol eraill. Dydy mynegiadau fel hyn ddim yn ystyrlon o dan ddamcaniaeth cyfatebiaeth; mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod ni'n gwybod pa gêm sy'n cael ei chwarae cyn i ni asesu gosodiad o ran ei ystyr. Dydy herio rheolau un gêm drwy ddefnyddio rheolau gêm arall ddim yn gyfiawn.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

4 Esboniwch yr heriau i iaith fytholegol.

- Mae rhai mythau fel petaen nhw'n cyfleu syniadau cyferbyniol am ystyr a phwrpas bywyd. Sut gallwn ni wybod pa fyth sy'n cynnwys gwirionedd a pha un sy'n cynnwys anwiredd? Er enghraifft:
  - Genesis 1 – Cafodd bodau dynol eu creu yn fwriadol ac yn uniongyrchol drwy ewyllys ddwyfol ac maen nhw'n rhagori ar bob rhywogaeth arall.
  - Myth y creu Ainu o Japan – Esblygodd y ddynoliaeth o dduw a oedd yn arth wen. Aderyn, y sigl-i-gwt, dryslyd a greodd y byd ar ddamwain o fwd a oedd yno'n barod.
- Yn ogystal, wrth i *Sitz im Leben* bobl newid, mae'r ystyr sy'n cael ei briodoli i fythau yn newid. Mae rhai mythau'n mynd yn llai pwysig ac mae rhai newydd yn ymddangos. Os nad yw myth yn wir mwyach, yna mae sylfaen crefydd yn amheus. Er enghraifft, a yw'r disgyblion yn dal pysgod mewn ffordd wyrthiol yn ymwneud â:
  - galwad gan Grist i'w ddisgyblion i weinidogaethu er mwyn efengylu am eu ffydd?
  - pwysigrwydd ffydd hyd yn oed pan mae pethau'n mynd yn anodd?
  - dynoliaeth Iesu, gan fod angen iddo hela, coginio a bwyta fel pawb arall fel ei fod yn deall ymdrech y ddynoliaeth?
- Os yw myth yn diflannu oherwydd ei fod wedi colli gwerth, yna dydy e ddim yn sôn am faterion pwysig eithaf y gwrandäwr bellach.
- Yn ogystal, mae mytholeg yn gosod y dwyfol yn y byd empirig, ac felly mae'n gallu bod yn gamarweiniol ac yn rhwystr i ffydd. Mae storïau mytholegol yn ffantasi ac mae'r meddwl modern sy'n chwilio am y gwirionedd yn gallu eu gwrthod. Roedd Rudolf Bultmann yn ymwneud â dadfytholegu mythau crefyddol ac â chael gwared ar y rhannau camarweiniol neu eu categoreiddio o'r newydd. Er enghraifft:
  - Genesis 1 – Mae Duw i'w weld yn cerdded yn yr ardd gydag Adda ac Efa.
  - Actau 1 – Wedyn mae Crist i'w weld neu disgrifir ef yn codi'n gorfforol i'r nefoedd.
- Wrth gael gwared ar y mythau o'r ysgrythur, mae perygl cael gwared ar y neges sy'n cael ei chyfleu; ond mae'n aneglur pa rannau y mae'n rhaid eu rhoi o'r neilltu a pha rannau a ddylai aros. Mae mythau yn ddi-fudd, yn wyddonol ac yn ddiwinyddol, yn y byd modern.

- Yn olaf, er y gallen ni ddadlau nad oes angen deall mythau yn llythrennol, mae hyd yn oed yr ystyr y maen nhw'n ei gyfleu yn gwrthdaro'n uniongyrchol â dealltwriaeth wyddonol o'r byd. Er enghraifft, yn Genesis 1, mae Duw yn creu yn ddi-oed ac yn fwriadol. Efallai fod y myth yn dweud wrthon ni am rym creadigol Duw, ond mae'n gwrthdaro'n uniongyrchol â damcaniaeth esblygiad sy'n dweud wrthon ni fod bodau dynol wedi dod i fodolaeth drwy siawns a thrwy addasu i'r amgylchedd.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

5 Esboniwch sut mae'n bosibl defnyddio safbwyntiau Randall a Tillich i helpu i ddeall dysgeidiaeth grefyddol.

- Mae Randall a Tillich yn deall bod iaith grefyddol yn an-wybyddol. Mae hyn yn golygu bod iaith grefyddol yn gwneud honiadau y mae'n amhosibl eu gwirio yn ôl tystiolaeth empirig, ac nad yw hi'n gwneud gosodiadau a bod ganddi gynnwys deongliadol.
- Mae'r ddau'n datblygu cysyniad y symbol fel esboniad o iaith grefyddol. Felly, mae'n bosibl deall dysgeidiaethau crefyddol fel pethau symbolaidd.
- Mae Tillich yn cytuno bod dwy elfen i'n delwedd o Dduw:
  - Llythrennol – Ansymbolaidd fel sylfaen eithaf bodolaeth. Mae hyn yn golygu bod rhai honiadau'n cael eu gwneud yn llythrennol, h.y. bod Duw yn bod. Ond wedyn mae'n bosibl defnyddio iaith symbolaidd i ddeall hyn.
  - Symbolaidd – Rhinweddau neu weithredoedd wedi'u priodoli i Dduw. Mae'n amhosibl cymhwyso'r dysgeidiaethau hyn yn llythrennol gan mai dim ond rhinweddau dynol wedi'u perffeithio ydyn nhw. Duw fel ffynhonnell pob un, nid fel bod.
- Maen nhw'n cydnabod yr amrywiaeth gyfoethog o ffyrdd y mae'n bosibl defnyddio iaith, yn hytrach na'i chyfyngu hi i labelu gwrthrychau yn y byd.
- Mae'r ddau yn nodi bod symbolau'n wahanol i arwyddion. Mae Tillich yn gwrthod Positifiaeth Resymegol oherwydd ei bod hi'n trin pob iaith fel petai hi'n arwydd, yn labelu eitemau yn yr eiliad bresennol, a dim mwy.
- Mae Randall yn dweud bod symbol yn ysgogi ymateb unigryw yn y rhai sy'n ei ddefnyddio. Yn ôl Tillich mae cyswllt annatod yn dod rhwng y symbol a'r peth y mae'n pwyntio ato.
- Roedd Randall yn ymddiddori yn swyddogaeth yr iaith fel y mae'n cael ei defnyddio hi mewn dysgeidiaeth grefyddol. Datblygodd ei syniad am bedair swyddogaeth symbolau:
  - Cymhelliant – Mae symbolau'n ennyn emosiynau ac yn ysgogi pobl i weithredu.
  - Cymdeithasol – Maen nhw'n ysgogi pobl i gydweithio ac maen nhw'n clymu cymunedau wrth ei gilydd.
  - Cyfathrebu – Maen nhw'n cyfleu agwedd ar brofiad y mae'n amhosibl ei mynegi fel arall.
  - Egluro a datguddio – Maen nhw'n datgelu mewnwelediad dynol i'r dwyfol yn yr un ffordd ag y mae celf neu farddoniaeth yn datgelu dealltwriaeth o'n lle ni yn y byd.
- Mae symbolau'n helpu pobl i ddeall cyd-destun dysgeidiaeth grefyddol yn hytrach na diystyru honiadau o'r fath fel rhai sy'n groes i wybodaeth wyddonol.

- Mae Randall yn cadw at ddamcaniaeth cydlyniad gwirionedd. Felly, ond i ddysgeidiaethau crefyddol fod yn gyson neu'n rhesymegol yn y cyd-destun crefyddol ac yn ôl datganiadau eraill, mae'n bosibl dweud eu bod nhw'n wir.
- Mae'r profiad dynol yn ddyfnach na'r hyn y mae'n bosibl ei fynegi drwy iaith wyddonol. Mae barddoniaeth, celf a cherddoriaeth i gyd yn cynnig mewnwelediad i deimladau a blaenoriaethau pobl eraill, ac mae dysgeidiaeth grefyddol yn gwneud hyn ar lefel ysbrydol.
- Mae Tillich yn nodi chwe nodwedd ar symbolau er mwyn dangos yr elfen ddyfnach hon, sef sut mae bodau dynol yn mynegi dysgeidiaethau crefyddol:
  - Maen nhw'n pwyntio y tu hwnt iddyn nhw eu hunain at rywbeth arall – Mae'r symbol yn ennyn cysylltiad emosiynol ac mae cyswllt annatod yn dod rhyngddo a'r peth y mae'n pwyntio ato.
  - Mae symbolau'n cymryd rhan yn yr hyn y maen nhw'n pwyntio ato – Mae'r gair symbolaidd yn dod yn rhan o'r ystyr.
  - Maen nhw'n agor lefelau o realiti sydd ynghudd fel arall – Mae iaith lythrennol yn gyfyngedig ac mae'n amhosibl iddi fynegi dealltwriaeth fel hyn.
  - Maen nhw'n datgloi agweddau ar ein henaid sy'n cyfateb i'r lefelau hyn o realiti – Maen nhw'n rhoi ysbrydoliaeth a dealltwriaeth ddyfnach o ffydd.
  - Methu cael eu cynhyrchu – Dydy symbol ddim yn gallu cael ei ddyfeisio'n fwriadol ac ni all rhywbeth gymryd ei le'n fympwyol.
  - Mae symbolau'n gallu marw – Os yw symbol yn peidio â gweithredu mewn cymdeithas, yna mae'n marw.
- Mae'r ffaith bod symbolau Tillich yn gallu esblygu a marw yn cynnig esboniad o iaith grefyddol sy'n fwy cyson ag astudiaethau cymdeithasegol o grefydd.
- Er nad oes ffordd amlwg o drosi symbolau'n ddibynadwy, mae damcaniaeth symbolau yn rhoi maen prawf o ran ystyr i iaith grefyddol i ryw raddau, fel bod hyd yn oed yr anghrediniwr yn gallu gobeithio deall swyddogaeth iaith o'r fath.
- Mae'r profiad dynol yn ddyfnach na'r hyn y mae'n bosibl ei fynegi drwy iaith wyddonol. Mae barddoniaeth, celf a cherddoriaeth yn cynnig mewnwelediad i deimladau a blaenoriaethau pobl eraill, ac mae iaith grefyddol yn gwneud hyn ar lefel ysbrydol.

**Nid rhestr wirio yw hon. Mae'n bosibl i unrhyw atebion eraill dilys ennill marciau.**

## Cwestiynau enghreifftiol AA2, tudalen 120

1 Gwerthuswch y safbwynt nad yw atebion an-wybyddol yn gallu datrys problemau iaith grefyddol.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Datrys = Trwsio, cywiro, mae ateb wedi dod.

**Paragraff Un:**

- Mae atebion an-wybyddol yn datrys problemau iaith grefyddol oherwydd eu bod nhw'n cydnabod bod iaith yn fwy cymhleth nag adnabod eitemau yn y presennol yn unig.

- Fodd bynnag, mae'n amhosibl gwrthod honiadau ffug os derbynnir iaith an-wybyddol. Mae hyn yn golygu bod problem arall, sef nad ydyn ni'n gallu dadansoddi honiadau ffug i weld a ydyn nhw'n anwir.
- Mae'n ymddangos, er bod iaith an-wybyddol yn ateb deniadol oherwydd gallai hi fod yn dderbyniol mewn bywyd bob dydd, mae'n amhosibl ei dadansoddi mewn athroniaeth ac felly dydy hi ddim yn datrys y problemau.

**Paragraff Dau:**

- Mae honiadau an-wybyddol yn haniaethol ac felly yn anaddas i'w dadansoddi'n athronyddol. Mae hyn yn golygu nad yw'r problemau cynhenid yn cael eu datrys.
- Fodd bynnag, mae atebion an-wybyddol yn ehangu ystod mynegiant dynol fel bod modd ystyried swyddogaeth. Mae hyn yn welliant ar yr opsiynau cyfyngedig y mae'r Positifiaethwyr Rhesymegol yn eu cynnig.
- Mae'n ymddangos bod modd dweud rhagor gan ddefnyddio atebion an-wybyddol ond mae'n amhosibl gwybod llawer. Felly, er bod yr iaith yn gallu bod yn ystyrlon, mae'n anodd gwybod sut mae hyn yn ddefnyddiol i athroniaeth.

**Paragraff Tri:**

- Mae siarad am Dduw yn gallu bod yn gyfoethog, yn emosiynol ac yn ymwneud â phrofiad unigol. Mae atebion an-wybyddol yn cydnabod ac yn dathlu hyn. Maen nhw'n adlewyrchu profiad defnyddwyr iaith.
- Fodd bynnag, gydag atebion fel hyn, nawr mae crediniwr crefyddol yn methu gwneud honiadau gwybyddol am Dduw. Mae hyn yn anfoddhaol i lawer o bobl a allai ddweud mai honiad ffeithiol yw 'Mae Duw yn bodoli'.
- Mae'n ymddangos y gallai unigolyn deimlo bod termau crefyddol yn ystyrlon. Ond, mae'n amhosibl eu gwneud nhw'n hollgyffredinol fel bod pob person yn golygu'r un peth wrth ddefnyddio'r iaith. Mae hyn yn gwneud yr atebion yn aneffeithiol.

**Casgliad:**

- Mae atebion an-wybyddol yn athronyddol ddi-werth a dydyn nhw ddim yn datrys problemau iaith grefyddol. Mae hyn oherwydd, er ei bod hi'n ymddangos eu bod nhw'n gadael i iaith grefyddol fod yn ystyrlon, dydyn nhw ddim yn cynnig unrhyw fewnwelediad i wirioneddau gwrthrychol ac felly mae hi'n amhosibl dweud beth yn union yw pwrpas iaith fel hyn.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth ynghylch y cwestiwn.**

2 'Mae gemau ieithyddol yn gwneud pob iaith yn ystyrlon.' Gwerthuswch y safbwynt hwn.

**Mae cymaint o ffyrdd derbyniol o ateb y cwestiwn hwn. Mae'r awgrym isod yn ddull derbyniol ond nid dyma'r unig un.**

**Rhagarweiniad:**

- Ystyrlon = Bod rhywun yn gallu deall y bwriad y tu ôl i'r geiriau, *nid* eu bod nhw'n wir o reidrwydd.

**Paragraff Un:**

- Mae gemau ieithyddol yn gwneud i bob iaith fod yn ystyrlon oherwydd nad oes modd herio rheolau gêm nad ydych chi wedi ymdrwytho ynddi.

- Fodd bynnag, does dim byd i atal rhywun o'r tu mewn i ffurf ar fywyd rhag amau'r rheolau sydd ar waith. Gallai rhywun sy'n holi 'A oes bywyd ar ôl marwolaeth?' fod wedi ymdrwytho yn y ffurf grefyddol ar fywyd ond gallai fod yn herio a yw honiad o'r fath yn wybyddol.
- Yn ogystal, mae ysgolheigion crefyddol sy'n gwneud hyn yn union. Yn y ffurf grefyddol ar fywyd, mae rhai pobl yn ystyried bod honiadau am fywyd ar ôl marwolaeth yn llythrennol, wrth i eraill fod o'r farn mai sôn am y bywyd hwn maen nhw.

**Paragraff Dau:**

- Mae Wittgenstein yn eglur iawn ei fod yn gwrthod iaith breifat, felly mae gemau ieithyddol yn cyfyngu iaith ystyrlon i'r iaith a ddefnyddir o fewn grwpiau o bobl sy'n cymryd rhan yn yr un gêm.
- Fodd bynnag, dydy hyn ddim yn cyfyngu llawer iawn ar ystod beth sy'n ystyrlon. Mae iaith breifat yn mynd i fod yn ddiystyr, ond dydy hi ddim yn agored i ddadansoddiad athronyddol oherwydd ei bod hi'n breifat.
- Eto i gyd, nid a allwn ni ddiystyru rhai mathau o iaith fel rhai diystyr yw'r hyn sy'n bwysig. Yr hyn sy'n bwysig yw, pan ddefnyddir iaith rhwng pobl, ei bod hi'n bosibl iddi gynnwys ystyr. Mae gemau ieithyddol yn sicrhau bod maen prawf ystyr i iaith ac felly os yw hyn yn gwneud pob iaith yn ystyrlon, yna mae'n beth da.

**Paragraff Tri:**

- Mae damcaniaeth gemau ieithyddol Wittgenstein yn gwneud pob iaith a ddefnyddir rhwng mwy nag un person yn ystyrlon, ond dim ond i'r rhai o fewn yr un ffurf ar fywyd.
- Ond mae hyn yn ei gwneud hi'n amhosibl i rywun y tu allan i'r gêm ei deall hi. Felly, mae damcaniaeth gemau ieithyddol yn gwneud pob iaith yn ddiystyr i rywun ar ryw adeg.
- Yn ogystal, er ei bod hi'n bosibl i bob math o iaith fod yn ystyrlon, mae'n anodd gweld sut gall unrhyw ddeialog rhwng crefyddau ddigwydd, neu sut gall unrhyw un gael trafodaeth am Dduw o safbwyntiau gwahanol. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n amhosibl i bob math o iaith fod yn ystyrlon oherwydd dylai pawb fod yn gallu ei deall a'i dadansoddi.

**Casgliad:**

- Mae damcaniaeth gemau ieithyddol yn ddeniadol oherwydd ei bod hi'n adnabod bod gan iaith nifer o swyddogaethau. Fodd bynnag, mae'n methu gwneud pob iaith yn ystyrlon, oherwydd dydy hi ddim yn gadael i ddadansoddi athronyddol ddigwydd rhwng pobl sy'n dod o ffurfiau gwahanol ar fywyd.

**At ei gilydd, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r ddadl a dod i gasgliad sydd wedi'i gefnogi â thystiolaeth ynghylch y cwestiwn.**